RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
80/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:
08/12/2016

# Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol 2016

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-8172-5

**Gwerthusiad o’r Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen:**

Adroddiad Terfynol 2016

**Daniel Evans, Chris Taylor a Mirain Rhys**

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd

Safbwyntiau’r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o fanylion cysylltwch ag:

Enw: Dr Neil Roberts

Adran: Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus ac Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 20826448

Ebost: neil.roberts@wales.gsi.gov.uk

## Tabl Cynnwys


Rhestr Acronymau ........ i
Cydnabyddiaethau ........ i
CRYNODEB GWEITHREDOL ........ ii
1 Cyflwyniad ........ 1
2 Gwerthusiad o’r Cynlluniau Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen ........ 17
3 Gwerthusiad o gynllun Peilot Hyblygrwydd Casnewydd ........ 27
4 Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyblygrwydd Castell-nedd Port Talbot ........ 50
5 Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyblygrwydd Sir Gaerfyrddin ........ 62
6 Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyblygrwydd Sir Ddinbych ........ 73
7 Casgliadau'r Gwerthusiad ........ 81
8 Materion Pellach ........ 97
Cyfeiriadau ........ 106
Atodiad A. Gwybodaeth Sylfaenol a Gasglwyd gan Awdurdodau Lleol y Cynllun Peilot gan Lywodraeth Cymru ........ 107
Atodiad B. Crynodeb o Ganfyddiadau o’r E-Arolwg Rhieni ........ 114
Atodiad C. Lles Cyfartalog Plant ac Ymgysylltu fesul Lleoliad ........ 122
Atodiad D: 'Dewislen' o Wahanol Fathau o Ddarpariaeth Hyblyg ........ 124

## Mynegai Ffigurau

Ffigur 1 Canran wedi'i amcangyfrif o blant N1 ac N2 mewn ysgolion a gynhelir yn unig (amlygwyd awdurdodau lleol cynllun Peilot Hyblygrwydd) (2010/11, 2011/12 a 2012/13 wedi'u cyfuno) ....................8
Ffigur 2. Cymhariaeth o Gyfranogiad mewn Dosbarthiadau N2 a Gynhelir Rhwng yr holl Blant a Phlant sy'n Gymwys am Brydau Ysgol am Ddim (FSM) gan yr Awdurdod Lleol ....................10
Ffigur 3. Fframwaith Cysyniadol ar gyfer y Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen ....................18

## Mynegai Tablau

Tabl 1. Crynodeb o Gynigion Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen .15
Tabl 2. Gwerthusiad o Effeithiolrwydd Cynlluniau Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen ....................20
Tabl 3. Crynodeb o Ddyluniad y Gwerthusiad a Chasglu Data ....................26

## Mynegai Blychau

Blwch 1. Pwyntiau Allweddol o gynllun Peilot Hyblygrwydd Casnewydd .......29
Blwch 2. Pwyntiau Allweddol o Ddarpariaeth a Rennir Casnewydd ...............39
Blwch 3. Pwyntiau Allweddol Darpariaeth Oriau Anghymdeithasol Casnewydd ....................44
Blwch 4. Pwyntiau Allweddol o Ddarpariaeth 50 Wythnos Casnewydd .........49
Blwch 5. Pwyntiau Allweddol Darpariaeth Wythnos Dau-Ddiwrnod-A-Hanner Castell-nedd Port Talbot ....................60
Blwch 6. Pwyntiau Allweddol Darpariaeth Hyblyg Ad Hoc Sir Gaerfyrddin ....71
Blwch 7. Pwyntiau Allweddol Darpariaeth Gweithiwr Cyswllt Teulu Sir Ddinbych ....................79

## Rhestr Acronymau

| | |
|---|---|
| FSM | Prydau Ysgol am Ddim |
| HLTA | Cymhorthydd Addysgu Lefel Uwch |
| MM | Mudiad Meithrin |
| NDNA | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| PACEY | Professional Association for Childcare and Early Years |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| WISERD | Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru |
| WPPA | Cymdeithas Darparwyr Cyn ysgol Cymru |

## Cydnabyddiaethau

Hoffai'r tîm gwerthuso ddiolch i bob un o'r pedwar cynrychiolydd awdurdod lleol sydd wedi darparu gwybodaeth werthfawr ac a atebodd ein cwestiynau ychwanegol heb unrhyw broblem. Hefyd hoffem ddiolch i'r holl ysgolion a'r lleoliadau nas cynhelir a roddodd ganiatâd i ni arsylwi eu plant a'u staff, a'r holl benaethiaid, rheolwr lleoliadau, ymarferwyr a rhieni a gytunodd i gael eu cyfweld neu a gwblhaodd ein harolygon. Yn olaf hoffwn ddiolch i Angela Cheeseman, Rhiannon Davies a Launa Anderson yn Llywodraeth Cymru am eu cymorth a'u harweiniad drwy gydol y gwerthusiad.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad a Nodau'r Gwerthusiad

1. Mae addysg y blynyddoedd cynnar wedi bod yn elfen allweddol o strategaeth addysg Llywodraeth Cymru ers 1999. Mae'n cydnabod bod profiadau plentyndod cynnar yn hanfodol bwysig wrth bennu datblygiad tymor hir y plant a'u llwybr bywyd diweddarach. Ym maes addysg blynyddoedd cynnar yng Nghymru mae cyflwyniad cwricwlwm y *Cyfnod Sylfaen* i blant 3-7 mlwydd oed wedi bod o arwyddocâd arbennig. Cyflwynwyd yn mewn ffordd flaengar er mwyn disodli Cyfnod Allweddol 1, ac roedd wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn 2011/12.
2. Yng Nghymru, mae plant yn gyffredinol yn dechrau yn yr ysgol gynradd rhwng 3 a 4 mlwydd oed, er nad yw'n gyfreithiol ofynnol i ddechrau yn yr ysgol tan y tymor ar ôl eu pumed pen-blwydd (yn ystod y Flwyddyn Derbyn). Fodd bynnag, mae gan blant yr hawl i gael mynediad at gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen cyn addysg orfodol, yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 naill ai mewn ysgol gynradd a gynhelir (Meithrin) neu mewn lleoliad nas cynhelir a ariennir[1]. Felly un ffactor bwysig ond sydd weithiau'n cael ei ddiystyru yn addysg y blynyddoedd cynnar yw'r mynediad sydd gan blant i gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen *cyn iddynt ddechrau addysg orfodol.*
3. Er mwyn sicrhau bod plant tair blwydd oed yn cael mynediad i'r Cyfnod Sylfaen, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf ddeg awr am ddim o addysg Cyfnod Sylfaen yr wythnos ar gyfer pob plentyn 3 i 4 mlwydd oed.
4. Er gwaethaf canllawiau sy'n annog darparwyr i gynnig darpariaeth hyblyg o ran y Cyfnod Sylfaen, awgrymwyd bod y ffordd bresennol o drefnu a chynnig y Cyfnod Sylfaen i rieni yng Nghymru yn 'anhyblyg' ac efallai ei fod yn atal rhai plant rhag manteisio ar y Cyfnod Sylfaen. Mae'r posibilrwydd na fydd rhai plant yn cael yr hyn y mae ganddynt

[1]Mae'r sector nas cynhelir a ariennir yn cynnwys llu o opsiynau swyddogol cofrestredig gan gynnwys cylchoedd chwarae; meithrinfeydd dydd preifat; gwarchodwyr plant; meithrinfeydd Cymraeg eu hiaith, clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol. Gall cwmnïau preifat neu gyrff cymunedol neu wirfoddol hefyd ddarparu lleoedd a ariennir. Maent yn cael eu lleoli mewn adeilad pwrpasol neu gall fod grwpiau 'dros dro'. Wrth gwrs gall faint o ddewis sydd ar gael i rieni amrywio yn ôl yr ardal.

hawl iddo o ran addysg blynyddoedd cynnar yn amlwg yn cynrychioli mater o bwys yn strategaeth blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru, ac mae'n wir am addysg Gymreig yn fwy cyffredinol.

5. Yn nogfen Adeiladu Dyfodol Gwell: Cynllun Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (2013) bu i Lywodraeth Cymru nodi sut y byddai'n gwneud darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn fwy hygyrch. Yn y pen draw, nod cynnig darpariaeth cynyddol hygyrch yw cynyddu cyfranogiad ym mlynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen.
6. I hyrwyddo'r nodau hyn ymhellach yn 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot hyblygrwydd, gan wahodd pedwar awdurdod lleol i edrych ar ffyrdd o gynyddu hyblygrwydd o ran darpariaeth ym mlynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen. Nodau'r Prosiectau Peilot Hyblygrwydd oedd gwneud y canlynol:
    i. Profi opsiynau hyblygrwydd ar draws y Cyfnod Sylfaen yn y lleoliadau a gynhelir a'r lleoliadau nas gynhelir a ariennir.
    ii. Nodi materion a allai ddod i'r amlwg i awdurdodau lleol a lleoliadau o ganlyniad i ddarparu neu geisio darparu mwy o hyblygrwydd.
    iii. Ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r materion hynny drwy ddatrysiadau â chost isel/dim cost.
    iv. Meithrin dealltwriaeth well o p'un a yw hyblygrwydd cynyddol yn gwneud gwahaniaeth i allu rhiant i gael mynediad at y Cyfnod Sylfaen ar gyfer eu plentyn.
7. Roedd y pedwar awdurdod lleol a wnaeth gymryd rhan yng nghynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen yn cynrychioli croestoriad o ardaloedd gwledig a threfol, breintiedig a difreintiedig ledled Cymru:
    - Sir Gaerfyrddin
    - Dinbych
    - Castell-nedd Port Talbot
    - Casnewydd


8. Bu i bob un o'r awdurdodau lleol oedd yn cymryd rhan wneud eu cynnig Cyfnod Sylfaen yn hyblyg mewn amryw o ffyrdd, o ddarparu gofal cofleidiol a darpariaeth oriau anghymdeithasol i gyflogi gweithwyr cyswllt teulu.

9. Dau brif amcan y gwerthusiad oedd:
    i. Gwerthuso sut mae’r prosiectau peilot yn cael eu rhoi ar waith; a
    ii. Gwerthuso'r effaith y mae mwy o hyblygrwydd yn ei gael ar deuluoedd.
10. Roedd y gwerthusiad hefyd yn cynnwys yr amcanion ymchwil hyn:
    - Cefnogi’r awdurdodau lleol sy’n rhan o’r peilot wrth sefydlu data sylfaenol o’r defnydd (rhieni sy’n awgrymu eu bod am dderbyn cynnig hyblyg) a phresenoldeb sesiynau (lefelau presenoldeb plant sy’n mynychu’r sesiynau yn dilyn hynny).
    - Asesu effeithiolrwydd rhoi'r prosiectau peilot ar waith.
    - Nodi’r rhwystrau a’r hwyluswyr i awdurdodau lleol o ran darparu mwy o hyblygrwydd.
    - Edrych ar y costau ychwanegol o ddarparu mwy o hyblygrwydd.
    - Pennu effaith mwy o hyblygrwydd ar rieni/gofalwyr a'u plant.
    - Nodi'r goblygiadau polisi ac arfer o ddarparu mwy o hyblygrwydd yn y Cyfnod Sylfaen.

***Methodoleg***

11. Roedd y gwerthusiad o gynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen yn ymchwilio i *alw* a *dyluniad* y cynllun peilot ym mhob awdurdod lleol (h.y., beth oedd y broblem neu’r mater ym mhob awdurdod lleol yr oedd y cynlluniau peilot yn gobeithio eu datrys); *darpariaeth* y cynllun peilot hyblygrwydd (h.y., sut y rhoddwyd y cynllun peilot ar waith yn yr awdurdodau lleol ac mewn lleoliadau); *ansawdd* y ddarpariaeth hyblyg mewn lleoliadau (h.y., yr effaith, os o gwbl, a gafodd y cynllun peilot hyblygrwydd ar addysgeg a rhoi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith); ac yn olaf, roedd y gwerthusiad yn asesu *effaith* cyffredinol y cynllun peilot ar leoliadau, rhieni a phlant.

Fframwaith Cysyniadol ar gyfer y Gwerthusiad o’r Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen



12. Defnyddiodd y gwerthusiad y dulliau canlynol:
    - Cyfweliadau gydag awdurdodau lleol; staff addysgu a rheoli; rhieni.
    - Arolygon (papur ac e-arolygon) staff a rhieni.
    - Ymweliadau ag ysgolion ac arsylwadau ystafell ddosbarth (i ymchwilio i’r effaith y gallai hyblygrwydd ei gael ar roi Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith).
13. At ei gilydd, bu i ymchwilwyr ymweld â 26 o leoliadau ar draws y pedwar awdurdod lleol. Bu iddynt gynnal 40 o gyfweliadau wyneb yn wyneb gyda staff ‘meithrin’; 43 o gyfweliadau ffôn gyda rhieni; dosbarthu dros 500 o arolygon papur ac anfon e-arolygon atodol allan, (gan dderbyn 52 o arolygon papur a 31 o e-arolygon yn ôl); arsylwi 19 o ddosbarthiadau ar draws y pedwar awdurdod lleol. Ar ben hyn, cynhaliodd ymchwilwyr nifer o sgyrsiau anffurfiol ‘wrth gât yr ysgol’ gyda rhieni mewn lleoliadau amrywiol.
14. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn ystyried effaith y cynlluniau peilot ar rieni, staff a phlant.

Canfyddiadau Allweddol ac Argymhellion

15. Mae'r crynodeb hwn yn amlinellu effeithiau’r cynlluniau peilot ar rieni, plant a lleoliadau a’r materion trawiadol sydd yn perthyn i bob un o'r grwpiau hyn. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu materion cyffredinol sylweddol eraill a gododd yn ystod yr ymchwil. Yn gyffredinol, canfuwyd bod y cynlluniau peilot hyblygrwydd wedi gweithio'n dda ac wedi helpu i ddatrys neu liniaru'r problemau y cynlluniwyd iddynt fynd i'r afael â nhw ar draws y gwahanol awdurdodau lleol.

Effaith ar Rieni

16. Canfu'r ymchwil bod y math o hyblygrwydd a gynigir yn gyffredinol wedi helpu cydbwysedd bywyd a gwaith rhieni ac wedi ei gwneud yn haws i reoli eu trefn ddyddiol.
17. Dangosodd yr ymchwil fod nifer o rieni sy’n gweithio yn cael problemau gyda darpariaeth bore neu brynhawn ‘traddodiadol’ a’u bod angen rhyw fath o ddarpariaeth diwrnod llawn neu ofal cofleidiol i

wneud eu trefn ddyddiol yn haws. Mae rhieni sy'n gweithio yn aml yn ei chael hi'n anodd rheoli logisteg teithio i'r gwaith a gollwng a/neu gasglu plant, gan nad yw oriau gwaith yn aml iawn yn cyfateb i amseroedd i'r ysgol/amseroedd agor lleoliad/sesiynau.

18. Yn yr un modd, mae rhieni nad ydynt yn gweithio hefyd yn teimlo fod y fformat traddodiadol yn anodd, yn enwedig y rhieni hynny gyda phlant o wahanol oedrannau, ac maent yn treulio llawer o'u diwrnod yn teithio yn ôl ac ymlaen i leoliadau. Dywedodd llawer o rieni nad ydynt yn gweithio fod y fformat traddodiadol o fore neu brynhawn yn unig yn ei gwneud hi'n anoddach i gyflawni tasgau dyddiol pwysig megis siopa, glanhau a rhoi gofal.

19. Byddai rhyw fath o ddarpariaeth cofleidiol hygyrch hefyd yn helpu rhieni gyda materion megis gofal seibiant. Efallai y bydd yr angen hwn yn arbennig o ddifrifol ar gyfer aelwydydd penodol, er enghraifft ar gyfer rhieni plant ag anableddau neu rieni sydd hefyd yn ofalwyr. Rydym yn argymell y dylai mater gofal seibiant, gorffwys ac iechyd meddwl rhieni fod yn ffactor yn y ddadl am ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru.

20. Mae diffyg darpariaeth cofleidiol mewn meithrinfeydd a gynhelir yn golygu bod llawer o rieni sy'n gweithio yng Nghymru yn aml yn dibynnu ar ofal plant 'preifat' (h.y. talu-ffioedd), ac eto mae rhieni'n gweld cost gofal plant 'preifat' yn afresymol o ddrud. Roedd rhieni sy'n gweithio yn honni 'nad ydynt yn cael eu gwobrwyo am weithio' oherwydd cyfanswm costau gofal plant. Mae mwy o hyblygrwydd a geir mewn lleoliadau nas cynhelir sy'n cynnig darpariaeth a ariennir gan y wlad ac a ariennir yn breifat yn ddewis amlwg i rieni sy'n chwilio am ddarpariaeth hyblyg, gydag oriau hirach a/neu ddarpariaeth cofleidiol. Mae hyn hefyd yn codi'r mater o gost, ond mae hefyd yn dibynnu ar beth sydd ar gael o ran darpariaeth a ariennir nas cynhelir yn yr ardal leol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymchwilio i opsiynau gofal plant fforddiadwy ac i ystyried y berthynas rhwng darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

21. Gwelir bod cost gofal cofleidiol yn tynnu oddi ar unrhyw fudd o dderbyn deg awr o addysg y Cyfnod Sylfaen am ddim.
22. Oherwydd cost uchel gofal plant 'preifat', mae llawer o rieni yn dibynnu ar rwydweithiau teuluol anffurfiol (neiniau a theidiau bron yn llwyr) ar gyfer cymorth gofal plant. Ar gyfer rhieni sydd â'r rhwydwaith cymorth hwn ar waith, mae costau gofal plant a gweithio llawn/rhan amser yn amlwg yn llai o broblem nag ydynt ar gyfer teuluoedd nad oes ganddynt y rhwydweithiau hyn. Mae nifer o'r teuluoedd nad oes ganddynt y rhwydweithiau teuluol hyn (ac a oedd felly'n dibynnu ar ofal plant preifat) yn deuluoedd symudol, dosbarth canol sydd wedi symud i Gymru o weddill y DU neu o rannau eraill o Gymru i ardaloedd newydd. Yn arwyddocaol, bu i nifer o rieni yn yr ymchwil fynegi pryder am y 'baich' yr oedden nhw'n ei roi ar berthnasau hŷn a dywedodd y rhain eu bod yn dymuno na fyddai rhaid iddynt ddibynnu ar aelodau o'r teulu am y gefnogaeth hon.
23. Er bod y patrymau gofal anffurfiol hyn yn draddodiadol ac felly wedi'u normaleiddio mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, efallai eu bod yn cuddio maint y problemau ym 'marchnad' gofal plant. Yn ystod y gwerthusiad gwnaethom siarad â nifer o neiniau a theidiau a ddywedodd bod eu rôl mewn gofal plant yn aml yn anodd ac yn heriol iawn. Yn hanfodol, gall diffyg gofal plant fforddiadwy roi straen sylweddol ar bobl hŷn. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio ymhellach i natur gofal plant anffurfiol yng Nghymru, gan y gallai'r maes hwn gael effeithiau canlyniadol ar les pobl hŷn.
24. Mae llawer o rieni (yn arbennig rhieni sy'n gweithio) hefyd yn cael trafferth i gael gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae galw clir am ryw fath o ddarpariaeth gwyliau. Yn wir, yn ystod y gwerthusiad, roedd yn amlwg nad oedd darpariaeth hyblyg yn golygu sut y gellid darparu'r deg awr o addysg y Cyfnod Sylfaen am ddim ym mhob wythnos yn unig ond hefyd p'un a allai elfen o swm cyffredinol addysg y Cyfnod Sylfaen am ddim gael ei ddarparu fel gofal plant cyffredinol yn ystod gwyliau'r ysgol. Rydym yn argymell bod darpariaeth gwyliau yn cael ei hystyried fel rhan o strategaeth gofal plant Llywodraeth Cymru.

Effaith ar Staff a Lleoliadau

25. Ni chanfuwyd fod rhoi'r cynlluniau Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen ar waith wedi rhwystro rhoi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith, a ddarparwyd fel arfer ar draws y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw ym mhob un o'r pedwar awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nodi bod addysgwyr yn teimlo bod *potensial* i rai mathau o hyblygrwydd effeithio ar roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Y pryder mwyaf oedd sut yr arweiniodd rhai mathau o ddarpariaeth hyblyg at amserlenni cymysg a nifer disgyblion newidiol. Yn ei dro, roedd hyn yn golygu bod athrawon a chynorthwywyr addysgu yn achlysurol yn wynebu dosbarthiadau mwy o faint a oedd yn golygu mwy o waith yn y pen draw (h.y., mwy o gynllunio a pharatoi, olrhain plant mwy cymhleth) i sicrhau nad oedd plant yn profi unrhyw ddyblygu cwricwlwm neu fylchau yn eu haddysg.
26. Mae llwyddiant darpariaeth hyblyg yn y dyfodol yn dibynnu ar allu'r awdurdod lleol i hysbysu a mentora ysgolion a lleoliadau yn briodol am nodau ac amcanion y ddarpariaeth hyblyg ac yn eu cynghori ar sut i'w roi ar waith gyda'r effaith leiaf ar ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn rhoi arweiniad agos i ysgolion ynghylch rhoi mathau o ddarpariaeth hyblyg ar waith.
27. Dylai awdurdodau lleol ddarparu canllawiau mwy ffurfiol neu gyngor i ysgolion o ran sut i hysbysebu argaeledd darpariaeth hyblyg i rieni. Mae soffistigeiddrwydd ysgolion wrth gyfleu gwybodaeth i rieni yn amrywio'n fawr. Canfu'r gwerthusiad bod anghysondeb wrth gyfathrebu argaeledd darpariaeth Cyfnod Sylfaen hyblyg yn debygol o fod wedi arwain at lefelau defnydd anghyson.
28. Mae angen asesu gweithredu unrhyw addysg hyblyg y Cyfnod Sylfaen yn erbyn y capasiti a'r lefelau staffio ym mhob ysgol/lleoliad. Mae gan rai mathau o hyblygrwydd y potensial i chwyddo niferoedd y disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth ac mewn lleoliadau.

***Effaith ar Blant***

29. Yn gyffredinol nid yw'n ymddangos fod dulliau hyblyg o ddarparu yn cael unrhyw effaith andwyol ar ddysgu plant neu weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Cofnodwyd lefelau uchel o les a sylwgarwch plant o

arsylwadau ystafell ddosbarth a gynhaliwyd yn y lleoliadau peilot. At hynny, teimlai’r mwyafrif o rieni a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil bod y ddarpariaeth hyblyg yn cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn.

30. Mater canolog wrth werthuso effaith y gwahanol fathau o hyblygrwydd yw ystyried yr effaith maen nhw’n ei gael ar blant. Fel eu rhieni, mae gan blant anghenion cymhleth ac amrywiol, ac mae eu datblygiad yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Fel oedd yn glir o’n trafodaethau ag addysgwyr, gall gwahanol fathau o hyblygrwydd effeithio ar grwpiau gwahanol o blant mewn gwahanol ffyrdd. Efallai y bydd plant yn datblygu ar gyflymder gwahanol ac efallai y bydd rhai grwpiau o blant â nodweddion neu amgylchiadau penodol yn elwa mwy neu lai o'r mathau gwahanol o ddarpariaeth hyblyg. Gallai hyn ddibynnu ar ardal, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, strwythur aelwydydd ac anghenion dysgu: nid yw'n debygol y bydd ‘un math sy’n addas i bawb’ o ran hyblygrwydd a fydd o fudd i bob plentyn yn yr un modd. Rydym yn argymell bod yr ystyriaeth hon wrth wraidd unrhyw ymchwil i ddarpariaeth hyblyg yn y dyfodol.

31. Mater canolog a godwyd gan *ddarpariaeth diwrnod llawn* (boed yn ofal plant cofleidiol neu’n ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen ddiwrnod llawn) oedd yr effaith mae mwy o amser cyswllt yn ei gael ar blant. Ni nododd yr ymchwil unrhyw effaith andwyol ar blant oedd yn cymryd rhan, ac yn wir, mae llawer o rieni ac athrawon yn credu bod mwy o amser cyswllt wedi bod o gymorth o ran datblygiad/parodrwydd ysgol plant. Serch hynny, roedd eraill (rhieni ac ymarferwyr) oedd yn pryderu y gallai darpariaeth diwrnod llawn gael effaith niweidiol ar blant (megis mwy o flinder). Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r mater hwn ymhellach, a dylai’r dystiolaeth a gasglwyd helpu i lywio trafodaethau yn y dyfodol ar ddarpariaeth hyblyg.

32. Pwysleisiodd llawer o addysgwyr bwysigrwydd *trefn* yn natblygiad cymdeithasol ac addysgol plant. Unwaith eto, dylid ystyried hyn wrth gynllunio a gweithredu mathau o hyblygrwydd; mae'n bosibl y gallai rhai mathau o ddarpariaeth hyblyg amharu a'r drefn addysgol plant.

Argymhellion a materion pellach

33. Mae nifer cymharol isel o blant yng Nghymru (rhwng 5 a 12%) nad ydynt yn defnyddio eu deg awr statudol o addysg y Cyfnod Sylfaen sydd am ddim. Er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn i ateb *pam* nad yw rhai teuluoedd yn defnyddio eu hawl (mae'n anodd iawn ymchwilio i grwpiau sydd yn parhau i fod 'y tu allan i'r system'), o ystyried y safbwyntiau gwahanol o ran y galw am ddarpariaeth hyblyg a welwyd drwy gydol yr astudiaeth, mae'n bosibl fod yr esboniadau dros hyn yn eang, gan gynnwys: diffyg darparwyr Cyfnod Sylfaen blynyddoedd cynnar lleol; y ffordd mae lleoedd am ddim yn cael eu cynnig (fel diffyg hyblyg); diffyg hyblygrwydd gan gyflogwyr; diffyg ymwybyddiaeth am eu hawl i'r deg awr o addysg Cyfnod Sylfaen am ddim; neu ddealltwriaeth gyfyngedig o fanteision cymdeithasol ac addysgol addysg y blynyddoedd cynnar i blant. Rydym yn argymell bod mwy o ymchwil yn cael ei gynnal yn y maes hwn yn gyntaf, i fesur yr union faint o blant nad ydynt yn defnyddio eu hawl; ac yn ail, i ymchwilio *pam* nad yw rhai teuluoedd yn ei ddefnyddio.
34. Mynegodd rhai addysgwyr bryderon ynghylch safbwyntiau rhieni o ran addysg y blynyddoedd cynnar. Yn benodol, roeddent yn teimlo bod llawer o rieni yn ei weld fel math o ofal plant. Yn nhrafodaethau'r dyfodol ar ddarpariaeth hyblyg, mae angen i'r berthynas rhwng 'gofal' ac 'addysg' fod yn ganolog. Er enghraifft, beth yw'r gwahaniaeth rhwng ansawdd gofal plant ac addysg y Cyfnod Sylfaen? A ddylai ysgolion fod yn ganolog wrth ddatrys y mater o hyblygrwydd neu ydy'r ateb i'w gael yn y sector gofal plant?
35. Ni allai ymgysylltiad rhieni'r gwerthusiad bennu unrhyw berthynas bendant rhwng darpariaeth Cyfnod Sylfaen hyblyg a mynediad i'r farchnad lafur. Fodd bynnag, roedd rhai rhieni nad ydynt yn gweithio yn honni bod y fformat 'traddodiadol' o deithio parhaus yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn ei gwneud yn anoddach i ddod o hyd i swydd. Felly er nad yw'r fformat traddodiadol yn cyfyngu mynediad at y farchnad lafur yn llwyr, gallai elfennau o hyblygrwydd greu hinsawdd fwy ffafriol i ymgysylltu gyda'r farchnad lafur.

36. Yn gyffredinol roedd rhieni y siaradwyd â nhw yn ystod yr astudiaeth wedi cael gwybod am eu hawl gan y lleoliad neu drwy sgwrsio. Yn aml iawn, mae derbyn y wybodaeth hon am yr hawl yn amodol ar fod yn rhan o rwydwaith cymdeithasol o rieni eisoes. Hynny yw, bydd y rhai 'tu allan i'r system' yn parhau i golli allan. Mae'n amlwg bod angen dulliau mwy systematig a mwy effeithiol yn y pen draw o gyfleu gofal plant a darpariaeth addysg y Cyfnod Sylfaen i rieni yng Nghymru (e.e., hawl i addysg, hawl gofal plant, gwybodaeth am fanteision addysg y blynyddoedd cynnar ac ati). Er bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob awdurdod lleol yn chwarae rôl ganolog yma ar hyn o bryd, mae nifer o strategaethau eraill y gellid eu defnyddio i gyfathrebu'r wybodaeth hanfodol hon i rieni, gan gynnwys: gwefan ganolog (e.e. cenedlaethol) pwrpasol; teledu, hysbysebu wedi'i argraffu ac ymgyrchoedd hysbysebu ar y radio; a defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

37. Wrth ddefnyddio'r ddarpariaeth hyblyg yn y dyfodol mae angen egluro *nod* strategol hyblygrwydd cynyddol a'r rhesymeg y tu ôl i'r strategaeth hon. Er enghraifft, ydy mwy o hyblygrwydd wedi'i ddylunio i helpu rhieni sy'n gweithio neu a yw'n helpu rhieni di-waith i gael mynediad at y farchnad gyflogaeth? I raddau helaeth, bwriad darpariaeth hyblyg oedd cynyddu cyfranogiad plant yn y Cyfnod Sylfaen, ond a allai ffurf y ddarpariaeth hyblyg honno gael ei ddylunio i wella datblygiad cymdeithasol ac addysgol plant hefyd? Ac yn olaf, sut y gall darpariaeth hyblyg gefnogi sefydliad ehangach y ddarpariaeth addysgol, megis annog cyfranogiad mewn ysgolion lleol neu wella'r ddarpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar? Mae'r rhain yn amcanion amrywiol ac er efallai nad ydynt o reidrwydd yn gwrthdaro â'i gilydd, efallai nad ydynt bob amser yn ategol chwaith.

38. Unwaith y caiff y nod cyffredinol o hyblygrwydd cynyddol ei egluro, mae hefyd yn bwysig fod hyn yn cael ei gyfleu yn glir i awdurdodau lleol, ysgolion/lleoliadau ac i rieni.

39. Mae'n amlwg bod angen, wrth feddwl am weithredu newid, i ystyried yn ofalus pwy sy'n elwa ar fwy o hyblygrwydd. Mae'r ymchwil yn amlygu'r posibilrwydd y gallai mathau cynyddol o hyblygrwydd i rieni

gynyddu pwysau ar staff yr ysgol a gallai o bosibl gael effaith negyddol ar blant. Er y teimlwyd bod llawer math o hyblygrwydd yn gweithio'n dda iawn, ac nad oedd fawr ddim tystiolaeth o unrhyw effaith negyddol ar blant, mae’n hanfodol fod rhoi unrhyw ddarpariaeth hyblyg ar waith yn y dyfodol yn sensitif i’r materion hyn.

# 1 Cyflwyniad

1.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ar gyfres o ddiwygiadau addysgol yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn y rhain, mae sylw arbennig wedi canolbwyntio ar *addysg y blynyddoedd cynnar*[2]*.* Mae'r pwysigrwydd canolog a roddir i flynyddoedd cynnar yn strategaeth addysg Cymru yn cael ei amlygu yn y strategaeth trawsadrannol '*Adeiladu Dyfodol Disglair'* (Llywodraeth Cymru, 2013). Mae dogfen y polisi hwn yn nodi bod "cytundeb eang bod profiadau plentyndod cynnar yn hanfodol bwysig i ddatblygiad tymor hir plant a'u cyflawniadau yn ddiweddarach mewn bywyd. O ganlyniad, y blynyddoedd cynnar yw'r sylfaen y mae cymdeithas yn dibynnu arni ar gyfer ffyniant a chynnydd yn y dyfodol" (Llywodraeth Cymru, 2013:6).

1.2. Ym maes addysg blynyddoedd cynnar yng Nghymru mae cyflwyniad cwricwlwm y *Cyfnod Sylfaen* pwysig i blant 3-7 mlwydd oed wedi bod o arwyddocâd arbennig. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn nodi diwedd radical i gwricwlwm cenedlaethol mwy ffurfiol Cyfnod Allweddol 1 sy'n cael ei ddisodli.

## Sefydliad Presennol Addysg Gynnar yng Nghymru

1.3. Un ffactor bwysig ond sydd yn cael ei ddiystyru yn llwyddiant addysg y blynyddoedd cynnar yw'r mynediad sydd gan blant i hawl addysg gynnar/lleoedd i blant 3 a 4 mlwydd oed *cyn iddynt ddechrau addysg orfodol.* Yng Nghymru, mae plant yn gyffredinol yn dechrau yn yr ysgol gynradd rhwng 3 a 4 mlwydd oed, er nad yw'n gyfreithiol ofynnol iddynt ddechrau yn yr ysgol tan y tymor ar ôl eu pumed pen-blwydd (pan fyddant yn dechrau ym Mlwyddyn Derbyn).

[2]Wedi'u diffinio fel 'y cyfnod bywyd o'r cyfnod cyn geni i ddiwedd y Cyfnod Sylfaen neu 0-7 oed ' (Llywodraeth Cymru, 2013).

1.4. Mae strategaeth *'Adeiladu Dyfodol Disglair'* (Llywodraeth Cymru, 2013) yn nodi pwysigrwydd ymyriadau addysgol *cyn i blant fod yn 5 mlwydd oed* (h.y., cyn addysg orfodol) (*Adeiladu Dyfodol Disglair,* 2013:7) ac o ganlyniad yn nodi addysg o ansawdd yn y blynyddoedd cynnar fel piler canolog i strategaeth y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn nodi bod yr ymyriadau cynnar hyn yn arbennig o bwysig i'r plant hynny o gefndiroedd difreintiedig (*Adeiladu Dyfodol Disglair*, 2013:11). Felly, anogir plant i ddechrau'r Cyfnod Sylfaen yn 3 mlwydd oed yn eu lleoliadau blynyddoedd cynnar (cyn iddynt ddechrau addysg ffurfiol) oherwydd deellir ei fod o fudd i'w datblygiad gwybyddol ac i gymdeithasoli.

1.5. Yn gysylltiedig i hyn, fel rhan o ymrwymiad cyfannol i ymyriadau blynyddoedd cynnar, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i wella *gofal plant* yn y blynyddoedd cynnar[3] (h.y. darpariaeth cyn addysg), drwy fentrau megis *Dechrau'n Deg*, menter sy'n darparu 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i blant oed 2-3 mlwydd oed yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

1.6. Er mwyn sicrhau bod plant tair blwydd oed yn cael mynediad i'r Cyfnod Sylfaen, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu darpariaeth feithrin ddiogel, rhan-amser ar gyfer bob plentyn tair blwydd oed o'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i isafswm o ddeg awr am ddim o addysg gynnar yr wythnos.[4] Gellir cymryd y lle hwn naill ai yn y sector a gynhelir (h.y. Gwladwriaeth) drwy feithrinfeydd sydd ynghlwm i ysgolion cynradd neu mewn ysgolion meithrin, neu mewn darparwyr gofal plant a gymeradwywyd yn y sector nas cynhelir.[5]

[3]Am drosolwg da, gweler: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/end-child-poverty-wales-summary.pdf
[4]Er bod rhai awdurdodau lleol yn cynnig darpariaeth fwy hael nag eraill. Bydd yr anghysondeb hwn mewn darpariaeth yn thema gyson drwy gydol yr adroddiad hwn.
[5]Mae'r sector nas cynhelir yn cynnwys llu o opsiynau gan gynnwys cylchoedd chwarae; meithrinfeydd dydd preifat; gwarchodwyr plant; meithrinfeydd Cymraeg eu hiaith. Gellir darparu hyn gan gwmnïau preifat neu sefydliadau cymunedol neu wirfoddol. Maent yn cael

1.7. Yn y sector a gynhelir, fel arfer mae'r hawl addysg gynnar yn cael ei ddarparu ar ffurf sesiynau dwy awr 'traddodiadol' (2.5 awr weithiau) naill ai yn y bore (9am i 11/11.30am) neu yn y prynhawn (1pm i 3/3.30pm). Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol *baramedrau* ar waith mewn perthynas â darpariaeth addysg cyn ysgol, er enghraifft mae lleoliadau a gynhelir yn gyffredinol angen i blant fynychu o leiaf pedwar neu bum sesiwn yr wythnos er mwyn manteisio ar eu hawl am ddim; yn gyffredinol ni chaniateir i blant ddefnyddio eu deg awr am ddim drwy ddarpariaeth *diwrnod llawn*, ac yn yr un modd nid yw lleoliadau'r wladwriaeth yn gyffredinol yn darparu gofal cofleidiol i blant (er bod amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol). Yn y sector nas cynhelir, yn gyffredinol, mae'r paramedrau hyn yn fwy hamddenol ac yn dibynnu ar y lleoliad, gall plant aros drwy'r dydd. Mewn meithrinfeydd dydd[6] mae gofal cofleidiol ar gael yn eang.

1.8. Mae hwn yn ddarlun cyffredinol iawn o drefn yr hawl i addysg gynnar. Mewn gwirionedd, mae amrywiad sylweddol yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar ledled Cymru rhwng gwahanol awdurdodau addysg.

**Y Broblem: Pam Rydyn Ni Angen Hyblygrwydd?**

1.9. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cynghori awdurdodau lleol i sicrhau bod addysg cyn-ysgol yn cael ei drefnu mewn modd hyblyg, awgrymwyd bod y ffordd bresennol o drefnu'r Cyfnod Sylfaen a'i gynnig i rieni yng Nghymru yn 'anhyblyg' ac felly gall fod yn rhwystr *i fanteisio ar y lleoedd am ddim* (Llywodraeth Cymru, 2013: 35). Er enghraifft, roedd dwy ddeiseb ar-lein[7] a drefnwyd gan rieni yng

---

eu lleoli mewn adeilad pwrpasol neu gall fod grwpiau 'dros dro'. Wrth gwrs gall faint o ddewis sydd ar gael i rieni amrywio yn ôl yr ardal.

[6]Cyfleuster gofal plant preifat sydd yn edrych ar ôl plant o enedigaeth i 5 mlwydd oed fel arfer.

[7]http://www.gopetition.com/petitions/make-early-years-Education-more-accessible.html a http://www.gopetition.com/petitions/make-early-years-education-in-cardiff-more-accessible/signatures.html

Nghaerdydd a thu hwnt, yn mynegi anfodlonrwydd gyda hygyrchedd addysg y blynyddoedd cynnar sydd am ddim.

1.10. Fel y mae'r sylwadau canlynol yn dangos, mae llawer o'r rhieni hyn yn pwyntio tuag at yr anawsterau o ran defnyddio’r hawl am ddim os ydynt eisoes mewn cyflogaeth – naill ai oherwydd eu bod yn gweithio mwy na 2.5 awr y dydd, neu oherwydd nad yw eu horiau gwaith yn cyd-fynd ag amser dechrau a gorffen y ddarpariaeth feithrin. Maent yn dueddol o rannu’r farn fod mwy o hyblygrwydd yn y ddarpariaeth feithrin yn angenrheidiol:

> *"Fel mam sy'n gweithio amser llawn, ni fyddaf yn gallu anfon fy mab i feithrinfa a ariennir gan y wladwriaeth pan fydd yn 3 mlwydd oed. Bydd y gost o dalu meithrinfa breifat i ddarparu gofal clofeidiol a chludiant i'r ysgol yn ei gwneud yn anymarferol yn ariannol. Hefyd rwyf yn talu am ofal llawn amser ar gyfer fy merch 11 mis oed. Mae Llywodraeth y Cynulliad Cymru angen cynnig mwy o gymorth i rieni sy'n gweithio." (Sylw gan riant o’r ddeiseb ar-lein yng Nghaerdydd)*

> *"Mae angen i’r hawl am ddim fod yn fwy hyblyg o lawer." (Sylw gan riant o’r ddeiseb ar-lein yng Nghaerdydd)*

> *"Oherwydd diffyg hyblygrwydd yn y lleoedd meithrin 'am ddim' sydd ar gael yng Nghaerdydd, mae’n debyg y bydd rhaid i ni (fel rhieni sy'n gweithio) gadw ein mab yn ei feithrinfa bresennol yn hytrach na’i fod yn gallu mynd i'r feithrinfa yn yr ysgol y bydd yn ddisgybl ynddi yn y pen draw. Mae'n gwbl annheg mai dim ond rhieni nad ydynt yn gweithio ac sy’n gallu cludo a chasglu eu plant ar ôl eu sesiwn 2.5 awr ddyddiol sy’n gallu manteisio ar y lleoedd ‘am ddim’ hyn. Rwyf yn wreiddiol o Gwm Rhondda a pe bawn yn dal i fyw yma byddai gan fy mab hawl i le llawn amser mewn meithrinfa wladol pan fyddai’n 3 mlwydd oed (fel yr oeddwn i fel plentyn). Yng Nghernyw lle mae teulu (fy ngŵr)*

*yn byw, gellir rhannu'r 15 awr am ddim fel y dymunwch h.y. sesiynau diwrnod llawn am 2 neu 3 diwrnod yr wythnos. Yn sicr mae angen i gyngor Caerdydd ddatblygu system fwy hyblyg?" (Sylw gan riant o'r ddeiseb ar-lein yng Nghaerdydd)*

*"Credaf fy mod yn talu am y gwasanaeth hwn a fwriedir ar gyfer fy nheulu drwy fy nhrethi, ond fel rhieni sy'n gweithio ni allwn ei ddefnyddio." (Sylw gan riant o'r ddeiseb ar-lein yng Nghaerdydd)*

*"Rydym angen mwy o hyblygrwydd, er mwyn rhoi gwell dewisiadau i famau sy'n gweithio a rhoi mwy o sicrwydd i blant. Mae peidio â chynnig hyn yr un fath â Lloegr, yn gwneud i ni ymddangos yn ddigyfaddawd ac yn ymarferol Fictoraidd yn ein hagwedd tuag at deuluoedd sy'n gweithio. Mae pawb eisiau mynd i'r afael â phobl sydd ar fudd-daliadau a rhoi mwy o bwysau, drwy godi prisiau tanwydd, diswyddiadau, ac ati, at deuluoedd sy'n gweithio ond nid oes unrhyw un yn awyddus i helpu!" (Sylw gan riant o'r ddeiseb ar-lein yng Nghaerdydd)*

*"Ar hyn o bryd, 2.5 awr y dydd 5 diwrnod yr wythnos nad yw o fudd o gwbwl - felly nid yw'r hygyrch i rieni sy'n gweithio a'u teuluoedd. Byddai'n haws peidio â gweithio, ac nid hyn yw'r agwedd gywir. Sut mae disgwyl i rieni weithio pan fo angen iddynt gludo eu plant ar amseroedd penodol ac yna mynd yn ôl 2.5 awr yn ddiweddarach. Mae hanner diwrnod o waith wedi'i golli." (Sylw gan riant o'r ddeiseb ar-lein yng Nghaerdydd)*

1.11. Mae'r pryderon hyn gan rieni yn cael eu cydnabod a'u hymgorffori yn nogfen *Adeiladu Dyfodol Disglair,"* (Llywodraeth Cymru, 2013) sydd, o gyfeirio at y "fformat traddodiadol" uchod, yn nodi fod "rhieni yn dweud wrthym fod y dull hwn yn gallu bod yn rhwystr rhag defnyddio darpariaethau" (Llywodraeth Cymru, 2013:35).

1.12. Yna, yn y pen draw, mae pryder bod diffyg hyblygrwydd mewn darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar yn atal plant rhag cael

mynediad at y Cyfnod Sylfaen, gan y *gallai* anghyfleustra canfyddedig y fformat traddodiadol arwain at rieni'n cadw eu plant o addysg cyn ysgol yn gyfan gwbl.

1.13. Yn amlwg mae plant nad ydynt yn manteisio ar eu hawl addysgol blynyddoedd cynnar yn her i Lywodraeth Cymru wrth roi ei strategaeth blynyddoedd cynnar ar waith yn llawn.

**Pam Allai Rhieni Gadw Eu Plant o Addysg Cyn Ysgol?**

1.14. Ychydig iawn o ymchwil systematig neu dystiolaeth sydd yng Nghymru ar agweddau a phenderfyniadau rhieni o ran defnyddio lleoedd am ddim yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 'oedran meithrin' yn gyffredinol, heb sôn am yr angen am fwy o hyblygrwydd yn y ddarpariaeth honno. Hynny yw, nid ydym yn gwybod yn sicr *pam* mae rhieni yn atal plant o addysg cyn-ysgol. Ymchwiliodd astudiaeth ddiweddar ar gyfer yr Adran Addysg (yn Lloegr) nifer y lleoedd am ddim i blant tair blwydd oed. Gwelwyd fod *dewisiadau* ac *agweddau* rhieni yn aml yn fwy arwyddocaol nag argaeledd lleoedd hyblyg (Ipsos MORI, 2012). Fodd bynnag, canfu'r astudiaeth hefyd fod diffyg hyblygrwydd yn ei ddarpariaeth *yn* rhwystr allweddol o ran manteisio ar yr hawl am ddim yn llawn i'r rhai sy'n 'ddefnyddwyr rhannol' - rhieni sy'n defnyddio rhywfaint o'r 15 awr am ddim ond nid y cyfan. Roedd yr astudiaeth hefyd yn tynnu sylw at y ffordd braidd yn "anghyson" oedd yn cael ei defnyddio i *roi gwybod* i rieni am eu hawl, mater o bryder arbennig ar gyfer y rhan fwyaf o deuluoedd difreintiedig a'r rhai sydd ar y cyrion.

1.15. Yn yr un modd, canfu adroddiad diweddar ar gyfer Sefydliad Nuffield mai "cydbwysedd boddhaol rhwng cyfrifoldebau gwaith a gofal plant sydd bwysicaf i wella lles meddyliol", er gwaethaf manteision iechyd meddwl mamau sengl sydd yn gwneud gwaith â thâl yn y blynyddoedd diweddar (Harkness a Skipp, 2013:3). Ac wrth gwrs mae cyflawni hyn

yn dibynnu p'un a oes darpariaeth gofal plant hyblyg ar gael, nid ar y gallu i weithio'n hyblyg yn unig (Hirsch, 2008; Winckler, 2009).

**Nifer sy'n Manteisio ar Addysg Cyn Ysgol yng Nghymru yn ôl Awdurdod Lleol: Pwy Sy'n Colli Allan Ar Eu Hawl?**

1.16. Er nad oes ffigurau cenedlaethol wedi'u cyhoeddi ar gyfer y nifer o blant tair i bedair blwydd oed sy'n cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen, mae'n bosibl i amcangyfrif nifer y plant 'oedran meithrin'[8] sydd yn y sector a gynhelir o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). O gyfuno data ar gyfer 2010/11, 2011/12 a 2012/13 (i gael gwared ar amrywiadau flwyddyn ar flwyddyn yn nifer y plant) gallwn astudio'r nifer o blant yn N1[9] ac N2[10]. O hyn mae'n bosibl amcangyfrif bod 88.5% o blant 'oedran meithrin' wedi mynychu dosbarth/ysgol Feithrin yn y *sector a gynhelir* (nid yw'n bosibl dweud o'r data hwn faint o oriau'r diwrnod neu'r wythnos mae plentyn yn ei fynychu, ond rydym yn gwybod bod tua thri chwarter o'r rhai sy'n mynychu'r Feithrinfa yn rhan amser). Yn ychwanegol at yr amcangyfrif hwn, nododd adroddiad 2009 *Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2009) mae 95% o blant 3-4 mlwydd oed sy'n gymwys mewn addysg y blynyddoedd cynnar, er nad yw'n nodi p'un a yw hyn yn y sector a gynhelir neu'r sector nas gynhelir (ac yn unol â hynny, p'un a ydynt felly *yn sicr* o fod yn manteisio ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen). Felly byddai ffigwr realistig o blant sy'n manteisio ar ei hawl blynyddoedd cynnar mwy na thebyg rhwng 88-95%.

1.17. Mae'n ymddangos fod y ffigurau hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl awdurdodau lleol yng Nghymru (Ffigwr 1), gan adlewyrchu

[8] Rydym yn cyfeirio at blant 'oedran meithrin' drwy gydol yr adroddiad hwn fel yr holl blant sy'n dair neu bedair blynedd mlwydd oed ond nad ydynt yn ddigon hen i ddechrau yn y dosbarthiadau Derbyn mewn ysgol gynradd.


[9] Y plant sydd â hawl i gael addysg yn N1 fydd y rheiny sy'n dathlu eu pen-blwydd yn dair ar ôl 31 Awst ond cyn 31 Mawrth yn y flwyddyn ysgol gyfatebol - a elwir yn aml yn 'blant sy'n troi'n dair'.

[10] Plant tair blwydd oed sydd wedi'u geni ar ôl 31 Awst y flwyddyn ysgol gyfatebol ond nad ydynt yn ddigon hen i ymuno â'r dosbarth Derbyn.

gwahaniaethau yn y nifer sy'n manteisio ar y lleoedd yn y Cyfnod Sylfaen cyn oedran addysg gorfodol (Blwyddyn Derbyn) *a* gwahaniaethau yn argaeledd lleoedd o'r fath yn y sector a gynhelir a'r ddibyniaeth ar leoedd wedi'u hariannu yn y sector nas cynhelir. Hefyd, mae amrywiadau sylweddol yn nifer a chyfran y plant sy'n dechrau mewn dosbarth meithrin/lleoliad a gynhelir yn syth ar ôl eu pen-blwydd yn dair (fel y nodwyd gan y ffigurau ar gyfer N1 yn Ffigwr 1)[11].

1.18. Er cymhariaeth, amcangyfrifir mai dim ond 5% o blant sydd yn Lloegr nad ydynt yn cymryd eu lle am ddim, lle mae ganddynt hawl i 15 awr o addysg am ddim yr wythnos a lle mae rhywfaint o hyblygrwydd yn y ddarpariaeth yn bodoli eisoes. Ac yn ôl amcangyfrifon o Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar o Rieni 2010 (ar gael yn Lloegr yn unig) bu i 68% o rieni oedd yn defnyddio'r hawl am ddim ddefnyddio'r 15 awr lawn neu fwy a 32% a ddefnyddiodd llai na 15 awr.

**Ffigur 1 Canran wedi'i amcangyfrif o blant N1 ac N2 mewn ysgolion a gynhelir yn unig (amlygwyd awdurdodau lleol cynllun Peilot Hyblygrwydd) (2010/11, 2011/12 a 2012/13 wedi'u cyfuno)**




[11] Byddem yn disgwyl i'r gyfran o blant N1 fod tua 33% pe byddai'r holl blant cymwys yn cymryd lle yn y sector a gynhelir.

N1 – 'Plant sy'n Troi'n Dair': plant sy'n 3 mlwydd oed ar ôl 31 Awst ond cyn 31 Mawrth yn y flwyddyn ysgol gyfatebol.
N2 - Plant sy'n 3 mlwydd oed ar 31 Awst y flwyddyn ysgol gyfatebol ond nad ydynt yn ddigon hen i ymuno â dosbarthiadau Derbyn.

## Darpariaeth Hyblyg a Rhieni Dan Anfantais

1.19. Hefyd yn hynod bwysig i Lywodraeth Cymru ac i nodau *Adeiladu Dyfodol Disglair* yw'r graddau y gallai cynnwys mwy o hyblygrwydd yn narpariaeth lleoedd am ddim y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 'oedran meithrin' **gynyddu cyfranogiad teuluoedd dan anfantais cymdeithasol-economaidd.**

1.20. Yn galonogol o bosibl, mae dadansoddiad o ddata CYBLD yn awgrymu fod plant sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim (FSM) (fel sydd wedi'i fesur pan roedden nhw yn y dosbarth Derbyn, gan fod cofnodi gwybodaeth am gymhwysedd am brydau ysgol am ddim mewn ysgolion meithrin yn gyfyngedig iawn) yn ymddangos yr un mor debygol o fynychu dosbarthiadau/ysgolion Meithrin yn y sector a gynhelir â phlant nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim - rydym yn amcangyfrif bod 88.8% o blant FSM wedi mynychu ysgol Feithrin/Meithrinfa a gynhelir o'i gymharu â 88.5% yn gyffredinol. Hynny yw, nid oes unrhyw gydberthynas honedig rhwng amddifadedd a diffyg niferoedd.

1.21. Gan fod plant o deuluoedd mwy breintiedig yn economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o allu defnyddio gofal plant preifat cyn ysgol efallai y dylem ddisgwyl i'r gyfran hon fod yn uwch. At hynny, gallai dadansoddiad mwy manwl o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn lleoliadau Meithrin a gynhelir yn awgrymu bod amrywiadau pwysig o ran defnydd lleoedd o'r fath gan awdurdod lleol


(gweler Ffigur 2)[12]. Er enghraifft, yng Nghasnewydd a Sir Fynwy, mae plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fynychu lleoliad meithrin a gynhelir na phlant nad ydynt yn gymwys.

1.22. Gellir egluro rhai o'r gwahaniaethau yn y nifer o deuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n manteisio ar leoedd y Cyfnod Sylfaen gan y lefelau cymharol o fanteisio ar hawl *yn gyffredinol* – er enghraifft, yng Nghasnewydd mae llai o deuluoedd yn gyffredinol yn manteisio ar eu hawl i le am ddim mewn lleoliad a gynhelir. Gallai hefyd fod yn wir fod gwahaniaethau yn nifer y lleoedd am ddim yn y sector nas cynhelir a ariennir y manteisir arnynt, ac ar hyn o bryd nid oes data cenedlaethol wedi'i gyhoeddi ar gael.

1.23. Hefyd nid yw'n bosibl gweld faint o'r hawliad 10 awr y mae grŵp gwahanol yn ei ddefnyddio o'r data CYBLD. Serch hynny, mae hyn yn ystyriaeth bwysig o ystyried y pwyslais a roddir ar ddefnyddio addysg blynyddoedd cynnar am ddim i helpu i liniaru effaith tlodi a ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill ar barodrwydd ysgol a chyrhaeddiad addysgol.

**Ffigur 2. Cymhariaeth o Gyfranogiad mewn Dosbarthiadau N2 a Gynhelir Rhwng yr holl Blant a Phlant sy'n Gymwys am Brydau Ysgol am Ddim (FSM) gan yr Awdurdod Lleol**

[12]Er yn hanfodol, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys mynediad i leoliadau nas cynhelir a ariennir.




N2 - Plant sy’n 3 mlwydd oed ar 31 Awst y flwyddyn ysgol gyfatebol ond nad ydynt yn ddigon hen i ymuno â dosbarthiadau Derbyn.

### Datblygu Hyblygrwydd yn Strategaeth Addysg Cymru a Datblygu Cynlluniau Peilot

1.24. Mewn ymateb i bryderon am blant a rhieni nad ydynt yn manteisio ar eu hawl addysgol cyn ysgol, mae dogfen *Adeiladu Dyfodol Disglair* yn nodi mwy o *hyblygrwydd* o ran darpariaeth addysg cyn ysgol fel nod canolog i strategaeth y blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

1.25. Mae’r ddogfen yn nodi “ein huchelgais yw i’n cynnig Cyfnod Sylfaen byd-eang arwain y ffordd yn rhyngwladol o ran y nifer o oriau am ddim ac addysg gynnar y gellir ei ddarparu, *hyblygrwydd y cynnig,* ansawdd y cwricwlwm a’r canlyniadau i’n plant”. Mae'n parhau: "Wrth edrych i'r dyfodol... byddwn yn gwella hyblygrwydd, hygyrchedd a fforddiadwyedd addysg gynnar a gofal plant ac yn gweithio gyda'r sector i fynd i’r afael â phrif bryderon rhieni a darparwyr" (Llywodraeth Cymru, 2013:33) a "byddwn yn ystyried opsiynau i wella hyblygrwydd

y ddarpariaeth; cynhyrchu canllawiau diwygiedig ar gyfer awdurdodau lleol i'w helpu i wella hyblygrwydd y cynnig Cyfnod Sylfaen i rieni" (Llywodraeth Cymru, 2013:35-36).

1.26. Nod strategol cyffredinol cynnig mwy o hyblygrwydd yw cynyddu cyfranogiad yn y blynyddoedd o ran y Cyfnod Sylfaen.

Wrth roi'r nodau hyn ar waith, yn 2013 penderfynodd Llywodraeth Cymru i **gyflwyno cynllun peilot gyda phedwar awdurdod lleol** i ymchwilio i ffyrdd o gynyddu hyblygrwydd yn narpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn y blynyddoedd cynnar.

**Cynlluniau Peilot Awdurdodau Lleol**

1.27. Bu i Lywodraeth Cymru wahodd awdurdodau lleol i wneud cais i gymryd rhan yn y cynllun Peilot, gan ganiatáu i bob Awdurdod Lleol gael rhyddid i ddylunio a chyflwyno eu fersiynau eu hunain o ddarpariaeth hyblyg yn seiliedig ar alw lleol a materion lleol. Y pedwar Awdurdod Lleol sy'n cymryd rhan yw:

- Sir Gaerfyrddin
- Dinbych
- Castell-nedd Port Talbot
- Casnewydd

1.28. Rhoddwyd £100,000 i bob awdurdod lleol ar gyfer cyfnod 1 rhwng Ionawr 2014 a 31 Awst 2015 i hwyluso rhoi eu mentrau ar waith i gynyddu hyblygrwydd yn narpariaeth y Cyfnod Sylfaen. Nodau'r arian oedd:

- profi opsiynau hyblygrwydd ar draws y Cyfnod Sylfaen yn y lleoliadau a gynhelir a'r lleoliadau nas gynhelir a ariennir;
- nodi materion a allai ddod i'r amlwg i awdurdodau lleol a lleoliadau o ganlyniad i ddarparu neu geisio darparu mwy o hyblygrwydd;
- Ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r materion hynny drwy ddatrysiadau â chost isel/dim cost;

- meithrin dealltwriaeth well o p’un a yw hyblygrwydd cynyddol yn gwneud gwahaniaeth i allu rhiant i gael mynediad at y Cyfnod Sylfaen ar gyfer eu plentyn;
- gweithio gyda'r tîm gwerthuso ffurfiol penodedig.

1.29. Yn ychwanegol at y nodau hyn, roedd gofyn i’r awdurdodau lleol hefyd fodloni’r meini prawf canlynol:

- Bydd y cynllun Peilot yn cynnwys croestoriad o wahanol fathau o ysgolion a lleoliadau e.e. MM, WWPA, PACE, NDNA, ysgolion meithrin, ysgolion babanod, ysgolion cynradd ac ati.
- Bydd y cynllun Peilot yn anelu i ddarparu ar gyfer plant 3 a 4 blwydd oed mewn ardaloedd gwledig, trefol ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf tra'n bodloni gofynion sylfaenol y Cyfnod Sylfaen.

1.30. Ar gychwyn y wobr, gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol gwblhau holiadur. Cyflwynir eu hymatebion i'r holiadur yn Atodiad A, ac mae’n rhoi cipolwg ar y mathau nodweddiadol o ddarpariaeth a'r defnydd o leoedd meithrin ym mhob rhanbarth sy'n cymryd rhan cyn rhoi'r cynllun Peilot hyblygrwydd ar waith. Fel y nodwyd uchod, mae darpariaeth addysg cyn-ysgol ledled Cymru yn anwastad. O ganlyniad, roedd gan bob awdurdod lleol cyfranogol ddehongliad gwahanol o nod y cynlluniau Peilot hyblygrwydd sy'n adlewyrchu gwahaniaethau yn y ddarpariaeth bresennol a'r gwahaniaethau yn y mathau o 'faterion' roedden nhw’n gobeithio y byddai’r cynlluniau Peilot yn mynd i’r afael â nhw. Mae’r math o hyblygrwydd a gynigir gan bob awdurdod lleol wedi’u nodi’n gryno yn Nhabl 1.

1.31. Trefnir strwythur gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn. Mae Pennod 2 yn rhoi manylion am y gwerthusiad, gan gynnwys ei nodau a’i amcanion, a dylunio a methodoleg. Gan fod cynllun Peilot Hyblyg pob awdurdod lleol yn wahanol iawn cyflwynir canlyniadau'r gwerthusiad ar wahân ar gyfer pob awdurdod lleol – Pennod 3 ar gyfer Casnewydd, Pennod 4 ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, Pennod 5 ar

gyfer Sir Gaerfyrddin a Phennod 6 ar gyfer Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae canfyddiadau pob cynllun Peilot hyblygrwydd i raddau helaeth wedi'u strwythuro yn yr un modd er mwyn helpu i wneud cymariaethau rhwng awdurdodau lleol. Yn benodol mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar Alw; Darpariaeth; Ansawdd; ac Effaith. Ceisia Pennod 7, y bennod olaf, ddwyn y canfyddiadau hyn at ei gilydd i wneud rhai sylwadau clo a chodi cwestiynau i'w hystyried ymhellach.

**Tabl 1. Crynodeb o Gynigion Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen**

| Awdurdod y Cynllun Peilot | Y Cynigion |
|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | • Mae gan Sir Gaerfyrddin ddull economi gymysg o gynnig y Cyfnod Sylfaen ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw hyblygrwydd yn y cynnig i'r sector a gynhelir (lleoliadau ysgol) ac nid oes unrhyw ddewis i rieni; gydag anghysondeb ar draws ysgolion o ran y nifer o oriau a gynigir ac anghysondeb rhwng ysgolion a darparwyr eraill.<br>• Cynnig darpariaeth cofleidiol i blant tair blwydd oed mewn amrywiaeth o leoliadau, darpariaeth o ansawdd ac ehangu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol uchel.<br>• Cynnig gweithio gyda 2 feithrinfa, gan wasanaethu'r gymuned wledig a'r ardal wledig.<br>• Byddai'n mynd i'r afael â bwlch amlwg yn y ddarpariaeth mewn dau bentref heb unrhyw gynnig Cyfnod Sylfaen drwy weithio mewn partneriaeth gyda Dechrau'n Deg i ddatblygu gofal cofleidiol i blant.<br>• Cynnig secondio unigolyn i symud y cynllun Peilot yn ei flaen. |
| Dinbych | • Mae'r awdurdod wedi cynghori y byddant yn defnyddio Gweithwyr Cyswllt Teulu i weithio mewn clystyrau o ysgolion. Diben eu dull diwygiedig o weithio yw gwella'r ffordd o nodi teuluoedd agored i niwed ac i benderfynu ar lefelau priodol o gymorth i sicrhau parodrwydd ysgol y plentyn. Byddant yn gweithio gyda theuluoedd unigol a phlant nad ydynt wedi dechrau yn yr ysgol a allai fod angen cymorth gyda phrosesau megis trefniadau derbyn.<br>• Byddant hefyd yn darparu cymorth i sicrhau pontio esmwyth i'r plant o'u cartref i gylch chwarae/lleoliad/ysgol i'r Cyfnod Sylfaen a byddant yn gweithio gyda rhieni i ddatrys unrhyw rwystrau i fanteisio ar ddarpariaeth addysg gynnar sydd ar gael ar draws yr awdurdod. |

| | |
|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | • Cynnig Castell-nedd Port Talbot yw parhau i gynnig y Cyfnod Sylfaen yn y ddarpariaeth a gynhelir yn yr awdurdod lleol (ysgolion) yn unig, ond cynnig darpariaeth fwy hyblyg o ran y pum sesiwn yn y ddarpariaeth feithrin yn wythnosol fydd o fewn cod ymddygiad.<br>• Mae Castell-nedd Port Talbot yn bwriadu cynnig hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen ar draws croestoriad / amrywiaeth dda o ysgolion, gan wneud defnydd da o ddata sy'n ymwneud â Phrydau Ysgol am Ddim (FSM), darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a galw posibl, Dechrau'n Deg, amddifadedd cymdeithasol, poblogaethau lleiafrifol ethnig.<br>• Bydd y model hwn yn profi effaith ar y sector nas cynhelir. Bydd gwerthuso'r sector a gynhelir yn unig yn profi i ba ysgol(ion) y bydd y cynnig o hyblygrwydd yn gwneud y mwyaf/lleiaf o wahaniaeth ar draws amrywiaeth eang o ddarpariaethau ysgol e.e. FSM uwch neu is. |
| Casnewydd | Cynigodd Gasnewydd ddull sector nas cynhelir yn unig gyda:<br>• cynnig Cyfnod Sylfaen 39 wythnos ddiddorol ac ymestynnol neu hyd at 50 wythnos;<br>• mewn hyd at 2 leoliad (i fynd i'r afael â galw sesiynol dwyieithog a galw cyfrwng Cymraeg); a<br>• darparu ar gyfer oriau annodweddiadol. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## 2 Gwerthusiad o’r Cynlluniau Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen

Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad

2.1 Ddau brif amcan y gwerthusiad, fel y nodir yn y ddogfen tendr gwreiddiol, yw:

a) Gwerthuso sut mae’r prosiectau Peilot yn cael eu rhoi ar waith; a
b) Gwerthuso'r effaith y mae mwy o hyblygrwydd yn ei gael ar deuluoedd.


2.2 Yn y nodau hyn bydd y gwerthuso yn mynd i’r afael â chwe amcan penodol fel sydd wedi’u nodi ym manyleb y tendr:

1. Cefnogi’r awdurdodau lleol sy’n rhan o’r peilot wrth sefydlu data sylfaenol o’r defnydd (rhieni sy’n awgrymu eu bod am dderbyn cynnig hyblyg) a phresenoldeb sesiynau (lefelau presenoldeb plant sy’n mynychu’r sesiynau yn dilyn hynny).
2. Asesu effeithiolrwydd rhoi'r prosiectau peilot ar waith.
3. Nodi’r rhwystrau a’r hwyluswyr i awdurdodau lleol o ran darparu mwy o hyblygrwydd.
4. Edrych ar y costau ychwanegol o ddarparu mwy o hyblygrwydd.
5. Pennu effaith mwy o hyblygrwydd ar rieni/gofalwyr a'u plant.
6. Nodi'r goblygiadau polisi ac arfer o ddarparu mwy o hyblygrwydd yn y Cyfnod Sylfaen.

2.3 Mae hyn i raddau helaeth yn werthusiad o broses – yn edrych ar sut y cynigir hyblygrwydd o ran darpariaeth a sut mae rhieni yn manteisio arno. Wrth wneud hynny, bydd y gwerthusiad hefyd yn ymchwilio i amrywiaeth o faterion a chwestiynau, mae’r rhan fwyaf o’r rhain wedi’u nodi uchod, am y cydberthnasau rhwng pedair elfen allweddol mynediad hyblyg a’r pedwar prif grŵp o randdeiliaid (Ffigwr 3): galw am fynediad hyblyg gan rieni (yn edrych ar bresenoldeb gwirioneddol gyda’r hyn maen nhw eisiau a’r hyn maen nhw ei angen), darparu mynediad hyblyg (o safbwynt awdurdod lleol a’r darparwr), ansawdd mynediad hyblyg (yn enwedig wrth gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen), ac

effaith mynediad hyblyg (ar gyfer awdurdodau lleol, darparwyr (gan gynnwys y farchnad gofal plant cyn ysgol i gyd), rhieni a phlant).

**Ffigur 3. Fframwaith Cysyniadol ar gyfer y Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen**




2.4 Gan ddefnyddio'r fframwaith cysyniadol (Ffigwr 3) rydym yn dechrau asesu effeithiolrwydd rhoi'r cynlluniau Peilot ar waith o ran darpariaeth, galw, ansawdd ac effaith, ac o bedwar safbwynt sef awdurdodau lleol, darparwyr, rhieni a phlant. Gellir crynhoi hyn yn ddefnyddiol yn Nhabl 2.

2.5 Er bod ffocws y gwerthusiad hwn bellach ar brosesau yn hytrach na chanlyniadau, drwy gydol yr adroddiad rydym yn awyddus i nodi enghreifftiau o arfer gorau, ar lefel darparwr a lefel awdurdod lleol. Rydym hefyd yn ystyried goblygiadau polisi ac arfer mwy o

hyblygrwydd a’r posibilrwydd o ehangu cynlluniau Peilot hyblygrwydd i ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

**Tabl 2. Gwerthusiad o Effeithiolrwydd Cynlluniau Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen**

| | Awdurdodau Lleol | Darparwyr | Rhieni a Phlant |
|---|---|---|---|
| Galw | Sut mae galw am fynediad hyblyg yn cael ei asesu<br><br>Sut mae galw am fynediad hyblyg yn cael ei ddeall (h.y. beth mae awdurdodau lleol yn meddwl fydd y manteision i rieni) | Sut mae ymgynghori â rhieni ar fynediad hyblyg<br><br>Sut mae galw am fynediad hyblyg yn cael ei ddehongli a'i ddeall gan ddarparwyr<br><br>Pa mor frwdfrydig a pharod yw darparwyr o ran cynnig mynediad hyblyg | Pa fathau o fynediad hyblyg mae rhieni (a) angen eu cael a (b) yn dymuno eu cael<br><br>Math neu fathau o fynediad hyblyg sydd ei angen/eu hangen<br><br>Sut mae galw am fynediad hyblyg yn ymwneud â ffactorau eraill am ddewis darpariaeth |
| Darpariaeth | Sut y defnyddir asesiad o anghenion i ddatblygu darpariaeth<br><br>Sut mae mynediad hyblyg yn cael ei gyfleu i rieni<br><br>Pa gymorth a chanllawiau gan yr awdurdod lleol sydd ar gael i ddarparwyr | Sut mae mynediad hyblyg yn cael ei gyfleu i rieni<br><br>Sut mae mynediad hyblyg yn cael ei gynllunio a'i drefnu<br><br>Beth yw'r heriau a'r cyfyngiadau o ran darparu mynediad hyblyg | Beth mae rhieni yn ei feddwl am y dewis o ddarpariaeth gyffredinol a mynediad hyblyg yn benodol<br><br>Oes angen mynediad mwy hyblyg<br><br>Beth sydd yn rhwystro manteisio ar fynediad hyblyg newydd<br><br>Ymwybyddiaeth rhieni am unrhyw drefniadau ar gyfer mynediad hyblyg |
| Ansawdd | Pa gymorth a roddir i ddarparwyr wrth roi mynediad hyblyg ar waith ochr yn ochr â darparu'r Cyfnod Sylfaen | Pa mor hyblyg yw mynediad<br><br>Cynnig y Cyfnod Sylfaen i blant oedran meithrin | Ansawdd profiad y Cyfnod Sylfaen i blant oedran meithrin |
| Effaith | Cynnydd yn nifer y lleoedd am ddim sy'n cael eu defnyddio yn y Cyfnod Sylfaen<br><br>Nifer y lleoedd am ddim sy'n cael eu defnyddio yn gynharach yn y Cyfnod Sylfaen<br><br>Cost asesu | Mynediad cynharach i ysgolion a gynhelir<br><br>Manteision economaidd i'r sector nas cynhelir<br><br>Costau ariannol a sefydliadol darparu mynediad hyblyg | Boddhad darpariaeth ymhlith rhieni<br><br>Mynediad i gyflogaeth ar gyfer rhieni<br><br>Manteision addysgol a chymdeithasol ar gyfer plant mynediad cynyddol neu gynharach i'r Cyfnod Sylfaen |

| | |
|---|---|
| | anghenion mynediad hyblyg<br><br>Newidiadau yn y gweithdrefnau derbyn a meini prawf goralw |

**Cynllun a Methodoleg**

2.6 Roedd y gwerthusiad o'r cynlluniau Peilot hyblygrwydd yn ymchwilio i *alw* a *dyluniad* y cynllun Peilot ym mhob awdurdod lleol (h.y., beth oedd y broblem neu'n mater ym mhob awdurdod lleol yr oedd y cynlluniau Peilot yn gobeithio eu datrys); *darpariaeth* y cynllun Peilot hyblygrwydd (h.y., sut y rhoddwyd y cynllun Peilot ar waith yn yr awdurdodau lleol ac mewn lleoliadau); *ansawdd* y ddarpariaeth hyblyg mewn lleoliadau (h.y., yr effaith, os o gwbwl, a gafodd y cynllun Peilot hyblygrwydd ar addysgeg a rhoi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith); ac yn olaf, roedd y gwerthusiad yn asesu *effaith* posibl y cynllun Peilot ar leoliadau, rhieni a phlant.

2.7 Dechreuodd y broses werthuso gydag ymgynghoriadau a chyfres o gyfweliadau cwmpasu (cyfanswm o saith) gyda chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drefnu a chyflwyno'r cynlluniau Peilot hyblyg.

2.8 Defnyddiwyd y cam cyntaf hwn o'r gwaith ymchwil i egluro cyd-destun lleol ehangach a'r gofynion gwahanol ym mhob ardal a'r hyn yr obeithiwyd y byddai 'hyblygrwydd' yn mynd i'r afael ag o ym mhob ardal. Cynhaliodd y tîm ymchwil un cyfweliad *cwmpasu* gyda chynrychiolwyr addysgol awdurdodau lleol yng Nghasnewydd a Castell-nedd Port Talbot; tri yn Sir Ddinbych a dau yn Sir Gaerfyrddin.

2.9 Ar ôl yr ymarfer cwmpasu cychwynnol hwn, penderfynwyd ar ddyluniad terfynol y gwerthusiad. Roedd hyn yn cynnwys dau brif faes:

i. Ymweliadau astudiaeth achos; ac
ii. Ymgysylltu â rhieni.

*Ymweliadau astudiaeth achos*

2.10 Yng nghynllun Peilot pob awdurdod lleol dewiswyd nifer o leoliadau astudiaeth achos oedd yn cymryd rhan yn y cynllun Peilot Hyblygrwydd, cyfanswm o 26. Gan fod dyluniad pob cynllun Peilot Hyblygrwydd yn wahanol ym mhob awdurdod lleol nid oedd unrhyw un strategaeth samplu benodol yn briodol. Mewn egwyddor, fodd bynnag, dewiswyd lleoliadau astudiaeth achos ar sail y lefel uchaf o alw ymhlith rhieni am leoedd hyblyg. Roedd hyn er mwyn sicrhau y gallai'r gwerthusiad weld yr effaith fwyaf posibl mewn darpariaeth hyblyg o fewn y cyfyngiadau ar adnoddau yn y gwerthusiad.

2.11 Yn ogystal â hynny, dewiswyd lleoliadau astudiaeth achos hefyd, lle y bo'n briodol, ar sail galw isel neu ddim galw am ddarpariaeth hyblyg. Y prif reswm dros gynnwys y lleoliadau hyn oedd fel y gallai'r gwerthusiad ystyried pam fod galw cyfyngedig am leoedd hyblyg er gwaethaf y potensial am hyn.

2.12 Yn olaf, dewiswyd rhai lleoliadau astudiaeth achos oherwydd nad oeddent yn cymryd rhan yn y cynlluniau Peilot, ond a oedd yn ysgolion neu leoliadau tebyg iawn i'r rhai oedd yn cymryd rhan (h.y. roedden nhw wedi'u lleoli gerllaw ac yn darparu i gymunedau tebyg iawn). Darperir dadansoddiad o ysgolion/lleoliadau astudiaeth achos yn Nhabl 3.

2.13 Cynlluniwyd ymweliadau astudiaeth achos i asesu effaith y cynlluniau Peilot hyblyg ar staff, staff addysgu a staff y lleoliad yn fwy cyffredinol, ac effaith y mentrau hyblyg ar blant a'u haddysg. Bu i ymchwilwyr gyfweld penaethiaid, athrawon a chymorthyddion addysgu (e.e. ymarferwyr meithrinfa) oedd yn cymryd rhan yn y prosiectau Peilot hyblyg, a siarad â'r rhain; cyfanswm o 40 o gyfweliadau ymarferwyr.

2.14 Roedd y gwerthusiad hefyd yn arsylwi 19 o ddosbarthiadau/grwpiau meithrin y Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio’r un dulliau a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad o’r Cyfnod Sylfaen (Taylor *et al.,* 2015). Roedd hyn yn cynnwys arsylwi grwpiau/dosbarthiadau yn systematig dros o leiaf un sesiwn (un awr fel arfer). Fe'i defnyddiwyd i fesur pa mor dda y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn y lleoliadau astudiaeth achos.

2.15 Hefyd, roedd hyn yn cynnwys arsylwi cyfranogiad a lles ymysg disgyblion yn systematig gan ddefnyddio'r **raddfa Leuven**[13], gan roi sylw arbennig yn benodol i'r plant hynny sy'n cymryd rhan yn y prosiectau Peilot hyblygrwydd. Mae Atodiad C yn cynnwys canlyniadau’r arsylwadau hyn ar gyfer pob astudiaeth achos ysgol/lleoliad,

2.16 Ar gyfer lleoliadau astudiaeth achos nad ydynt yn cymryd rhan bu i’r tîm gwerthuso gyfweld â staff am eu barn am ddarpariaeth hyblyg (gan gynnwys pam nad ydynt wedi cymryd rhan, lle’n gymwys) ond ni fu iddynt arsylwi’r disgyblion.

2.17 Yng **Nghasnewydd**, ymwelodd yr ymchwilwyr â chyfanswm o saith lleoliad: chwe lleoliad oedd yn cymryd rhan ac un lleoliad nad oedd yn cymryd rhan. Hefyd bu iddynt gynnal cyfweliadau ffôn gyda rheolwyr mewn dau leoliad ychwanegol nad ydynt yn cymryd rhan. Cynhaliodd yr ymchwilwyr un ar ddeg cyfweliad ffurfiol i gyd, ac yn ystod hyn bu iddynt siarad gyda naw rheolwr lleoliad a pum ymarferwr meithrinfa arweiniol (cynhaliwyd rhai o’r cyfweliadau drwy gydol y gwerthusiad gyda’r rheolwr/HT a NLP ar yr un pryd, dyma pam mae odrif). Yn ystod yr ymweliadau astudiaethau achos yng Nghasnewydd, arsylwodd ymchwilwyr ar naw o ddosbarthiadau meithrin gwahanol.

---

[13]Mae’r raddfa Leuven yn adnodd ymchwil addysgol a ddatblygwyd yng Ngwlad Belg i helpu i asesu ac arsylwi yn y dosbarth. "Mae'r adnodd yn canolbwyntio ar ddau ddangosydd canolog o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd: 'lles' a 'chynhwysiant' y plant. Mae lles yn cyfeirio at deimlo yn gartrefol, bod yn ddigymell a heb unrhyw densiynau emosiynol ac mae’n hanfodol i 'iechyd meddwl' da. Mae lles yn gysylltiedig â hunanhyder, gradd dda o hunan-barch a gwydnwch. Mae cynhwysiant yn cyfeirio at gymryd rhan ddwys mewn gweithgareddau ac yn cael ei ystyried yn amod angenrheidiol ar gyfer dysgu a datblygu ar lefel ddofn" (Cyngor Dinas Plymouth, 2011:1).

2.18 Yng **Nghastell-nedd Port Talbot**, ymwelodd yr ymchwilwyr â chyfanswm o bedwar lleoliad: gan gynnwys tri lleoliad oedd yn cymryd rhan ac un lleoliad nad oedd yn cymryd rhan. Cwblhaodd yr ymchwilwyr gyfanswm o saith cyfweliad ffurfiol, gan siarad â phedwar pennaeth a pum ymarferwr meithrinfa arweiniol. Arsylwodd ymchwilwyr ddisgyblion mewn chwe dosbarth meithrin gwahanol.

2.19 Yn **Sir Gaerfyrddin**, ymwelodd yr ymchwilwyr â chyfanswm o naw lleoliad: pum lleoliad oedd yn cymryd rhan a phedwar lleoliad nad oedd yn cymryd rhan. O’r lleoliadau nad oedd yn cymryd rhan, roedd dau yn y sector a gynhelir ac roedd dau yn y sector nas cynhelir. Cynhaliodd y tîm un ar ddeg o gyfweliadau ffurfiol i gyd, gan siarad â saith o benaethiaid a rheolwyr a phedwar o ymarferwyr meithrinfa arweiniol. Arsylwodd ymchwilwyr ddisgyblion mewn chwe dosbarth meithrin gwahanol.

2.20 Yn **Sir Ddinbych**, ni ddefnyddiwyd lleoliadau astudiaeth achos. Yn lle hynny, bu i’r tîm ymchwil 'gysgodi' gweithwyr cyswllt teulu yn ystod eu rôl o ddydd i ddydd, mewn ysgolion a chymunedau. Siaradodd y tîm ymchwil hefyd gyda staff ysgol, rhieni a theuluoedd sy'n gysylltiedig ac ymgysylltu â gweithwyr cyswllt teulu. Bu i’r tîm hefyd arsylwi’r athrawon cysylltiedig yn ystod eu gwaith mewn lleoliadau nas cynhelir, cyfweld â’r athrawon cysylltiedig ac yn siarad â staff yn y lleoliadau.

2.21 Roedd yr ymgysylltu hwn gydag awdurdodau lleol a lleoliadau yn anochel yn broses ailadroddus, ac yn ystod y gwerthusiad roedd ymchwilwyr mewn cysylltiad rheolaidd â’r awdurdodau lleol ac ysgolion/lleoliadau oedd yn cymryd rhan pryd bynnag yr oedd angen eglurhad neu wybodaeth ychwanegol.

*Ymgysylltu â rhieni*

2.22 Ail prif elfen y gwerthusiad oedd cysylltu a holi barn rhieni/gofalwyr ar effaith bosibl y cynlluniau Peilot ar eu bywydau ac ar eu plant.

Defnyddiwyd nifer o strategaethau i wneud hyn. Yn gyntaf, rhoddodd y tîm gwerthuso arolwg papur dwy dudalen i rieni pob plentyn oedran meithrin ym mhob un o'r lleoliadau astudiaeth achos ar ddechrau neu ddiwedd y diwrnod ysgol. Gofynnwyd i rieni gwblhau'r arolwg a'i ddychwelyd at y tîm ymchwil neu'r ysgol (gan ddefnyddio amlenni rhagdaledig lle bo angen). Dosbarthwyd cyfanswm o dros 500 o arolygon yn y ffordd hon, a derbyniwyd 52 o ymatebion i'r arolwg wedi'i gwblhau yn ôl (cyfradd ymateb o tua 10%).[14]

2.23 Yna, yn ail, ategwyd yr arolygon hyn ar bapur gan arolwg electronig ar y we (neu e-arolwg). Dosbarthwyd y ddolen i'r arolwg gan yr ysgolion/lleoliadau i rieni drwy e-bost, neges testun a chyfryngau cymdeithasol eraill. Derbyniodd y gwerthusiad 31 o ymatebion dilys i'r e-arolwg hwn. Cyflwynir canlyniadau'r e-arolwg hwn yn Atodiad B.

2.24 Yn drydydd, cynhaliodd y tîm ymchwil 43 o gyfweliadau ffôn gyda rhieni sydd yn defnyddio neu sydd wedi defnyddio cynlluniau Peilot hyblygrwydd yn flaenorol yng Nghasnewydd, Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin.[15] Derbyniodd yr awdurdodau lleol y manylion cyswllt a chaniatâd ar gyfer cysylltu â'r rhieni hynny. Cynhaliwyd cyfanswm o 43 cyfweliad ffôn gyda rhieni.

2.25 Yn ogystal â'r ffurfiau mwy ffurfiol hyn o ymgysylltu â rhieni, cynhaliodd y tîm ymchwil hefyd nifer o 'sgyrsiau wrth y gât' gyda rhieni am y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd yn ystod yr ymweliadau astudiaethau achos.

2.26 Mae dadansoddiad llawn o'r broses ymchwil wedi'i gynnwys yn Nhabl 3.

[14] Y gyfradd ymateb hon o ddeg y cant yw'r gyfradd nodweddiadol a ddisgwylir o ymchwil arolwg gyda rhieni. Mae'n cymharu'n uniongyrchol i astudiaeth ar raddfa fwy yn Lloegr (Smith et al., 2009).

[15] Ni chysylltwyd â rhieni Sir Ddinbych dros y ffôn oherwydd natur sensitif yr ymyriadau a gynhaliwyd gan y Gweithwyr Cyswllt Teulu, ond hefyd oherwydd yr anawsterau wrth ddod o hyd i rieni i'w targedu, o ystyried ehangder ymyriadau'r gweithiwr cyswllt teulu. Daethpwyd i'r casgliad bod sgyrsiau anffurfiol gyda rhieni yn ystod sesiynau Gweithiwr Cyswllt Teulu yn rhoi digon o gyfle iddyn nhw roi eu barn ar y Gweithwyr Cyswllt Teulu.

**Tabl 3. Crynodeb o Ddyluniad y Gwerthusiad a Chasglu Data**

| | Casnewydd | Castell-nedd Port Talbot | Sir Gaerfyrddin | Dinbych | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfweliadau Awdurdod Lleol | 1 | 1 | 2 | 3 | 7 |
| Ymweliadau ysgol/lleoliad | 7 (6 yn cymryd rhan; 1 nad oedd yn cymryd rhan) | 4 (3 yn cymryd rhan ac 1 nad oedd yn cymryd rhan) | 9 (5 yn cymryd rhan a 4 nad oedd yn cymryd rhan) | 6 (4 gyda gweithiwr cyswllt teuluol, 2 gydag athro cysylltiedig 10%) | 26 |
| Arsylwadau Ystafell Ddosbarth | 9 | 5 | 5 | 0 | 19 |
| Cyfweliadau Staff | 11 (9 mewn lleoliadau, 2 gyfweliad ffôn gyda staff mewn lleoliadau nad oedd yn cymryd rhan) | 9 | 14 | 6 (4 gyda gweithiwr cyswllt teuluol, 2 gydag athro cysylltiedig 10%) | 40 |
| E-arolwg Staff | | | | | 7 |
| Arolygon Rhieni a dderbyniwyd (Papur) | 12 | 22 | 18 | 0 | 52 |
| E-arolygon (rhieni) | | | | | 37 (31 dilys) |
| Cyfweliadau Ffôn â Rhiant | 5 | 24 | 14 | 0 | 43 |

# 3 Gwerthusiad o gynllun Peilot Hyblygrwydd Casnewydd

## Dyluniad a Galw Lleol

3.1 Mae gan Gasnewydd system wedi'i datblygu'n dda o ddarpariaeth feithrin ar draws y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir. Ar hyn o bryd, mae gan bob ysgol gynradd a gynhelir yng Nghasnewydd ddarpariaeth feithrin ar y safle (ac os nad oes ganddynt, bydd y ddarpariaeth hon ar waith ganddynt erbyn 2017).

3.2 Yn hanesyddol, mae'r galw am addysg cyn ysgol yn fwy na'r hyn sydd ar gael yng Nghasnewydd ac mae'r sector nas cynhelir yn draddodiadol wedi helpu. Os na all rhieni gael lle yn y lleoliad a gynhelir o ddewis yna mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol yn eu cyfeirio at leoliadau lleol nas cynhelir lle gallant fanteisio ar eu hawl i ddeg awr am ddim. Felly mae'r sector nas cynhelir yn chwarae rôl ganolog wrth helpu rhieni na allant gael lle mewn meithrinfa a gynhelir.

3.3 Mae lleoliadau meithrin a gynhelir yng Nghasnewydd yn gyffredinol yn cynnig darpariaeth sesiynau 'traddodiadol' boreau (9-12) neu sesiynau brynhawn (1-3), er bod union fath y ddarpariaeth yn wahanol o ysgol-i-ysgol yn seiliedig ar eu capasiti a p'un a oes ganddynt un neu ddau o ddosbarthiadau meithrin. Ni all plant yng Nghasnewydd fanteisio ar eu darpariaeth drwy wneud sesiynau bore *a* phrynhawn yn yr un diwrnod (fel sydd ar waith yng nghynllun Peilot Castell-nedd Port Talbot). At hynny, mae'n rhaid i blant ym meithrinfeydd y sector a gynhelir ar hyn o bryd wneud *o leiaf pum sesiwn* er mwyn manteisio ar eu hawl (h.y., ni chaiff plant fod yn 'rhan amser'[16]). Mae hyn yn cynrychioli ymagwedd 'y cyfan neu ddim'.

[16]Yn amlwg, gyda deg awr yn unig o ddarpariaeth am ddim ar gael mewn ysgolion a gynhelir mae'r holl blant yn rhan-amser. Y pwynt yma yw bod yn rhaid iddynt fynychu bob diwrnod o'r wythnos ysgol yn hytrach na dim ond rhai diwrnodau'r wythnos.

3.4 Mewn cyferbyniad, mae’r sector nas cynhelir yn darparu gofal cofleidiol, a gall gymryd plant drwy’r dydd[17]. Mae’r sector nas cynhelir hefyd yn caniatáu i rieni gymryd o leiaf tri sesiwn yr wythnos, gan alluogi plant i fod yn bresennol am ran yn unig o'r wythnos waith.

3.5 Yng Nghasnewydd, nod penodol y cynllun Peilot Hyblygrwydd oedd *helpu rhieni sy'n gweithio*. O gofio'r ystod sylweddol o opsiynau addysgol cyn-ysgol sy'n bodoli eisoes ar gyfer rieni yng Nghasnewydd, yn enwedig yn y sector nas cynhelir a ariennir, rhaid cyflwyno'r cynllun Peilot Hyblygrwydd felly gweld fel *estyniad* o hyblygrwydd yn y system bresennol, yn hytrach na fel mater o ailwampio sylfaenol.

3.6 Bu i ‘Fwrdd Blynyddoedd Cynnar’ Casnewydd (sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o’r sector a gynhelir a’r sector nas cynhelir) gyfarfod i drafod y cysyniad o ddarpariaeth hyblyg (e.e. galw a dichonoldeb). Ar ôl ymgynghori ag ysgolion, dyluniodd 'is-grŵp hyblygrwydd’ yr awdurdod lleol dri math gwahanol o ddarpariaeth hyblyg: (i) *darpariaeth a rennir*; (ii) *oriau anghymdeithasol,* a (iii) *darpariaeth 50 wythnos.* Roedd pob gwahanol fath o hyblygrwydd wedi'i deilwra i ymateb i'r materion gwahanol a wynebir gan rai sectorau lleol gan rieni.

3.7 Yn ystod yr ymgynghoriadau cychwynnol hyn, penderfynodd cynrychiolwyr y sector a gynhelir y byddai'n well cadw’r *status quo* a pheidio â chymryd rhan yn y cynllun Peilot Hyblygrwydd. Arweiniodd hyn at gynnig y cynllun Peilot Hyblygrwydd mewn lleoliadau nas cynhelir yn unig.[18]

---

[17]Dywedodd y gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd eu bod yn rhoi cyhoeddusrwydd i leoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir yn yr un modd i rieni oherwydd eu bod yn ymwybodol y gallai rhieni sy'n gweithio fod angen y ddarpariaeth gofleidiol a gynigir gan y sector nas cynhelir.

[18]Mae'r system dalu yn gweithio fel a ganlyn. Mae rhieni yn talu am wasanaeth meithrinfa i’w plant (fel arfer sesiynau 3-5 diwrnod llawn). Yna mae’r feithrinfa yn derbyn arian gan yr awdurdod lleol i dalu am y deg awr am ddim y mae gan y plant hawl iddo. Mae’r feithrinfa wedyn yn ad-dalu pris y deg awr am ddim oddi-ar bil y rhieni ar ddiwedd y mis. Yn y sector nas cynhelir, bydd rhai plant yn manteisio ar eu sesiynau am ddim yn unig (h.y. yn union fel y byddent yn y sector a gynhelir).

3.8 Yn dilyn hyn, cynhaliodd yr awdurdod lleol drafodaethau galw heibio a diwrnodau gwybodaeth ar gyfer lleoliadau nas cynhelir oedd â diddordeb, ac roedd y rhain wedyn yn cyflwyno cynigion i roi'r cynllun Peilot ar waith. Mae system 'rhagnodedig' Casnewydd sy'n cynnig y dewis i leoliadau roi tri math o hyblygrwydd sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw yn wahanol iawn i'r awdurdodau lleol eraill oedd yn rhan o'r cynllun Peilot.

3.9 Roedd yn *rhaid* i'r holl leoliadau a gytunodd i gymryd rhan yng nghynllun Peilot Casnewydd gynnig *darpariaeth a rennir* o leiaf, ac yna gallent gynnig *darpariaeth oriau anghymdeithasol* a/neu *ddarpariaeth 50 awr.* Roedd y cyllid ar gyfer lleoliadau yn cynyddu gyda bob math o ddarpariaeth ychwanegol a gynigwyd.

**Blwch 1. Pwyntiau Allweddol o gynllun Peilot Hyblygrwydd Casnewydd**

- Cyflwynwyd darpariaeth hyblyg yn y sector nas cynhelir yn unig.
- Mathau 'rhagnodedig' o hyblygrwydd a gynigir i leoliadau (h.y. fel arfer dan arweiniad/wedi'u pennu gan AALl yn hytrach na gan y lleoliadau).
- Cynigir tri math o hyblygrwydd: 'darpariaeth a rennir'; 'oriau anghymdeithasol' a 'darpariaeth 50 wythnos'.
- Gall lleoliadau gynnig y tri math o ddarpariaeth ond *mae'n rhaid iddynt gynnig darpariaeth a rennir* er mwyn bod yn rhan o'r cynllun Peilot (h.y. i gael yr arian), ac yna gallant gynnig un neu ddau o'r cynlluniau ychwanegol.

### Darpariaeth a Rennir

*Galw*

3.10 Y prif 'gynnig' hyblyg a gynigir gan awdurdod lleol Casnewydd oed *darpariaeth a rennir,* cynllun lle gallai plant fanteisio ar eu hawl i ddeg

awr rhwng *dau leoliad gwahanol* (gyda'r amod fod rhaid iddynt ddewis o leiaf dau ddiwrnod ym mhob lleoliad).

3.11 Yn seiliedig ar drafodaethau gyda rhieni, cododd yr angen am ddarpariaeth a rennir ar draws lleoliadau lluosog yn bennaf oherwydd diffyg gofal cofleidiol yn y sector a gynhelir, ynghyd â chyflogaeth ffracsiynol ymhlith rhieni (mamau yn bennaf). Mewn geiriau eraill, roedd rhieni angen gofal cofleidiol mewn mwy nag un ardal. Er enghraifft, efallai bod rhiant am gael gofal cofleidiol ar y diwrnodau yr oeddent yn gweithio (ardal X) ac yna rhyw fath o ddarpariaeth ar ddyddiau eraill yr wythnos, ger lle roeddent yn byw (ardal Y).

3.12 Mewn meithrinfeydd lleol (a gynhelir a nas cynhelir) darpariaeth bore neu brynhawn a gynigir, (h.y., heb unrhyw ofal cofleidiol neu ofal cofleidiol nad yw'n para'n ddigon hir i rieni sy'n gweithio) felly byddai'n rhaid i rieni drefnu i rywun ofalu am y plant ar ôl iddynt orffen yn y Feithrinfa neu gludo eu plant i Feithrinfa dydd nas cynhelir *sydd* yn cynnig darpariaeth gofal cofleidiol estynedig. Ar ddiwrnodau pan nad yw rhieni yn gweithio, ac felly pan maen nhw'n gallu casglu'r plentyn ar ôl y sesiwn bore (neu gludo'r plentyn i sesiwn y prynhawn), mae'n annhebygol y bydd y rhiant am i'r plentyn i dreulio diwrnod cyfan mewn meithrinfa nas cynhelir (neu dalu am ddiwrnod llawn). Ar y dyddiau hyn pan maen nhw'n *gallu* casglu/cludo, byddai'n well gan rieni ddefnyddio *meithrinfa leol* (heb ddarpariaeth cofleidiol). Mae gan hyn fantais ychwanegol o helpu eu plentyn i gymdeithasu gyda phlant sy'n debygol o fynychu'r un ysgol yn 4/5 mlwydd oed.

3.13 Mae'r mater hwn yn fwy amlwg ymhlith rhieni sy'n gweithio (yn enwedig y rhai sy'n teithio i weithio y tu allan i'r ardal leol), y rhai sy'n gweithio rhan amser, a'r rhai na allant ddibynnu ar gysylltiadau lleol neu deuluol ar gyfer gofal plant.

3.14 Cyn cyflwyno'r *ddarpariaeth a rennir* (yn ffurfiol), ni allai rhieni fanteisio ar eu hawl am ddeg awr am ddim ar draws nifer o leoliadau,

felly ni fyddai rhieni yn y sefyllfa hon yn gallu cael cymorth ariannol/ad-daliad tuag at ddefnyddio meithrinfeydd gofal dydd nas cynhelir. Yn ogystal â hynny, mae bodolaeth cyfyngiadau angenrheidiol ar ddarpariaeth (fel pennu bod rhaid i blentyn fynychu Meithrinfa am leiafswm o ddyddiau neu oriau i ennill ei le neu i fanteisio ar eu hawl i ddeg awr) o bosibl yn golygu nad yw rhieni yn gallu rhoi eu plant yn eu Meithrinfa leol a gynhelir ar y diwrnodau pan maen nhw i ffwrdd o'r gwaith. Gallai'r paramedrau hyn hefyd olygu bod rhieni yn debygol o gadw eu plant allan o'r Feithrinfa nas cynhelir ar ddiwrnodau nad ydynt yn gweithio, ac felly yn lleihau faint o amser y gallai eu plant fanteisio ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

3.15 Felly daeth darpariaeth a rennir yn biler canolog i'r cynllun Peilot Hyblygrwydd oherwydd galw canfyddedig yn yr awdurdod lleol. Mae'n debyg bod rhieni wedi bod yn gofyn yn rheolaidd i Feithrinfeydd gynnig yr opsiwn hwn ac yn wir mae wedi ei weithredu ar sail ad hoc o'r blaen. Llwyddodd y cynllun Peilot Hyblygrwydd i ffurfioli hyn.

*Darpariaeth*

3.16 O dan y d*darpariaeth a rennir,* gallai rhieni a phlant yng Nghasnewydd fanteisio ar eu hawl i ddeg awr ar draws nifer o leoliadau. Yn ogystal â gallu manteisio ar eu hawl ar draws lleoliadau gwahanol yng Nghasnewydd, gallai'r plant ddefnyddio *darpariaeth a rennir* mewn lleoliadau yn yr awdurdodau lleol cyfagos sef Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen – a'r rhain i gyd yn rhan o Gonsortiwm Rhanbarthol y De ddwyrain. Fodd bynnag, nid oedd y trefniant cyfatebol hwn ar gael yng Nghaerdydd, sy'n perthyn i gonsortiwm gwahanol (Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Canolbarth y De).

3.17 Cafodd y math hwn o hyblygrwydd nifer o effeithiau cadarnhaol. Yn gyntaf, gan ganiatáu manteisio ar hawl ar draws lleoliadau lluosog, gallai rhieni bellach gael budd ariannol nad oedd ar gael iddynt o'r blaen. Yn ail, roedd ffurfioli'r hawliau ar draws nifer o leoliadau yn

golygu y gallai rhieni nawr gael eu plant yn y ‘Feithrinfa leol’ yn ogystal â mewn lleoliad ger lle roedden nhw’n gweithio.

3.18 Mae’r hyblygrwydd hwn hefyd wedi galluogi i blant elwa ar y parhad o ddod i adnabod eu ffrindiau ysgol gynradd yn y dyfodol.

3.19 Yn olaf, mae *darpariaeth a rennir* yn annog rhieni i fynd â’u plant i'r Feithrinfa ar y dyddiau hynny nad oeddent yn gweithio (o'r blaen efallai y byddent wedi cadw’r plentyn adref) ac felly annog mwy o ddefnydd o’r Cyfnod Sylfaen gan y byddai'r plant wedi mynychu *mwy o sesiynau dros yr wythnos.*

3.20 Roedd y plant a gymerodd ran yn y *ddarpariaeth a rennir* yn rhannu darpariaeth rhwng meithrinfeydd sesiynol (hy, y rheini sy'n cynnig darpariaeth bore neu brynhawn yn unig) a meithrinfeydd dydd (h.y. gyda darpariaeth cofleidiol diwrnod llawn). Yn gyffredinol ni chanfuwyd fod plant yn rhannu darpariaeth rhwng dau leoliad diwrnod llawn.

3.21 Hysbyswyd rhieni o'r cynllun *darpariaeth a rennir* gan y lleoliadau eu hunain drwy’r mathau traddodiadol o gyfathrebu (cylchlythyrau a 'sgwrs gât yr ysgol' anffurfiol). Serch hynny, dywedodd rhai o'r rhieni a holwyd nad oeddent yn ymwybodol o'r cynllun Peilot Hyblygrwydd, gan awgrymu’r angen am gyhoeddusrwydd mwy systematig (neu fathau eraill o gyhoeddusrwydd) ar gyfer y ddarpariaeth.

3.22 Adroddodd lleoliadau hefyd bod rhoi’r *ddarpariaeth a rennir* ar y dechrau yn anhrefnus, heb fawr ddim cyfathrebu rhwng lleoliadau ac ychydig o oruchwyliaeth yn cael ei gynnig gan yr awdurdod lleol. Awgrymodd rhai rhieni y siaradwyd â nhw yn yr un modd nad oedd yn ymddangos fod y lleoliadau dan sylw yn cyfathrebu â'i gilydd. Fodd bynnag, roedd staff yn honni bod y problemau cychwynnol hyn wedi’u datrys bellach, a bod y cynllun wedi dechrau rhedeg yn esmwyth.

3.23 Nawr, mae’r lleoliadau yn cael cyfarfodydd bob tymor gyda chynrychiolwyr o’r awdurdod lleol mewn perthynas â’r cynllun ac mae rheolwyr o leoliadau’r ddarpariaeth a rennir yn cyfarfod bob tymor i drafod datblygiad y plant a rennir.

*Ansawdd*

3.24 Ni chynigodd yr awdurdod lleol unrhyw gyngor neu arweiniad penodol i leoliadau o ran y *ddarpariaeth a rennir* a rhoi’r Cyfnod Sylfaen ar waith, oherwydd nid oedd disgwyl i’r math hwn o hyblygrwydd gael unrhyw fath o effaith ar y cwricwlwm. Fodd bynnag mae’n bwysig nodi fod staff wedi deall yn atblygol bod *potensial* y *gallai*’r *ddarpariaeth a rennir* ddrysu neu gynhyrfu’r plant - gan ei fod yn cynnwys dau set o staff a dau grŵp o blant - ac yn y pen draw effeithio ar eu profiad o’r Cyfnod Sylfaen.

3.25 Yn yr un modd, wrth drafod y cysyniad o *ddarpariaeth a rennir* gydag ysgolion na ddefnyddir y tu allan i Gasnewydd, nododd rhai athrawon (a'r rhai hynny mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn arwyddocaol) na fyddai *darpariaeth a rennir* a’i oblygiadau ‘wedi gweithio' yn eu lleoliad. Dywedodd un athro: "Ni fyddai’r plentyn yn cael yr un profiadau mewn dau leoliad, ni fyddent yn dod i arfer gyda’r drefn ddyddiol ac yn dod i adnabod aelodau o staff, a byddai'n gwneud y cyfnod setlo i blant yn anoddach, gan eu bod angen parhad".

3.26 Honnodd staff mewn lleoliadau oedd yn cymryd rhan, tra'n cydnabod y gallai’r cynllun godi’r anfanteision posibl hyn, serch hynny, nad oedd y *ddarpariaeth a rennir* wedi cael fawr o effaith ar addysg y plant nac ar roi’r Cyfnod Sylfaen ar waith. Roedd ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn dadlau y byddai’r materion a nodwyd uchod fel arfer yn ‘dibynnu ar y plentyn’ a’u bod yn hyderus pe byddai’r problemau hyn yn codi y byddent yn gallu eu datrys drwy gyfathrebu effeithiol rhwng y lleoliadau.

3.27 Mewn cyfarfod diweddarach, dywedodd rheolwr un lleoliad bod un plentyn wedi defnyddio *darpariaeth a rennir* rhwng tri lleoliad, ac nad oedd yn ymdopi'n dda iawn.

3.28 Fel mewn rhanbarthau eraill, teimlwyd bod y lleoliadau oedd yn cymryd rhan yng Nghasnewydd yn 'gryf' ac yn naturiol, fod ganddynt allu da i ddelio gyda'r materion posibl hyn. Amser a ddengys sut y byddai lleoliadau 'gwannach' yn ymdopi gyda'r materion hyn.

*Effaith*

3.29 Nid yw effaith gyffredinol y *ddarpariaeth a rennir* ar niferoedd (ac ar gyrhaeddiad plant) yn glir eto. Yn gyffredinol roedd y nifer a ddefnyddiodd fenter y *ddarpariaeth a rennir* yn isel, ond gallai hyn fod oherwydd bod y trefniadau gweithio a ysgogodd y fenter yn gymharol brin a'u bod ar waith, ac yn eithaf pwrpasol i anghenion teuluoedd unigol.

3.30 Esboniad posibl arall am niferoedd isel yw na allai rhieni oedd yn cymudo i'r gwaith fanteisio ar y ddarpariaeth a rennir yng Nghaerdydd lle'r oedd nifer ohonynt yn gweithio.

3.31 Teimlwyd fod *darpariaeth a rennir* yn helpu'r defnydd o fwy o *sesiynau* (yn hytrach na'r nifer sy'n defnyddio fel y cyfryw). Roedd yr awdurdod lleol yn honni nad oedd menter y *ddarpariaeth a rennir* wedi cael effaith negyddol ariannol neu sefydliadol ar yr awdurdod lleol. Yn wir, dywedodd cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol bod menter y *ddarpariaeth a rennir* wedi tynnu eu sylw at fannau dall posibl yn eu gweithdrefnau derbyn: arweiniodd y broses o roi'r *ddarpariaeth a rennir* ar waith a threfnu cyfathrebu rhwng lleoliadau at sylweddoliad gan yr awdurdod lleol nad oedd digon o gyfathrebu neu safoni rhwng gweithdrefnau derbyn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir yn gyffredinol.

3.32 Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr yr awdurdod lleol yn falch iawn o effaith menter y *ddarpariaeth a rennir.*

3.33 Yn yr un modd, roedd staff y feithrinfa a rheolwyr yn gyffredinol gadarnhaol ynghylch menter y *ddarpariaeth a rennir.* Nododd y rhan fwyaf ei fod wedi cael ychydig o effaith andwyol neu ddim effaith andwyol ar y lleoliad neu ei staff (yn sicr nad oedd unrhyw gost *ariannol* i'r lleoliadau). Fodd bynnag, dywedodd un rheolwr lleoliad fod *darpariaeth a rennir* wedi creu mwy o waith i staff o ran *cynllunio ac amser*, gan fod rhaid iddynt bellach sicrhau nad oedd plant *darpariaeth a rennir* yn colli allan ar agweddau cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen (e.e. tasgau ffocws[19]) neu nad yw eu profiadau yn cael eu hefelychu rhwng lleoliadau. Nododd rheolwr arall fod *darpariaeth a rennir* yn golygu y byddai ysgolion cynradd yn cael dwy set o adroddiadau (fyddai o bosibl yn wrthdrawiadol) am blentyn y *ddarpariaeth a rennir*, gan awgrymu y gallai hyn greu gwaith ychwanegol i ymarferwyr mewn ysgolion cynradd.

3.34 Yn yr un modd, bu i reolwr arall (er mai mewn lleoliad cymharu defnydd) godi'r mater o niferoedd ansefydlog o blant a'r broblem roedd hyn yn ei godi o ran cymarebau staffio. Dadleuodd yr ymarferydd hwn fod gan *ddarpariaeth a rennir* yn arbennig (efallai os oes mwy o blant yn ei ddefnyddio) y *potensial* i amharu ar y gymhareb 1:8 oedolion:disgyblion a argymhellir ar gyfer Meithrinfeydd. Mae hyn yn codi pwynt pwysig y dylai trothwyon staffio fod wrth graidd unrhyw ystyriaeth o hyblygrwydd:

> "Os, oherwydd darpariaeth hyblyg, byddwch un plentyn dros y trothwy, ydych chi'n mynd i roi aelod arall o staff ymlaen os oes gennych 9 o blant? Ni allaf ddweud wrth aelod o staff 'Rydw i eich angen am ddau ddiwrnod, ond nid ydw i eich

[19] Er bod llawer o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn digwydd drwy chwarae a gweithgareddau ymarferol, mae rhywfaint o weithgarwch â ffocws, sy'n cael ei ddechrau gan ymarferwyr i atgyfnerthu eu dysgu mewn cyd-destun mwy ffurfiol. Gelwir y rhain yn 'dasgau â ffocws' gan ymarferwyr.

> angen ar gyfer y tri diwrnod arall' … ar gyfer parhad o ran staff byddai'n anodd iawn". (Rheolwr Lleoliad nas cynhelir heb Ddefnydd)

3.35 Dylid *ystyried* y materion hyn yn sicr wrth adlewyrchu ar effaith *darpariaeth a rennir*, er ei bod yn bwysig nodi yn gyffredinol nad oedd unrhyw broblemau o ran capasiti neu gymarebau staffio mewn lleoliadau oedd yn cymryd rhan yng Nghasnewydd, yn ôl pob tebyg oherwydd y niferoedd isel a oedd yn cymryd rhan yn y fenter.

*Adborth gan rieni*

3.36 Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r rhieni a holwyd yng Nghasnewydd yn falch gyda'r ffordd yr oedd y *ddarpariaeth a rennir* wedi cael ei rhoi ar waith, ac roeddent yn dweud fod hyblygrwydd cynyddol wedi helpu eu trefn ddyddiol:

> "Nid oeddwn yn gallu gweithio o gwmpas cael dwy awr … boreau neu brynhawniau... mae wedi'i gwneud yn haws, mae'n golygu ar fy nyddiau i ffwrdd ei bod hi’n gallu mynychu’r cylch chwarae lleol a dod i adnabod y plant y bydd hi yn yr ysgol gyda nhw, ac ar y dyddiau pan rwyf yn y gwaith, mae’n gallu mynychu’r sefydliad wyth [yb] i chwech [yp] a manteisio ar ei hawl y ffordd honno" (Rhiant yng Nghasnewydd)

3.37 Serch hynny, er bod y rhieni yn ddiolchgar am yr hyblygrwydd hwn yn y system, mae nifer yn teimlo eu bod angen 'mwy o help'. Yn gyffredinol, dangosodd y rhieni y siaradwyd â nhw ac a arolygwyd yng Nghasnewydd drefn ddyddiol fwy cymhleth o ran gofal plant na rhieni mewn rhanbarthau eraill. Gall hyn fod oherwydd (a) nifer yr achosion o barau sy’n gweithio yn y rhanbarth, (b) mwy o weithwyr proffesiynol daearyddol symudol (nad oedd ganddynt rwydweithiau gofal teuluol anffurfiol oedd mor gyffredin mewn rhanbarthau eraill);

a/neu (c) nifer yr achosion o rieni yn cymudo i weithio y tu allan i Gasnewydd.

3.38 Mae'n werth dyfynnu’r dyfyniad canlynol o gyfweliad dros y ffôn yn helaeth er mwyn dangos y math o waith ac arferion gofal plant a arweiniodd at y galw am *ddarpariaeth a rennir* yng Nghasnewydd i'r rhiant yma:

> *Ymchwilydd:* "Felly, sut ydych chi'n ymdopi â’ch trefn ddyddiol, gan sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a chludo’r plant a phethau felly?”
>
> *Rhiant:* "Wel mae'n hunllef i fod yn onest! Rydym yn defnyddio clwb brecwast ar gyfer ein dau blentyn hynaf (sydd yn yr ysgol gynradd). Rwyf yn eu danfon i’r ysgol am 7:40 ar fy ffordd i'r gwaith, ac ar y diwrnodau hynny pan mae ein plentyn ieuengaf yn y feithrinfa mae fy ngŵr yn mynd ag ef. Ar ddydd Llun mae fy mhlentyn ieuengaf yn mynd i [Feithrinfa X] [cylch chwarae lleol nad yw wedi’i gofrestru sydd ar agor yn gynnar tan 3.30] ac yn defnyddio eu clwb brecwast, yna maent yn cerdded i ddarpariaeth [Meithrinfa Y] [meithrinfa nas cynhelir leol gofrestredig heb ddarpariaeth gofal cofleidiol] dros y ffordd, yna mae fy rhieni’n ei gasglu am 3.30 yn y prynhawn. Dydd Mawrth a dydd Mercher mae’n mynd i [Meithrinfa Z] [meithrinfa gofal dydd preifat tua 2 filltir o’r pentref] o 8-6. Rydw i i ffwrdd o’r gwaith ar ddydd Iau a dydd Gwener, felly rwyf i’n mynd ag ef i [Feithrinfa Y] am y boreau”
>
> *Ymchwilydd:* "Felly pam rydych chi’n defnyddio'r holl feithrinfeydd hyn?"
>
> *Rhiant:* "Yr oeddwn am iddo fynd i [Feithrinfa Y] oherwydd mae'n lleol, mae’n bwydo'n uniongyrchol i’r ysgol [mae’r lleoliad ar dir yr ysgol gynradd leol] ac mewn gwirionedd yr oeddwn am iddo fynd yno oherwydd byddai'n gwneud ffrindiau

gyda phlant y byddai ef yn mynd i'r ysgol gyda nhw ym mis Medi. Mae gennyf ddau ddiwrnod i ffwrdd yr wythnos felly gwyddwn y gallwn fynd ag ef ar y ddau ddiwrnod hynny. Gallai fy rhieni ein helpu un prynhawn ond dim mwy na hynny, a dyna pryd roedd yn rhaid i mi ganfod gofal plant yn y feithrinfa leol..."

*Ymchwilydd:* "Felly ni allai aros yn [Meithrinfa Y] am yr wythnos gyfan?

*Rhiant:* "Na, oni bai fy mod yn cyflogi gwarchodwr plant, a dydw i ddim am wneud hynny. Felly rwyf yn defnyddio'r feithrinfa gofal dydd preifat oherwydd mae'n eithaf agos at fy nghartref ac mae'n agos iawn at gartref fy rhieni, felly os bydd unrhyw argyfwng byth byddai fy rhieni yn gallu helpu... "

*Ymchwilydd:* "Felly mae'n mynd i'r feithrinfa ddydd breifat ar y dyddiau pan na allwch chi ei ddanfon a phan na all eich rhieni ei gasglu chwaith, ac nid yw'n mynd i [Meithrinfa X] [meithrinfa leol, nad yw wedi'i chofrestru] oherwydd ei bod yn gorffen yn rhy gynnar?"

*Rhiant:* "Ie. [Meithrinfa Z] sy'n rhedeg tan 6 pm yw'r unig un y gallaf ei defnyddio. Hefyd, mae angen i chi ddod o hyd i ddarparwr sy'n cynnig darpariaeth gwyliau, rhaid i chi gynnwys hynny "

3.39 Mae diffyg rhwydweithiau teuluol lleol neu gefnogol neu ddarpariaeth cofleidiol lleol yn amlwg yn golygu bod rhaid cael yr arferion cymhleth hyn (ac yn y pen draw yr angen am ddarpariaeth a rennir). Nododd rhai rhieni y byddent wedi creu eu trefn yn y modd hwn (h.y., rhannu eu darpariaeth rhwng nifer o ddarparwyr) *beth bynnag* o anghenraid, gan mai'r *system a rennir* hon yw'r unig ffordd y gallant ymdopi wrth

gwrs, ond bod cynllun y *ddarpariaeth a rennir* bellach yn eu helpu gyda rhywfaint o’r costau.

**Blwch 2. Pwyntiau Allweddol o Ddarpariaeth a Rennir Casnewydd**

- Dyluniwyd ar gyfer rhieni sy’n gweithio nad ydynt yn gallu cael gofal cofleidiol mewn meithrinfeydd lleol.
- Sensitif i symudedd daearyddol llawer o rieni sy'n gweithio.
- Galluogi rhieni i fanteisio ar eu hawl am ddim ar draws nifer o leoliadau (h.y. hwb ariannol i rieni nad oedd ar gael yn y gorffennol).
- Mae'r gallu i fanteisio ar hawl ar draws nifer o leoliadau yn caniatáu i blant ddefnyddio meithrinfa 'lleol' neu 'gartref' ac felly elwa o gyfarfod 'ffrindiau ysgol yn y dyfodol'.
- Galluogi rhieni i fanteisio at y *presenoldeb gofynnol* sydd ei angen i gael deg awr am ddim (h.y. yn ôl pob golwg mae’n cynyddu’r defnydd o fwy o *sesiynau,* yn hytrach na defnydd o’r feithrinfa fel y cyfryw).
- Dim cost ariannol i'r lleoliadau.
- Angen bod yn sensitif i effaith negyddol *bosibl* ar blentyn sy’n mynd i sawl lleoliad.
- Mae darpariaeth a rennir yn golygu dwbl yr adborth i ysgolion cynradd, gan olygu prawf cydymffurfio i drefniadau asesu.
- Mwy o gynllunio ar gyfer staff er mwyn sicrhau nad oes dyblygu neu fylchau yn y cwricwlwm.
- Angen am ddulliau mwy ffurfiol o gyfathrebu rhwng y lleoliadau perthnasol er mwyn osgoi dyblygu’r cwricwlwm a dryswch ynghylch presenoldeb - dylai’r ALl fod yn ganolog i hyn.
- Canfyddiad y dylid rhoi darpariaeth a rennir ar waith yng Nghaerdydd i weld mwy o effaith a mwy o ddefnydd o’r cynllun.
- Angen bod yn ymwybodol o faterion cymhareb staffio posibl gyda mewnlifiad o blant newydd.
- Adborth cadarnhaol gan rieni er bod canfyddiad gan rai rhieni oedd yn gweithio bod angen mwy o hyblygrwydd yn y system.

**Darpariaeth Oriau Anghymdeithasol**

*Galw*

3.40 Y math nesaf o hyblygrwydd a gynigwyd i rieni yng Nghasnewydd oedd *darpariaeth 'oriau anghymdeithasol'*, lle gallai rhieni fanteisio ar feithrinfeydd ar adegau cynharach a hwyrach yn ystod y diwrnod (h.y. ar oriau 'anghymdeithasol' neu 'annodweddiadol'). Cynlluniwyd y fenter hon i ddarparu ar gyfer patrymau shifftiau gweithwyr allweddol penodol (e.e. nyrsys, swyddogion yr heddlu), sydd yn gweithio patrymau shifftiau anghymdeithasol sydd yn creu problem benodol o ran gofal plant cofleidiol (gan nad yw lleoliadau yn gyffredinol yn agor ddigon cynnar i rieni ddanfon eu plant ar eu ffordd i'r gwaith).

3.41 Roedd sensitifrwydd a phwysigrwydd y math hwn o alw yng Nghasnewydd yn cael ei ategu gan amlygrwydd Ysbyty Brenhinol Gwent fel cyflogwr lleol.

3.42 Oherwydd diffyg mynediad at ofal cofleidiol cynnar, tybiwyd efallai fod plant gweithwyr shifftiau yn llai tebygol o fanteisio ar addysg cyn-ysgol, ac yn hytrach na hynny yn fwy tebygol o ddibynnu ar warchodwyr plant preifat neu fathau anffurfiol eraill o ofal, h.y., cadw eu plentyn 'allan o'r system'. Felly, roedd gan y *ddarpariaeth oriau anghymdeithasol* y potensial i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar yr hawl i 10 awr drwy gael dod â’r plant hyn i’r system'.

*Darpariaeth*

3.43 Roedd meithrinfeydd oedd yn cymryd rhan yn y fenter hon yn agor yn gynharach (mor gynnar â 6 am) i fodloni gofynion gweithwyr sifft.

Fodd bynnag, nid oedd plant yn dechrau manteisio ar y Cyfnod Sylfaen mewn gwirionedd tan yr amser rheolaidd, 9 yb.

3.44 Fel gyda *darpariaeth a rennir*, hysbyswyd y rhieni am y ddarpariaeth hyblyg hon drwy gylchlythyrau a sgyrsiau anffurfiol gyda rhieni a deimlai'r lleoliadau fyddai'n elwa o'r cynllun.

3.45 Yn lleoliadau'r astudiaeth achos, trefnwyd y *ddarpariaeth oriau anghymdeithasol* yn wythnosol (yn ymateb i anghenion y rhieni unigol, h.y., eu patrymau shifft amrywiol) yn hytrach nag unwaith y tymor.

3.46 Unwaith eto, roedd niferoedd cymharol isel yn manteisio ar y ddarpariaeth hon ar draws yr awdurdod lleol, ac yn aml iawn, rhieni plant llawer iau oedd yn defnyddio'r ddarpariaeth, a oedd yn rhy ifanc ar gyfer y Cyfnod Sylfaen[20]. Gall nifer cymharol isel o weithwyr shifftiau yn y farchnad lafur (er eu bod wrth gwrs yn nodwedd barhaol) esbonio'r niferoedd isel yn rhannol.

*Ansawdd*

3.47 Nid oedd yr awdurdod lleol yn disgwyl unrhyw densiwn rhwng y dull hwn o hyblygrwydd a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Unwaith eto, fodd bynnag, mae'n werth nodi pan ddisgrifiwyd y cysyniad o *ddarpariaeth oriau anghymdeithasol* i leoliadau na fanteisir arnynt mewn rhanbarthau eraill, mynegodd rhai ymarferwyr bryderon y byddai'n rhy flinedig i blentyn fynd i leoliadau yn *rhy gynnar* yn y bore. Dywedodd un pennaeth y byddai agor yn gynnar (ac yn wir darpariaeth cofleidiol yn fwy cyffredinol) yn niweidiol i'r plentyn gan y byddent wedi blino gormod i ddysgu unrhyw beth:

[20]Wrth gwrs mae hyn yn codi cwestiwn o ran p'un a yw'r math hwn o ddarpariaeth hyblyg mewn gwirionedd yn bodloni meini prawf y cynllun Peilot Hyblygrwydd cyffredinol.

> "dyna'r tensiwn yn y model. Mae'r fantais o ddarpariaeth hyblyg i'r rhiant … gwych, ond nid yw bob amser er budd y plentyn". (Pennaeth mewn ysgol a gynhelir na fanteisir arni y tu allan i Gasnewydd).

3.48 Yng Nghasnewydd, fodd bynnag, dywedodd ymarferwyr bod y plentyn yn elwa ar yr oriau cynnar gan eu bod yn gyffredinol yn gallu gadael yn gynharach – fel arfer nid oedd plant yn aros o 6am tan 6pm.

3.49 Gan fod y defnydd o'r *ddarpariaeth oriau anghymdeithasol* yn gyffredinol gan blant a oedd yn rhy ifanc i'r Cyfnod Sylfaen, ni allai'r ymchwilwyr arsylwi unrhyw effaith ar weithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, roedd yr ymarferwyr a gyfwelwyd yn hyderus na chafodd y *ddarpariaeth oriau anghymdeithasol* effaith andwyol ar addysg plant. Dylid hefyd nodi yma bod llawer o blant mewn lleoliadau nas cynhelir wedi arfer dechrau yn gynharach na phlant mewn lleoliadau a gynhelir beth bynnag oherwydd eu bod yn cynnig gofal cofleidiol.

*Effaith*

3.50 Allan o bob math o hyblygrwydd a gynigir yng Nghasnewydd, roedd yr awdurdod lleol yn teimlo mai'r *ddarpariaeth oriau anghymdeithasol* oedd fwyaf tebygol i gynorthwyo'r cyfle i fanteisio, gan yr ystyriwyd fod plant yn cael eu gadael gyda gwarchodwyr plant neu berthnasau (h.y. y tu allan i'r system) cyn cyflwyno'r ddarpariaeth hon.

3.51 Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd p'un a yw wedi helpu'r nifer o leoedd sy'n cael eu defnyddio fel y cyfryw, gan fod plant yn tueddu i fynd i leoliadau nas cynhelir pan fyddant yn iau beth bynnag.

3.52 O ran yr effaith ar leoliadau, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gyfwelwyd mewn lleoliadau oedd yn cymryd rhan bod y trefniant newydd yn hylaw – roedd llawer o leoliadau yn cynnig oriau agor

cynnar cyn y cynllun Peilot a dweud fel arfer ‘nad yw awr ychwanegol yn gwneud gwahaniaeth’. Fodd bynnag, *roedd* y staff yn sensitif i'r ffaith y gallai’r math hwn o hyblygrwydd gael effaith ar y lleoliad pe byddai’r defnydd yn cynyddu, gan y byddai'r lefelau staffio yn cynyddu yn unol â hynny, yn enwedig ar yr adegau mwy 'anghymdeithasol' hyn.

3.53 Dywedodd un lleoliad ei bod yn amlwg fod oriau 'anghymdeithasol' yn anodd i staff (ac felly mae heriau ariannol ynghlwm), gan honni fod rhaid i staff sy'n dod mewn yn gynnar adael yn gynnar ac felly y "gallai fod yn anodd rheoli rotâu... a dyna pam nad ydy’r rhan fwyaf o Feithrinfeydd yn ei gynnig".

3.54 Yn yr un modd, mewn un lleoliad cymhariaeth nad oedd yn cymryd rhan, dywedodd rheolwyr na fyddent yn agor yn gynnar ar gyfer nifer gyfyngedig o blant heb gymhelliant ariannol, gan y byddai'n costio gormod i’w staffio. Mae hyn yn berthnasol wrth ystyried rhoi’r math hwn o hyblygrwydd ar waith ar raddfa ehangach.

*Adborth gan rieni*

3.55 Dywedodd rhieni oedd yn cymryd rhan yn y *ddarpariaeth oriau anghymdeithasol* eu bod yn fodlon gyda’r cynllun. Nid yw'n syndod nad oedd gan y rhieni hyn rwydweithiau gofal teuluol anffurfiol yr oedd rhieni eraill yn aml yn dibynnu arnynt. Roedd rhieni yn mynegi bodlonrwydd gyda’r *ddarpariaeth oriau anghymdeithasol*, gan ddweud ei fod wedi caniatáu iddynt aros mewn gwaith, ac mewn un achos, roedd wedi caniatáu i’r tad gael swydd newydd oedd yn talu'n well.

3.56 Serch hynny, unwaith eto mynegodd y rhieni eu rhwystredigaeth ynghylch bod mor ddibynnol ar feithrinfeydd preifat ar gyfer eu gofal plant, a nodi faint o incwm eu haelwyd oedd yn mynd ar ofal plant.

Dywedodd un rhiant y dylai’r sector a gynhelir fod yn fwy hyblyg a darparu gofal cofleidiol ar y safle i blant.

3.57 Dywedodd rhieni hefyd nad oedd agor yn gynnar na’r oriau hir wedi effeithio'n andwyol ar eu plant. Yn wir roeddent yn honni fod eu plant wedi elwa o'r cyswllt a’r sylw ychwanegol.

> "Mae wrth ei fodd bod yr unig blentyn yn y feithrinfa ... mae'n haws mewn gwirionedd i’w ddanfon nag ydyw ar y dyddiau lle nad yw’n gynnar" (Rhiant yng Nghasnewydd sy’n defnyddio’r ddarpariaeth oriau anghymdeithasol)

**Blwch 3. Pwyntiau Allweddol Darpariaeth Oriau Anghymdeithasol Casnewydd**

- Cynlluniwyd i helpu gweithwyr shifftiau a rhieni eraill sy’n gweithio oriau anghymdeithasol.
- Mae meithrinfeydd yn agor mor gynnar â 6yb.
- Tybiaeth mai’r math hwn o hyblygrwydd sydd fwyaf tebygol o helpu defnydd drwy gael plant 'yn y system' sydd efallai wedi cael eu dal yn ôl o’r system fel arall.
- Mae’r ddarpariaeth oriau anghymdeithasol yn aml yn cael ei defnyddio gan blant iau nag oedran y cyfnod sylfaen.
- Roedd lleoliadau’n gallu ymdopi â’r ddarpariaeth, er y gallai mwy o ddefnydd arwain at broblemau staffio a chostau cysylltiedig.
- Teimlir nad oedd y fenter yn cael unrhyw effaith ar addysg plant (h.y. nid oeddent yn fwy blinedig), er ei bod yn bwysig bod yn sensitif i’r sgil-effaith hwn.

**Darpariaeth 50 Wythnos**

*Galw*

3.58 Y math terfynol o hyblygrwydd a gynigir gan Gasnewydd yw menter o'r enw *darpariaeth 50 wythnos.* Mae hyn yn ysgafnhau’r cyfyngiadau

ar yr amseroedd y gall rhieni fanteisio ar eu hawl am sesiynau/oriau am ddim.

3.59 Mae'r sector nas cynhelir yng Nghasnewydd fel arfer yn cynnig cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen dros gyfnod o 39 wythnos (h.y., rhieni a phlant yn manteisio ar 5 sesiwn hanner diwrnod dros gyfnod o 39 wythnos). Ni fyddent yn rhoi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith yn *ffurfiol* yn ystod gwyliau'r ysgol. Felly o dan y ddarpariaeth 39 wythnos, nid yw plant rhan-amser yn unig sy'n mynychu'r Feithrinfa 3 diwrnod yr wythnos, er enghraifft, yn gallu manteisio ar y Cyfnod Sylfaen yn ystod gwyliau'r ysgol, ac felly yn y pen draw byddent yn manteisio ar *lai o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen na'u cyfoedion* (byddai rhieni sy'n gweithio rhan amser, am ddau neu dri diwrnod yr wythnos er enghraifft, fel arfer yn cadw eu plant gartref ar y dyddiau pan nad ydynt yn gweithio).

3.60 At hynny, ni all rhieni hawlio ad-daliad am eu deg awr 'am ddim' yn ystod darpariaeth tymor y gwyliau. Mae hyn yn golygu yn ymarferol bod rhieni yn *colli allan ar eu hawl* am y diwrnodau pan nad yw'n eu plentyn rhan-amser yn manteisio ar y Feithrinfa.

3.61 Dim ond i rieni sy'n gweithio y cynigwyd y *ddarpariaeth 50 wythnos.* Felly fe'i dyluniwyd i ymestyn neu ledaenu'r hawl i ddeg awr (5 sesiwn hanner diwrnod) yr wythnos dros gyfnod o 50 wythnos (h.y., i gynnwys y rhan fwyaf o'r gwyliau ysgol). Fe'i dyluniwyd hefyd i gynnig cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen drwy gydol gwyliau'r ysgol, yn hytrach na chyddwyso hawl lawn y plentyn i'r ddau neu dri diwrnod roedd yn eu treulio yn y Feithrinfa.

3.62 Mewn geiriau eraill, mae'r *ddarpariaeth 50 wythnos* yn gyntaf wedi'i ddylunio i helpu plant rhan-amser i wneud iawn am eu 'diffyg', drwy ganiatáu iddynt fanteisio ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn ystod y gwyliau ysgol, pan nad oedd hynny'n bosibl yn flaenorol.

3.63 Yn ail, bwriedir iddo helpu rhieni gyda chostau gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, gan eu galluogi i fanteisio ar eu sesiynau am ddim yn ystod y gwyliau, lle na allent wneud hynny o'r blaen. Yn enwedig felly, nid yn unig roedd hyn yn rhoi cyfle iddynt fanteisio ar fwy o hawl 'am ddim' ond hefyd yn lledaenu costau yn gyfartal dros y flwyddyn gyfan.

*Darpariaeth*

3.64 Roedd yr awdurdod lleol yn cynnig cymorth a chyngor agos i leoliadau oedd yn cymryd rhan o ran rheoli'r *ddarpariaeth 50 wythnos.* Cyflawnwyd hyn drwy uwch athro (a elwir yn 'athro cysylltiedig') a fyddai'n dod yn rheolaidd i leoliadau oedd yn cymryd rhan i gynghori rheolwyr ac ymarferwyr ar arfer gorau.

3.65 Fel gyda mathau eraill o hyblygrwydd, hysbyswyd y rhieni am y cynllun Peilot gan y lleoliad drwy'r dulliau cyfathrebu safonol.

3.66 Ymgynghorwyd â rhieni oedd yn gweithio yn ystod y cyfnod o ddylunio'r *ddarpariaeth 50 wythnos* a gofynnwyd iddynt p'un a fyddent yn hoffi cynyddu'r nifer o sesiynau yr oedd ganddynt hawl iddynt yn ystod yr wythnos (h.y. gallu hawlio sesiynau ychwanegol yn ystod yr wythnos, e.e. sesiynau prynhawn) neu p'un a fyddent yn hoffi i'w plentyn gadw statws rhan amser yn ystod yr wythnos ond manteisio ar eu hawl yn ystod gwyliau ysgol.

3.67 Dewisodd pob rhiant yr opsiwn gwyliau'r ysgol gan y byddai hyn yn golygu nad fyddai cynnydd sydyn mewn costau yn ystod y gwyliau. Yn ymarferol felly, parhaodd y plant i fanteisio ar yr un faint o sesiynau yn ystod y gwyliau ag yr oeddent yn ei wneud yn ystod y tymor (mae rhai yn rhan-amser, rhai yn amser llawn); yr unig wahaniaeth yn awr yw y gall rhieni gael ad-daliad am y sesiynau hyn ac felly yn cael mwy o fudd ariannol nag o'r blaen.

*Ansawdd*

3.68 Y *ddarpariaeth 50 wythnos* oedd yr unig fath o'r tri chynllun a dreialwyd yng Nghasnewydd i godi materion oedd yn ymwneud yn benodol a rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Roedd yr awdurdod lleol yn cydnabod y gallai'r math hwn o ddarpariaeth o bosibl arwain at broblemau cynllunio/rheoli (yn hytrach na chynnwys y cwricwlwm).

3.69 O ran rhoi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith, yr her i addysgwyr oedd sicrhau bod plant oedd yn defnyddio'r *ddarpariaeth 50 wythnos* (a rhan-amser yn ystod yr wythnos) yn manteisio ar yr un cwricwlwm â phlant 39 wythnos, h.y. sydd wedi mynychu'r Feithrinfa bob diwrnod o'r wythnos. Yn benodol, hoffent sicrhau nad oeddent yn colli allan ar dasgau a gweithgareddau yn ystod yr wythnos, ac os oeddent, sut mae'r ddarpariaeth gwyliau yn canolbwyntio ar dasgau y maent o bosibl wedi colli allan arnynt.

3.70 I leddfu'r problemau posibl hyn, ariannodd yr awdurdod lleol gynnydd yn yr amser a dreuliwyd yn y lleoliad sy'n cymryd rhan gan yr 'athro cysylltiedig', a oedd yn rhoi cyngor i'r lleoliadau ar sut i reoli'r materion posibl hyn.

3.71 Yn ymarferol, roedd plant 39 wythnos a 50 wythnos yn cael eu holrhain ar wahân i fonitro eu cynnydd a'r tasgau yr oedden nhw wedi'u cwblhau yn gywir. Roedd yr holl blant yn gwneud tasgau â ffocws gwahanol bob dydd, gyda'r holl blant (39 wythnos a 50 wythnos) yn gwneud tair tasg â ffocws (h.y. dysgu sgil newydd) bob wythnos. Roedd cyflawni'r tasgau â ffocws yn cael ei fonitro, ac os oedd plant yn colli tasg nodwyd 'i'w gyflawni' ar eu cyfer (e.e, yn ystod yr wythnos nesaf).

3.72 Roedd y plant yn cadw at y drefn hon drwy fanteisio ar y Cyfnod Sylfaen a'r tasgau hyn yn ystod y tymor gwyliau. Roedd unrhyw 'fylchau' yng nghyrhaeddiad plant 50 wythnos yn cael sylw yn ystod y tymor gwyliau.

*Effaith*

3.73 Dywedodd yr awdurdod lleol fod y *ddarpariaeth 50 wythnos* wedi cynyddu eu costau rhywfaint oherwydd bod angen iddynt bellach ariannu mwy o amser ar gyfer yr 'athro cysylltiedig', ond roeddent yn teimlo bod y gost hon yn fach iawn ac yn dderbyniol.

3.74 Roedd staff yn y lleoliadau oedd yn cymryd rhan yn gadarnhaol iawn am y *ddarpariaeth 50 wythnos.* Bu iddynt nodi fod lleoliadau nas cynhelir yn agored yn ystod gwyliau'r ysgol beth bynnag, felly nid oedd y math hwn o hyblygrwydd yn amharu ar redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae hyn yn awgrymu bod y math hwn yn haws i'w roi ar waith yn y sector nas cynhelir yn hytrach na'r sector a gynhelir.

3.75 Nodwyd nad oedd y *ddarpariaeth 50 wythnos* yn golygu unrhyw gostau ychwanegol nac effaith ar lefelau staffio, ond roeddent yn cyfaddef bod hyn oherwydd mai dim ond i rieni sy'n gweithio y cynigwyd y ddarpariaeth:

> "Pe byddem wedi ei gynnig i'n rhieni nad ydynt yn gweithio byddai mwy o blant yn ei ddefnyddio, yna rwyf yn siŵr y byddem wedi gorfod addasu staffio oherwydd mae gennym rai aelodau o staff sy'n gweithio yn ystod y tymor yn unig …"
> (Rheolwr Meithrinfa nas cynhelir yng Nghasnewydd)

3.76 Aeth rheolwr y Feithrinfa ymlaen i awgrymu y byddai contractau *tymor yn unig* ar gyfer rhai o'u staff wedi mynd yn anymarferol gyda dylifiad o fwy o blant.

3.77 Cynyddodd y nifer oedd yn defnyddio'r *ddarpariaeth 50 wythnos* yn aruthrol, o bum disgybl cychwynnol yn ystod y cam cyntaf i 16 disgybl (20% o'r cyfanswm cymwys). Dywedodd rheolwr y lleoliad nad oedd y cynnydd hwn yn y defnydd wedi effeithio'n negyddol ar staff fel yr ofnwyd ar y dechrau.

3.78 Dywedodd staff y Feithrinfa fod y math hwn o hyblygrwydd o fudd i blant oedd yn manteisio ar y ddarpariaeth ofynnol yn unig cyn hyn (h.y. tri diwrnod yr wythnos). Honnwyd bod darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn ystod gwyliau'r ysgol wedi sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ac wedi atal 'anghofio sgiliau'.

**Blwch 4. Pwyntiau Allweddol o Ddarpariaeth 50 Wythnos Casnewydd**

- Mae'r ddarpariaeth 50 wythnos yn golygu ystwytho sut a phryd y gall plant a rhieni fanteisio ar eu hawl am ddim.
- Wedi'i ddylunio er budd plant sy'n mynychu Meithrinfa yn rhan amser, oedd cyn hyn yn manteisio ar isafswm y ddarpariaeth (e.e. tri diwrnod yr wythnos). Gan nad oedd plant yn gallu manteisio ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn ystod y gwyliau yn flaenorol, roeddent yn cael llai o addysg na'u grŵp cyfoedion oherwydd hyn.
- Dyluniwyd i helpu rhieni'n ariannol, gan y gallant nawr hawlio eu hawl am sesiynau yn ystod y gwyliau, a chael mwy o fudd ariannol yn y pen draw.
- Mae angen bod yn ymwybodol o gynllunio a materion sy'n ymwneud â dyblygu'r cwricwlwm yn ystod darpariaeth tymor gwyliau.

# 4 Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyblygrwydd Castell-nedd Port Talbot

## Dyluniad a Galw Lleol

4.1 Ar hyn o bryd mae pob plentyn cymwys yng Nghastell-nedd Port Talbot mewn meithrinfeydd a gynhelir (a pob un ohonynt yn cael eu harwain gan athrawon). Cyn y cynllun Peilot Hyblygrwydd, gallai'r plant fanteisio ar eu deg awr am ddim (neu 5 sesiwn hanner diwrnod) yn y ffordd 'draddodiadol' o sesiynau bore *neu* brynhawn. Ni chaniateir sesiynau diwrnod llawn ac nid yw lleoliadau'n darparu cyfleusterau gofal cofleidiol.

4.2 Yn ei hanfod roedd cynllun Peilot Hyblygrwydd Castell-nedd Port Talbot yn caniatáu rhieni i fanteisio ar y Cyfnod Sylfaen ar draws dwy sesiwn y dydd, ac felly'n derbyn eu hawl ar draws *dau-ddiwrnod-a-hanner* (yn hytrach na'r pum diwrnod nodweddiadol). Cynigiwyd hyn mewn pedair ysgol a gynhelir oedd yn rhan o'r astudiaeth achos.

4.3 Dyluniwyd y cynllun Peilot Hyblygrwydd gan yr awdurdod lleol i helpu sbectrwm eang o rieni. Amcanion y cynllun Peilot oed gwneud bywyd yn haws i rieni sy'n gweithio; i helpu rhieni di-waith gael gwaith; ac i hwyluso mwy o ymgysylltiad gyda'r system addysgol gan rieni difreintiedig neu rieni a phlant sydd ar y cyrion.

4.4 Dywedodd cynrychiolwyr yr awdurdod lleol eu bod yn teimlo y gallai'r amser cyswllt ychwanegol yn y *ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* o bosibl helpu plant o deuluoedd difreintiedig gan mai dyma'r plant oedd angen parodrwydd ysgol yn fwyaf yn gyffredinol.

4.5 Gwelodd yr awdurdod lleol fod y cynllun Peilot fel un archwiliadol; roeddent nhw am weld 'beth sy'n gweithio' a dadansoddi pa fath o riant oedd wedi elwa fwyaf ohono. Roedd yr awdurdod lleol yn

gobeithio mai un o effeithiau'r cynllun Peilot fyddai gwella presenoldeb, sydd wedi bod yn ffocws hir sefydlog i'r awdurdod lleol. Felly, roedd y rhesymeg y tu ôl i gynllun Peilot Castell-nedd Port Talbot ychydig yn wahanol i gynllun Peilot Casnewydd, a oedd efallai yn fwy cul o ran ei gwmpas a'i nodau.

4.6 Cynlluniwyd y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot ar y cyd gydag ysgolion ac adborth/trafodaethau â rhieni. Ar ôl mynegi diddordeb mewn rhoi math o hyblygrwydd ar waith, anfonodd yr ysgolion oedd yn cymryd rhan wedyn lythyrau ac arolygon allan i rieni i gael adborth ynghylch pa fath o ddarpariaeth hyblyg a ddymunent (h.y. gwirio'r galw yn yr ardal leol). Ar ôl trafodaethau mewnol, cysylltodd yr ysgol wedyn gyda'r awdurdod lleol i ystyried p'un a oedd y mathau a gynigwyd o hyblygrwydd yn ddichonadwy a symud ymlaen o hynny. Felly, ni awgrymwyd unrhyw fathau 'rhagnodedig' gwahanol o hyblygrwydd 'parod' gan yr awdurdod lleol, (fel yng Nghasnewydd) ond yn hytrach na hynny, penderfynwyd ar hyblygrwydd ar sail *ad hoc* ym mhob ysgol (fel yn Sir Gaerfyrddin).

*Darpariaeth*

4.7 Ffurf derfynol yr hyblygrwydd a roddwyd ar waith yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd ystwytho sut y gellid defnyddio 10 awr o addysg meithrin yn ystod yr wythnos. Lle yn draddodiadol y gallai plant wneud sesiynau bore neu brynhawn yn unig (9yb-11.30yb neu 1yp-3yp), caniatawyd i blant mewn lleoliadau oedd yn cymryd rhan yn y cynllun Peilot wneud cyfuniad o foreau neu brynhawniau neu'r ddau (h.y. aros am y diwrnod llawn) hyd at uchafswm o bum sesiwn hanner diwrnod.

4.8 Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu bod llawer o rieni wedi dewis manteisio ar eu darpariaeth deg awr mewn 'bloc' o ddau ddiwrnod yn ogystal ag un hanner diwrnod arall (h.y. ar draws dau ddiwrnod a hanner). Felly mewn un dosbarth, byddai rhai plant yn cadw at y

drefn boreau yn unig 'traddodiadol', tra bod eraill yn manteisio ar un neu ddau ddiwrnod llawn.

4.9 Arweiniodd hyn at gofrestr 'clytwaith', gan fod plant gwahanol yn y dosbarth yn manteisio ar eu hawl mewn gwahanol ffyrdd.

4.10 Fel yng Nghasnewydd, hysbyswyd y rhieni am fenter y ddarpariaeth hyblyg gan yr ysgolion eu hunain yn hytrach na gan yr awdurdod lleol, drwy gylchlythyrau, sgyrsiau anffurfiol a chyfryngau cymdeithasol.

4.11 Yn arwyddocaol, mewn un ysgol 'flaenllaw', lle'r oedd brwdfrydedd am y cynllun Peilot ar ei uchaf, arweiniodd y galw am *ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* ar un adeg at oralw gan fod gormod o rieni eisiau i'w plant gael darpariaeth diwrnod llawn ar yr un diwrnod. Datryswyd hyn yn yr achos hwn trwy ofyn i rieni nad oeddent yn gweithio i ganiatáu rhieni oedd yn gweithio gymryd y lleoedd. Mae hyn yn codi'r angen i fod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â chapasiti a lefelau staffio.

*Ansawdd*

4.12 Wrth ddylunio'r cynllun Peilot, roedd yr awdurdod lleol yn bryderus iawn na ddylai'r ddarpariaeth newydd hon (h.y. dydd llawn) arwain at ostyngiad yn ansawdd y Cyfnod Sylfaen. Gan fod pob meithrinfa yng Nghastell-nedd Port Talbot dan arweiniad athro, penderfynwyd na ddylai *darpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* olygu y byddai plant sy'n aros am y diwrnod llawn gael eu dysgu gan ymarferydd ychwanegol. Yn wir, pan gyfwelwyd cynrychiolwyr yr awdurdod lleol, roeddent yn hynod sensitif i'r posibiliadau o densiynau rhwng mwy o hyblygrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid oedd sôn am ba gymorth ychwanegol neu arweiniad a ddarparwyd i ysgolion i helpu i roi mynediad hyblyg ar waith ochr yn ochr â darparu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

4.13 Roedd nifer o faterion posibl yn ymwneud â rhoi’r Cyfnod Sylfaen ar waith. Er enghraifft, mewn un lleoliad roedd yr hyblygrwydd yn cael ei reoli gan integreiddio plant Meithrin hŷn i’r dosbarth Derbyn. Yn hollbwysig, yn ymarferol, roedd y math hwn o hyblygrwydd yn golygu y byddai plant yn yr un dosbarth yn mynychu sesiynau gwahanol dros gyfnod o wythnos. Felly roedd y cyfrifoldeb ar staff addysgu i sicrhau bod pob plentyn yn manteisio ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn yr un modd er gwaethaf eu gwahanol batrymau defnydd unigol.

4.14 Yn yr ysgol a nododd dim sgil-effeithiau negyddol o’r cynllun Peilot ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, roedd ymarferydd ychwanegol wedi'i neilltuo i olrhain cyrhaeddiad plant y cynllun Peilot Hyblyg er mwyn lliniaru’r peryglon posibl hyn.

4.15 Honnodd un athro fod y ddarpariaeth *dau-ddiwrnod-a-hanner* yn golygu dysgu elfennau penodol o'r Cyfnod Sylfaen ‘funud olaf’ i blant y cynllun Peilot hyblyg, a thrwy hynny o bosibl, colli ffocws sy'n canolbwyntio mwy ar y chwarae ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

4.16 Yn yr ysgolion a arsylwyd, roedd safon rhoi’r Cyfnod Sylfaen ar waith yn uchel ar y cyfan, fel yr oedd safon yr addysgu. Yn eironig, yn yr ysgolion â’r nifer mwyaf o blant yn manteisio ar y cynllun Peilot Hyblygrwydd (ac felly gyda mwyaf o broblemau posibl) y gwelwyd fod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith yn dda. Fodd bynnag, rhaid nodi bod yr ysgolion a'r athrawon yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn 'eithriadol' gan y tîm ymchwil.

4.17 Roedd yr awdurdod lleol eu hunain yn cydnabod y berthynas ardderchog oedd gan yr ysgolion hyn gyda’u rhieni a'r gymuned a nododd fod eu llwyddiant wrth reoli'r angen cynyddol am hyblygrwydd yn seiliedig ar greadigrwydd a sgiliau'r ysgolion oedd yn cymryd rhan.

*Effaith*

4.18 Roedd cynrychiolydd yr awdurdod lleol yn honni ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith y cynllun Peilot Hyblygrwydd ar gyrhaeddiad plant, er eu bod yn honni bod y cynllun Peilot wedi helpu i gynyddu presenoldeb yn yr awdurdod lleol. Roeddent hefyd yn mynegi boddhad bod y cynllun Peilot wedi helpu sefydliad mewnol yr awdurdod lleol yn anfwriadol, gan ei fod wedi golygu cyfathrebu mwy a gwell gyda'u hadran derbyn.

4.19 Roedd barn am y cynllun Peilot a'i effeithiau fodd bynnag yn fwy cymysg ymysg staff ac uwch arweinwyr ar draws ysgolion y pedair astudiaeth achos. Roedd y ddwy ysgol gyda niferoedd mawr yn manteisio ar y cynllun Peilot yn gyffredinol frwdfrydig am y cynllun Peilot (un yn anhygoel felly), tra o ystyried lleoliadau'r niferoedd isel, roedd un yn gadarnhaol ond gydag amheuon sylweddol, ac roedd y llall yn anfodlon ar y cynllun Peilot. Roedd barn yn ymwneud â'r rhan fwyaf o fater wedi'u rhannu: staffio, cynllunio a rheoli, addysgeg ac effaith gyffredinol ar blant.

4.20 Roedd staff mewn un ysgol yn honni nad oedd patrwm y ddarpariaeth newydd wedi creu unrhyw waith ychwanegol na phwysau ar y staff. Fel y nodwyd uchod, roedd yr ysgol hon wedi llunio strategaeth i ymdopi ar gyfer rheoli goblygiadau'r math hwn o hyblygrwydd (h.y. presenoldeb anwastad plant). Mewn lleoliadau eraill, fodd bynnag, roedd staff yn honni bod y gofrestr clytwaith a gwahanol batrymau presenoldeb yn golygu llawer iawn o gynllunio ychwanegol a phwysau i sicrhau nad oedd plant yn colli allan ar dasgau neu fod profiadau'n cael eu hailadrodd.

4.21 Yn gysylltiedig â hyn, honnodd rhai aelodau o staff bod diffyg parodrwydd ysgol (e.e. nad ydynt yn gallu defnyddio'r toiled) rhai o'r

plant iau (3 mlwydd oed) a’r broses o’u hintegreiddio i mewn i grŵp hŷn yn ychwanegu at y pwysau ar staff.

4.22 Mewn dau o'r lleoliadau, honnodd rheolwyr a staff addysgu fod y *ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* newydd wedi 'dod â phlant allan o’u cregyn' a bod y cyswllt ychwanegol yn gwella eu parodrwydd ysgol a’u cyrhaeddiad addysgol cyffredinol.

4.23 Ar y llaw arall, mae staff mewn lleoliadau eraill yn honni nad oedd plant ifanc yn gallu cyflawni diwrnod llawn yn yr ysgol, fod y diwrnod yn rhy flinedig i blant, a bod gan hyn y potensial i amharu ar eu dysgu (h.y. bod y plant yn rhy flinedig i ddysgu/ddeall unrhyw beth yn y prynhawn).

4.24 Cododd athrawon y mater hefyd bod y *ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* mewn gwirionedd yn golygu fod plant allan o'r ysgol am ddau-ddiwrnod-a-hanner. Roeddent yn honni bod hyn yn llesteirio cynnydd addysgol a chymdeithasoli gan fod yr amser a dreuliwyd allan o'r ysgol yn rhy hir.

4.25 Hefyd, roedd risg ganfyddedig y byddai effaith absenoldeb disgyblion (e.e. drwy salwch) ar ddisgyblion sy'n mynychu’r ysgol dros lai o ddiwrnodau yn cael mwy o effaith niweidiol nag os oedd plentyn yn colli hanner diwrnod yn uni[21].

4.26 Dadleuodd un athro bod y 'boreau yn unig' traddodiadol yn drefn well ar gyfer plant a bod yn well i'r staff addysgu weld y plant bob dydd (e.e. i olrhain eu cynnydd).

4.27 Dywedodd staff eraill nad oedd addysg orfodol llawn amser (yn ddiweddarach) yn hyblyg, ac y byddai’n well i blant a rhieni ddod i

[21]Er bod rhaid ystyried hyn yn erbyn y tebygolrwydd is o golli ysgol oherwydd salwch os yw plentyn yn mynychu am ddau-ddiwrnod-a-hanner yn unig.

arfer â’r ddarpariaeth/drefn pum diwrnod y byddent yn ei brofi cyn bo hir pan fyddant yn dechrau yn y dosbarthiadau Derbyn.

4.28 Cododd staff y posibilrwydd o gyrhaeddiad anwastad yn yr un garfan o blant oherwydd yr arferion amrywiol hyn.

**Adborth gan Rieni**

4.29 Roedd rhieni a gyfwelwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd, ac yn wir am addysg eu plant yn fwy cyffredinol. Adroddwyd ei fod wedi cynorthwyo eu trefn ddyddiol eu hunain a helpu addysg eu plentyn.

> "Rwy'n teimlo ei bod wedi bod yn fuddiol iawn i fy amodau gwaith ac i addysg fy mhlentyn. Rwy'n meddwl ei fod yn syniad ardderchog i rieni sy'n gweithio ac rwy’n ddiolchgar i'r ysgol am ei gyflwyno." (Rhiant yng Nghastell-nedd Port Talbot)

> "Buddiol iawn - trefniant delfrydol ar gyfer rhieni sy'n gweithio." (Rhiant yng Nghastell-nedd Port Talbot)

4.30 Roedd cyffredinolrwydd y math hwn o ymateb yn gydnaws â’r berthynas agos rhwng yr ysgolion a’r rhieni a arsylwodd yr ymchwilwyr yn ystod ymweliadau maes. Roedd rhieni mewn un lleoliad oedd yn cymryd rhan lle’r oedd y cynllun Peilot yn dod i ben yn siomedig ar dranc y cynllun.

4.31 Y canfyddiad mwyaf arwyddocaol i ddod i’r amlwg o'r cyfweliadau rhieni yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd y canfyddiad fodd ‘parodrwydd ysgol’ eu plant wedi elwa’n fawr ar y ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner. Dywedodd rhieni bod eu plant wedi dod yn fwy annibynnol a hyderus ac wedi symud ymlaen yn eu datblygiad

cymdeithasol ac addysgol yn gyffredinol. Er bod 'parodrwydd ysgol' yn derm amwys efallai, roedd yn gyffredin iawn i glywed rhieni yn dweud fod eu plentyn wedi ‘datblygu’ ers cymryd rhan yn y cynllun Peilot hyblyg.

> "Credwn fod ein merch yn llawer mwy hyderus yn mynd i’r ysgol o’i gymharu â sut roeddem yn disgwyl iddi fod gyda diwrnodau llawn." (Rhiant yng Nghastell-nedd Port Talbot)

> "Mae hi'n deall mwy, maen nhw’n cwmpasu mwy, mae hi’n fwy sylwgar. Yn ystod sesiynau hanner diwrnod... nid yw'n cael amser i ymgolli yn y wers cyn iddo ddod i ben." (Rhiant yng Nghastell-nedd Port Talbot)

4.32 Roedd hefyd yn ddiddorol nodi fod rhai o ysgolion y cynllun Peilot wedi cynghori rhieni y byddai eu plant yn cael trafferth gyda darpariaeth diwrnod llawn, a bod rhieni’r parchu’r farn hon yn fawr.

4.33 Roedd y cynllun peilot yng Nghastell-nedd Port Talbot yn wrthgyferbyniad diddorol i'r cynllun Peilot yng Nghasnewydd. Yng Nghasnewydd roedd yr holl rieni a gyfwelwyd a oedd yn defnyddio'r cynllun yn gweithio’n llawn amser neu’n rhan-amser. Fodd bynnag, yng Nghastell-nedd Port Talbot roedd llawer o'r rhieni a gyfwelwyd naill ai’n gweithio’n rhan amser, neu ddim yn gweithio o gwbwl. Er bod yn rhaid i rieni yng Nghasnewydd sicrhau cydbwysedd rhwng patrymau cymhleth o ran gofal plant ffurfiol, drud, yng Nghastell-nedd Port Talbot roedd llawer o rieni yn dibynnu ar rwydweithiau lleol anffurfiol teuluol (neiniau a theidiau yn benodol), ac ychydig iawn oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol oherwydd nad oeddent ei angen am nad oeddent yn gweithio.

4.34 Er gwaethaf y ffaith bod arferion gofal plant ac arferion 'casglu a chludo' efallai yn fwy hylaw ar gyfer y rhieni nad ydynt yn gweithio (ac

yn wir ar gyfer rhieni sy'n gweithio gyda rhwydweithiau teuluol lleol) roedd y rhan fwyaf o'r rhieni yng Nghastell-nedd Port Talbot serch hynny wedi dewis defnyddio'r *ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* hyblyg yn hytrach nag aros gyda'r ddarpariaeth bore *neu* brynhawn traddodiadol.

4.35 Fel rhieni sy'n gweithio, dywedodd rhieni nad ydynt yn gweithio hefyd fod y ddarpariaeth bore *neu* brynhawn traddodiadol yn anghyfleus, yn enwedig ar gyfer rhieni â phlant o oedrannau gwahanol sydd angen cael eu casglu/cludo ar amseroedd gwahanol. Dywedwyd fod y fformat traddodiadol yn golygu fod llawer o'u diwrnod yn cael ei dreulio yn dod ac yn mynd i'r ysgol, tra bod y ddarpariaeth diwrnod llawn yn caniatáu iddynt gael mwy o amser i gwblhau tasgau fel siopa a glanhau, a hefyd i dreulio mwy o 'amser arbennig' gyda'u plant eraill.

> "Teimlad ei bod [y ffurf draddodiadol] yn eithaf anodd gyda babi... roeddwn yn arfer byw yn bell i ffwrdd o'r ysgol ac roedd yn anodd iawn gyda theithio yn ôl a blaen, ôl a blaen. Byddwn yn codi yn y bore ac yn eu cludo i'r ysgol, yna byddwn yn mynd i dy ffrind oedd yn byw gerllaw (ger yr ysgol) oherwydd nid oeddwn yn gallu mynd yr holl ffordd yn ôl adref oherwydd ei fod yn rhy bell, yna byddwn yn ei chasglu, mynd adref, gwneud rhywfaint o lanhau, codi'r babi oherwydd y byddai'n cysgu, yna gwneud fy ffordd yn ôl i'r ysgol gyda'r babi a'r mab hynaf i gasglu am 3.30. Roedd yn anodd! ... Mae'n rhy anodd cael hanner diwrnod, yn enwedig os yw mor bell i ffwrdd. " (Rhiant nad yw'n gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot)

> "Roedd yn haws i mi pan oedd mewn diwrnod llawn fel y gallwn wneud fy holl siopa heb orfod mynd ag ef a'r babi gyda mi." (Rhiant nad yw'n gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot)

> "[Gyda boreau yn unig] Erbyn yr amser y byddwn wedi ei ddanfon yn yr ysgol a chyrraedd adref, gwneud y brecwast a glanhau ar gyfer y bore, roedd yn amser i'w nôl eto... Gallaf wneud llawer mwy pan mae yno am ddau ddiwrnod llawn." (Rhiant nad yw'n gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot)

4.36 Fel y soniwyd uchod, pryder a fynegwyd gan rai ymarferwyr oedd bod y *ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* yn y pen draw yn golygu mwy o amser i ffwrdd o'r ysgol. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, roedd rhai rhieni yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystyried yr amser hwn i ffwrdd yn gadarnhaol, fel ffordd o dreulio mwy o 'amser arbennig' gyda'u plentyn tair i bedair blwydd oed.

> "Rwyf yn gallu cael amser un i un gyda'r ieuengaf nawr hefyd" (Rhiant nad yw'n gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot)

> "Nawr ar ddiwedd bob wythnos mae gennych ychydig o amser sbâr gyda'r ddau fach, felly gallwch wneud pethau gyda nhw" (Rhiant yng Nghastell-nedd Port Talbot)

4.37 Yng Nghastell-nedd Port Talbot, siaradodd y tîm ymchwil hefyd â rhieni a oedd hefyd yn ofalwyr ac yn rhieni i blant ag anghenion arbennig neu anghenion cymhleth. Dywedodd y rhieni hyn hefyd eu bod wedi cael trafferth gyda fformat traddodiadol boreau/prynhawniau yn unig, a dweud eu bod yntau wedi elwa o'r blociau diwrnod llawn.

> *Rhiant:* "Mae o'n ei chael hi'n llawer haws goddef diwrnod llawn yn hytrach na boreau, mae o ar y sbectrwm awtistiaeth....dywedodd yr ysgol eu bod yn teimlo y gallai elwa ohono. Doeddwn i ddim siŵr, roeddwn yn eithaf amheus ond mae wrth ei fodd... "

> *Ymchwilydd:* "Felly mae'r diwrnodau llawn wedi bod o fudd i chi?"

*Rhiant:* "Mae wedi bod yn dda iawn, mae'n rhoi dau ddiwrnod llawn lle y gallwn dreulio amser allan … weithiau pan oedd yn dod adref o'r feithrinfa roedd yn eithaf blinedig yn y prynhawniau, felly ni fyddwn yn gwneud unrhyw beth … mae wedi helpu fi oherwydd nid oes gennyf unrhyw deulu wrth gefn, a nawr pan mae'n mynd amser llawn rwy'n cael ychydig o seibiant oddi wrtho, oherwydd dydw i ddim yn cael unrhyw seibiant, nid oes teulu i fy helpu i, felly mae wedi bod yn fuddiol iawn i fy iechyd meddwl "

4.38 Siaradodd rhiant arall am yr anawsterau o ran cludo ei phlentyn anabl i'r ysgol bob bore, a bod y ddau ddiwrnod i ffwrdd yn gwneud ei fywyd yn haws.

4.39 Mae'n amlwg o hyn nad 'rhieni sy'n gweithio' yn unig sy'n elwa o'r cynlluniau Peilot Hyblygrwydd. Dylid ystyried y syniad fod y *ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* yn hwyluso 'seibiant' a gwell ansawdd bywyd ar gyfer rhieni nad ydynt yn gweithio.

4.40 Yr unig broblemau gyda'r *ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* a godwyd gan rieni oedd problemau am amserlennu: dywedodd nifer fach o rieni bod eu plentyn wedi colli allan ar ddigwyddiad arbennig a gynhaliwyd ar y diwrnodau nad oeddent yn yr ysgol ar rai achlysuron, er roedd y rhieni'n deall mai dim ond cymaint y gallai'r ysgol wneud i ddarparu ar gyfer patrymau shifft.

**Blwch 5. Pwyntiau Allweddol Darpariaeth Wythnos Dau-Ddiwrnod-A-Hanner Castell-nedd Port Talbot**

- Arweiniodd dull a arweiniwyd gan alw at fath o ddarpariaeth hyblyg oedd yn golygu y gallai plant fanteisio ar eu hawl i ddeg awr mewn 'blociau' diwrnodau llawn a dros dau-ddiwrnod-a-hanner yr wythnos yn unig.

- Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu amserlen clytwaith gyda gwahanol blant yn y dosbarth yn dod mewn ar ddiwrnodau/amseroedd gwahanol, gan fod rhai plant yn parhau i ddefnyddio’r fformat bore neu brynhawn traddodiadol a rhai yn defnyddio’r ddarpariaeth bloc o ddau-ddiwrnod-a-hanner.
- Safbwyntiau cymysg gan staff ynglŷn â goblygiadau’r hyblygrwydd newydd. Dywedodd rhai ei fod wedi creu mwy o waith, dywedodd eraill eu bod yn ymdopi yn dda iawn.
- Yn gyffredinol, roedd rhieni yn hynod gadarnhaol am hyblygrwydd a'r effaith yr oedd yn ei gael ar deuluoedd. Fel mewn meysydd eraill, mae oriau hyblyg yn helpu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith rhieni ac arbed arian ar ofal plant.
- Roedd rhieni yng Nghastell-nedd Port Talbot yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith gadarnhaol a gafodd y ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner ar barodrwydd ysgol eu plant, gan gyferbynnu â barn ymarferwyr eraill tu allan i leoliad yr astudiaeth achos) a oedd yn amau addasrwydd darpariaeth diwrnod llawn i blant cyn ysgol.

# 5 Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyblygrwydd Sir Gaerfyrddin

## Dyluniad a Galw Lleol

5.1 Mae darpariaeth cyn-ysgol yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd yn 'economi gymysg' lle mae rhai (tua 30) o ysgolion a gynhelir yn derbyn plant yn 3 mlwydd oed (h.y. mae ganddynt uned feithrin/ dosbarth meithrin cyn ysgol integredig), ond nid yw'r rhan fwyaf. Felly, cynigir darpariaeth cyn-ysgol amgen gan y sector nas cynhelir. Yn y pen draw, mae amrywiad sylweddol ac anwastad ar draws yr awdurdod lleol o ran darpariaeth blynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen.

5.2 Roedd yr awdurdod lleol yn cydnabod bod "cyfran dda o blant tair blwydd oed nad ydynt yn cael unrhyw beth" mewn rhai ardaloedd. Mae natur wledig rhai ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin hefyd yn gwaethygu'r sefyllfa hon, gyda rhai rhieni wedi'u hynysu mwy yn ddaearyddol oddi wrth ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen na rhieni mewn awdurdodau lleol eraill. Mynegodd rhieni yn y sefyllfa hon rwystredigaeth oherwydd y diffyg darpariaeth blynyddoedd cynnar lleol.

5.3 O ran trefn addysg cyn-ysgol mewn lleoliadau sy'n ei gynnig, dywedodd yr awdurdod lleol bod darpariaeth y sesiynau am ddim yn gymharol anhrefnus yn y gorffennol, gyda gwahanol ddarparwyr yn 'gwneud beth yr oeddent yn ei ddymuno', ac yn gyffredinol ddim yn diffinio paramedrau neu'n eu gorfodi yn yr hawl. Er enghraifft, ni osododd rhai lleoliadau swm gofynnol o sesiynau yr oedd yn rhaid i blentyn fynychu er mwyn manteisio ar eu hawl deg awr.

5.4 Ystyriaeth gyd-destunol bellach yn Sir Gaerfyrddin yw'r mater o ysgolion gwledig yn wynebu eu cau oherwydd bod niferoedd y disgyblion yn gostwng. Dywedwyd bod ysgolion gwledig heb gyfleuster cyn-ysgol yn 'colli disgyblion' i ysgolion cyfagos sy'n cynnig

darpariaeth Feithrin gan fod rhieni yn dueddol o aros gyda'r ysgolion hyn unwaith mae eu plant 'yn y system' ac wedi gwneud ffrindiau.

5.5 Roedd problemau a gofynion unigryw Sir Gaerfyrddin cyn cyflwyno'r cynllun Peilot Hyblygrwydd yn golygu bod amcanion anghenion canfyddedig y cynllun Peilot yn Sir Gaerfyrddin yn wahanol iawn i amcanion y cynllun Peilot yng Nghasnewydd a Castell-nedd Port Talbot. Tra bu i'r awdurdodau lleol eraill hyn ddefnyddio eu cynlluniau Peilot Hyblygrwydd i 'addasu' neu fireinio'r eu ffurfiau presennol o ddarpariaeth, roedd Sir Gaerfyrddin yn ei ddefnyddio i ailwampio'r ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar mewn rhai ardaloedd.

5.6 Mewn llawer o ffyrdd, wedyn, mae'r 'hyblygrwydd' yn Sir Gaerfyrddin yn aml yn cyfeirio at y ddarpariaeth o gyfleusterau blynyddoedd cynnar mewn ardaloedd lle nad oedd yr un o'r blaen, yn hytrach nag ystwytho sut a phryd gellir manteisio ar yr hawl, fel mewn awdurdodau lleol eraill.

5.7 Mae'r cynllun Peilot Hyblygrwydd wedi caniatáu i rai ysgolion ddatblygu cyfleuster blynyddoedd cynnar. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd y grant ar gyfer buddsoddiad cyfalaf i addasu cyfleusterau presennol ar gyfer defnydd newydd. Y prif nod ar gyfer yr ysgolion hyn oedd ceisio cadw disgyblion.

5.8 Defnyddiwyd y cynllun Peilot Hyblygrwydd hefyd yn Sir Gaerfyrddin i fynd i'r afael â diffyg darpariaeth cyn-ysgol mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Cyn hynny byddai 'bwlch' wedi bod rhwng pan fo'r plentyn yn gorffen Dechrau'n Deg ac yn dechrau mewn dosbarth Derbyn yn y sector a gynhelir.

5.9 Yn wahanol i awdurdodau lleol eraill, nid wnaeth Sir Gaerfyrddin hysbysebu'r cynllun Peilot Hyblygrwydd i bob ysgol a lleoliad. Yn lle hynny, dewisodd ddull wedi'i dargedu, gan ganolbwyntio ar yr

ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd hynny oedd â'r diffyg mwyaf o ran darpariaeth Feithrin.

*Darpariaeth*

5.10 Fel y nodwyd uchod, roedd rhoi'r cynllun Peilot ar waith, a manteisio arno, yn amrywio'n sylweddol ledled Caerfyrddin, gan adlewyrchu lefel anwastad yr angen/galw, ac mewn rhai achosion y problemau unigryw o natur wledig. Ond roedd hefyd yn ymddangos i adlewyrchu'r lefelau gwahanol o ddealltwriaeth a chyfathrebu rhwng yr awdurdod lleol a lleoliadau, rhwng lleoliadau gwahanol, a rhwng lleoliadau a rhieni.

5.11 O ran y mathau gwirioneddol o hyblygrwydd a gynigir gan bob lleoliad, hynny yw, y tu hwnt i ddarparu'r cyfleusterau blynyddoedd cynnar ei hun, roedd cynllun Peilot Sir Gaerfyrddin yn debyg i gynllun Castell-nedd Port Talbot o ran bod y lleoliadau oedd yn cymryd rhan yn gofyn i'r rhieni pryd a sut y byddent yn hoffi manteisio ar eu hawl i ddeg awr (h.y. dull dan arweiniad galw).

5.12 Fodd bynnag, yn hytrach na mabwysiadu dull sengl i fynd i'r afael â'r gofynion hyn (fel Castell-nedd Port Talbot) roedd y mathau o hyblygrwydd a roddwyd ar waith yn sylweddol wahanol ar draws y lleoliadau oedd yn cymryd rhan.

5.13 Mae werth amlinellu'r gwahanol fathau o ddarpariaeth hyblyg a gynigwyd yng Nghaerfyrddin:

a) Roedd un lleoliad (nad oedd wedi cynnig unrhyw ddarpariaeth feithrin yn y gorffennol) wedi defnyddio arian y cynllun Peilot Hyblyg i roi darpariaeth Feithrin ar waith. Yn arwyddocaol, cynigiwyd hyblygrwydd gwasanaeth gofal cofleidiol yn y lleoliad i rieni hefyd (mewn ffurf caban symudol ar y safle) yn dilyn addysg y plentyn yn y bore (neu yn y bore os oedden nhw'n mynychu'r

ysgol yn y prynhawn). Yna roedd yn rhaid i rieni dalu costau bach iawn i'r ysgol am y gofal cofleidiol. Roedd y gofal cofleidiol hwn yn para 1 awr a 59 munud[22] gan nad oedd y lleoliad wedi ei gofrestru eto gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Yn gyffredinol, roedd yr ysgol yn annog ymagwedd fesul cam tuag at y gofal cofleidiol, gan ofyn i rieni feithrin eu plant hyd at ddarpariaeth diwrnod llawn drwy’r wythnos erbyn eu tymor olaf cyn ysgol. Roedd y lleoliad yn cadw at y cymarebau a argymhellwyd gan y Cyfnod Sylfaen, gyda 8 lle yn cael ei gynnig ar gyfer pob aelod o staff. Cafodd y lleoliad lefel uchel o ddefnyddwyr ac fe’i hystyriwyd yn un o’r enghreifftiau mwyaf llwyddiannus o hyblygrwydd - rhywbeth ‘blaenllaw’ - gan yr awdurdod lleol.

b) I ddechrau cynigodd un lleoliad yr opsiwn i rieni o ddarpariaeth diwrnod llawn (h.y. sesiynau Cyfnod Sylfaen yn y prynhawn ar ben eu sesiynau bore safonol, fel yng Nghastell-nedd Port Talbot), lle y byddai plant yn cael eu hintegreiddio i ddosbarth Derbyn yr ysgol gysylltiedig yn y prynhawn. Fodd bynnag, er gwaethaf fod rhai rhieni yn ffafrio'r opsiwn hwn, yn y pen draw gwrthododd yr ysgol y math hwn o ddarpariaeth oherwydd y canfyddiad nad oedd y plant wedi dysgu defnyddio’r toiled yn ddigonol da ac felly roedd yn cynrychioli risg iechyd a diogelwch. O ganlyniad, ni chymerodd unrhyw blant ran yn y cynnig hwn.

c) Caniataodd un lleoliad nas cynhelir i rieni fanteisio ar eu hawl i ddeg awr am ddim yn eu lleoliad (fel sydd yn arfer safonol yng Nghasnewydd, er enghraifft).

d) Bu i un lleoliad a gynhelir mewn ardal wledig oedd yn cynnig darpariaeth Dechrau’n Deg yn y gorffennol ond dim darpariaeth feithrin ddefnyddio’r cynllun Peilot Hyblygrwydd i gynnig cyfleuster Meithrin lle nad oedd un ar gael cyn hynny. Cyflawnwyd hyn drwy integreiddio plant oed Meithrin i’r dosbarth Derbyn bach.

[22]Rhaid darparu gofal am ddwy awr neu fwy gan ddarparwr AGGCC cofrestredig.

5.14 Fel yng Nghastell-nedd Port Talbot, hysbyswyd y rhieni am gyflwyno'r cynllun Peilot newydd gan ysgolion. Fel yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd rhai lleoliadau yn fwy soffistigedig wrth gyfleu eu cynnig am hyblygrwydd, gyda'r ysgol 'flaenllaw' yn rhoi gwybod i rieni am y cynllun peilot newydd drwy ymwelydd iechyd lleol a drwy swyddfa dderbyn yr awdurdod lleol.

5.15 O ran niferoedd, pan gynigir dewis rhwng bore, prynhawn neu ddarpariaeth diwrnod llawn, dewisodd y rhan fwyaf o rieni mewn un lleoliad y ddarpariaeth *'bore'n unig'* traddodiadol. Mae hyn yn ddiddorol o ystyried diffyg hyblygrwydd y model hwn, a ysgogodd y peilot hyblygrwydd yn y lle cyntaf wrth gwrs. Fodd bynnag, dylid nodi bod staff yn y lleoliad hwn wedi tynnu sylw at y pwysau anffurfiol a roddwyd ar rieni i gydymffurfio gyda dewis y mwyafrif o rieni eraill wrth benderfynu pa batrwm o hawl y byddai'n well ganddynt.

*Ansawdd*

5.16 Mewn dau o'r lleoliadau yn Sir Gaerfyrddin, roedd y cynnig hyblyg o ddarpariaeth feithrin cyn-ysgol yn cynnwys integreiddio plant oed Meithrin i'r dosbarth Derbyn (fel mewn un lleoliad yng Nghastell-nedd Port Talbot). Fel yng Nghastell-nedd Port Talbot, mynegodd staff addysgu bryderon am hyn, gan ddweud bod integreiddio plant iau, llawer ohonynt nad oedd yn 'barod am yr ysgol' (e.e. hyfforddi toiled) yn gwneud addysgu yn galetach a rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn fwy o broblem.

*Effaith*

5.17 Mae'n anodd asesu effaith gyffredinol y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd yn Sir Gaerfyrddin o ystyried y cyd-destun ehangach o ddarpariaeth cyn-ysgol anwastad yn yr awdurdod lleol a natur ad hoc y cynlluniau Peilot o ysgol i ysgol.

5.18 Mewn llawer o achosion darparwyd cyllid y cynllun Peilot Hyblygrwydd i ysgolion a ddefnyddiodd hyn i fuddsoddi mewn adnoddau ac ail-ddefnyddio seilwaith presennol, (i ddarparu cyfleuster Meithrinfa) yn hytrach nag addasu hyblygrwydd presennol y ddarpariaeth Feithrin.

5.19 Braidd yn ôl y disgwyl wedyn, teimlwyd fod y buddsoddiad o'r cynlluniau Peilot Hyblygrwydd wedi cael effaith gadarnhaol ar leoliadau yn gyffredinol. Roedd athrawon ac uwch reolwyr yn hapus y gallent ddarparu gwasanaeth Meithrin i'w cymuned leol a chadw plant drwy hynny.

5.20 Effaith ychwanegol y cynllun Peilot Hyblygrwydd oedd yr orfodaeth sydd newydd ei chyflwyno o isafswm o sesiynau gan blant, sy'n arwain at well trefn yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar.

5.21 Yn y lleoliad lle methodd y cynllun Peilot Hyblygrwydd yn y pen draw (achos astudiaeth (b) uchod), cwynodd tîm rheoli'r ysgol am ddiffyg arweiniad neu gyswllt gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â rhoi'r cynllun Peilot ar waith.

5.22 Yn yr ysgol 'flaenllaw' (astudiaeth achos (a) uchod), teimlwyd bod cyflwyno darpariaeth gofal cofleidiol yn gweithio'n dda iawn gan bawb. Dywedodd yr awdurdod lleol mai hwn oedd yr unig fath o hyblygrwydd lle cafodd 'ffiniau eu gwthio', gan gyfaddef fod mathau eraill o hyblygrwydd sydd wedi cael eu rhoi ar waith ar draws yr awdurdod lleol yn dal i fod yn 'gyfyngol'.

5.23 Lle mae'r cynllun Peilot Hyblygrwydd wedi'i roi ar waith dywedodd y rhan fwyaf o ymarferwyr nad oedd unrhyw effaith wedi bod ar eu cynllunio a'u llwyth gwaith. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon

nodedig ynghylch integreiddio plant Meithrin mewn dosbarthiadau Derbyn.

5.24 Adroddodd y rhan fwyaf o ymarferwyr hefyd bod cynlluniau Peilot Hyblygrwydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y plant sy'n cymryd rhan. Ond dylid amodi hyn drwy ailddatgan nad oedd darpariaeth Feithrin yn lleoliadau’r astudiaeth achos yn flaenorol cyn cyflwyno’r cynllun Peilot Hyblygrwydd. Felly, gellid dadlau bod unrhyw fath o ddarpariaeth Feithrin yn yr ardaloedd hyn yn mynd i ddenu barn gadarnhaol.

**Adborth gan Rieni**

5.25 Adlewyrchwyd anghysondeb yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar draws Sir Gaerfyrddin ym marn rhieni a gyfwelwyd. Fel enghraifft, roedd y rhan fwyaf o rieni â phlant sy'n mynychu'r lleoliad 'blaenllaw' yn Sir Gaerfyrddin yn hynod fodlon ac yn falch gyda'r fenter. Fodd bynnag, mae'n werth nodi fod un rhiant wedi symud i'r ardal o ran arall o Sir Gaerfyrddin lle’r oedd darpariaeth hyblyg diwrnod llawn yn arferol, ac felly roedd yn llawer llai 'diolchgar' na'r rhieni lleol eraill. Nid oedd unrhyw un o’r rhieni lleol hyn wedi cael yr opsiwn am unrhyw fath o ddarpariaeth diwrnod llawn o’r blaen.

5.26 Mewn ardal arall, nododd rhieni sut yr oedd yn rhaid iddynt deithio cryn bellter i fanteisio ar ddarpariaeth Feithrin yn y gorffennol. Bu i rai rhieni hefyd godi pryderon nad oedd y ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn cynnwys y dref gyfan. Mewn ardal arall, gyda lleoliad sy'n cymryd rhan, dywedodd rhieni nad oeddent wedi defnyddio na chlywed am unrhyw gynlluniau Peilot Hyblygrwydd.

5.27 Serch hynny, fel Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd, roedd themâu cyffredin yn y cyfweliadau ffôn gyda rhieni. Er enghraifft, dywedodd rhieni yn Sir Gaerfyrddin yn aml eu bod yn dibynnu ar

rwydweithiau anffurfiol, teuluol o ran gofal plant, yn enwedig neiniau a theidiau. Fel yng Nghastell-nedd Port Talbot a Chasnewydd, gwelwyd bod costau gofal plant preifat yn afresymol ac yn bygwth lles teuluoedd a chyllideb yr aelwyd.

5.28 Roedd rhieni plant oedd yn mynychu'r lleoliad 'blaenllaw' (gyda gofal cofleidiol ar y safle) yn hapus iawn gyda'r math newydd hwn o ddarpariaeth yn gyffredinol. Dywedwyd ei fod yn eu helpu'n fawr gyda'u cydbwysedd bywyd a gwaith, bod yr hyblygrwydd newydd wedi arbed llawer o arian iddyn nhw ar gostau gofal plant, ac mewn rhai achosion wedi caniatáu iddynt ddychwelyd i'r gwaith.

> "Mae wedi bod yn fuddiol iawn gan ei fod yn hyblyg iawn felly mae gen i'r cyfle i gadw fy mhlentyn mewn tan yr amser sy'n addas i mi, sy'n golygu nad oes rhaid dibynnu ar ofal plant neu warchodwyr." (Rhiant yn Sir Gaerfyrddin)

> "Mae'n rhoi hyblygrwydd enfawr a dylai barhau: dydyn ni ddim yn byw yn y 1950au, mae'r rhan fwyaf o famau yn gweithio rhan amser, ac mae gallu manteisio ar feithrinfa hyblyg wedi galluogi i mi weithio!" (Rhiant yn Sir Gaerfyrddin)

> "Mae'r cynnig o hyblygrwydd wedi caniatáu i mi ddychwelyd i weithio'n rhan-amser heb fod angen talu am ofal plant preifat. Heb yr hyblygrwydd hwn byddai fy nghyflog wedi diflannu ar gostau gofal plant." (Rhiant yn Sir Gaerfyrddin)

5.29 Honnodd un rhiant fod yr hyblygrwydd wedi caniatáu i'w phlentyn fanteisio ar addysg feithrin (h.y. 'mynd i mewn i'r system', nod datganedig y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd), gan ddatgan y byddai'r plentyn wedi cael ei atal rhag manteisio ar y Cyfnod Sylfaen tan ddechrau addysg orfodol heb yr hyblygrwydd hwn (gan ddefnyddio

gwarchodwr plant mae'n debyg) oherwydd anghyfleustra'r 'fformat traddodiadol':

> "Bellach nid wyf yn treulio'r rhan fwyaf o'm cyflog ar gostau gofal plant! Os nad fyddai'n hyblyg ni fyddai fy mhlentyn yn gallu mynd i'r Feithrinfa oherwydd fy ymrwymiadau gwaith." (Rhiant yn Sir Gaerfyrddin)

5.30 Mater dro ar ôl tro drwy gydol y gwerthusiad yw p'un a yw darpariaeth diwrnod llawn yn addas ar gyfer plant bach iawn. Fel yn y rhanbarthau eraill, teimlai rhieni yn Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol fod eu plant yn gallu ymdopi â darpariaeth diwrnod llawn. Fel yng Nghastell-nedd Port Talbot, teimlai'r rhieni yn yr ysgol 'flaenllaw' bod darpariaeth diwrnod llawn (er mai gofal cofleidiol oedd ac nid addysg) wedi cynorthwyo parodrwydd ysgol eu plentyn yn gyffredinol.

> "Teimlaf yn 100% yn fodlon ar y ffordd y mae'r cynllun peilot wedi gweithio, ac yr wyf yn falch bod fy merch wedi cael cyfle i gymryd rhan ynddo. Rwy'n teimlo ei fod wedi rhoi dechrau gwych iddi ar gyfer yr ysgol ac nid yw'r syniad o ysgol llawn amser yn frawychus i'r rhiant na'r plentyn mwyach - mewn gwirionedd mae'n ysu am gael aros drwy'r dydd." (Rhiant yn Sir Gaerfyrddin)

> "Nid yn unig mae'r cynllun peilot hyblygrwydd wedi helpu gyda fy nhrefniadau gofal plant, ond mae fy merch wedi blodeuo o ran eu hymddygiad, agwedd, hyder a'i pharodrwydd i ddysgu." (Rhiant yn Sir Gaerfyrddin)

> "Mae'r cynllun peilot hyblygrwydd wedi bod yn fuddiol iawn i'n trefniadau gofal plant, yn ogystal ag i'n merch...sydd wedi mwynhau bob eiliad ac wedi datblygu y tu hwnt i ddisgwyliadau." (Rhiant yn Sir Gaerfyrddin)

5.31 Yr hyn sy'n arwyddocaol yma yw y teimlwyd fod 'gofal' wedi cael effaith ar 'barodrwydd ysgol' cyffredinol, wedi cynorthwyo hyder a'r gallu i gymdeithasu, ac ati.

5.32 Serch hynny, fel mewn awdurdodau lleol eraill, roedd rhai rhieni nad oedd yn teimlo y gallai eu plentyn ymdopi â darpariaeth diwrnod llawn.

> “Nid yw fy merch ieuengaf mor hyderus â fy mhlentyn hynaf..rwyf yn poeni ei bod ychydig yn ifanc ar gyfer yr ysgol. Rwy'n hoffi'r ffaith ei bod hi’n gallu mynychu boreau gan eu bod nhw’ ymddangos mor fach yn dair." (Rhiant yn Sir Gaerfyrddin)

5.33 Nododd y rhieni hyn, fodd bynnag, bod eu hysgol wedi bod yn hyblyg iawn ac wedi gadael i blant ddefnyddio’r ddarpariaeth a pheidio defnyddio’r ddarpariaeth diwrnod llawn gan ddibynnu ar p’un a oeddent yn ymdopi gyda’r amser cyswllt ychwanegol neu beidio.

**Blwch 6. Pwyntiau Allweddol Darpariaeth Hyblyg Ad Hoc Sir Gaerfyrddin**

- Dyluniwyd y cynllun peilot hyblygrwydd i helpu i ailwampio’r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar mewn ardaloedd penodol yn yr awdurdod lleol, yn hytrach nag i ‘addasu’ darpariaeth blynyddoedd cynnar sy’n bodoli eisoes.
- Roedd y cynllun Peilot Hyblygrwydd yn cael ei roi ar waith ar sail ad hoc yn seiliedig ar y galw gwahanol ym mhob ardal a lleoliad oedd yn cymryd rhan.
- Mewn rhai achosion aeth cyllid y cynllun Peilot Hyblygrwydd at fuddsoddiad cyfalaf (e.e. adeiladau, adnoddau, ac ati).
- Effaith gymysg yn gyffredinol ac amrywiaeth sylweddol rhwng lleoliadau.

- Roedd rhieni plant sy'n mynychu’r lleoliad 'blaenllaw' oedd wedi rhoi gofal cofleidiol ar y safle ar waith yn hynod o hapus gyda’r fenter hon.
- Roedd pwyslais yr awdurdod lleol unwaith eto yn canolbwyntio ar y manteision i rieni, ac yn llai felly i’r lleoliadau a’r plant. Fodd bynnag fel yng Nghastell-nedd Port Talbot, honnodd rhieni fod yr hyblygrwydd a'r amser cyswllt ychwanegol wedi cynorthwyo datblygiad plant yn ogystal â chynorthwyo eu cydbwysedd bywyd a gwaith eu hunain.
- Ychydig o ddefnydd a gweithrediad cyfyngedig i’r cynllun peilot hyblygrwydd mewn lleoliadau gwledig.
- Materion yn ymwneud â chyfathrebu rhwng yr awdurdod lleol a lleoliadau - rhai lleoliadau yn anhapus gyda'r cyngor/arweiniad a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.
- Fel yng Nghastell-nedd Port Talbot, materion addysgeg o gyfuno dosbarthiadau meithrin a derbyn mewn lleoliadau llai.
- Wrth asesu'r niferoedd sy'n manteisio a’r mathau o hyblygrwydd sydd wedi’u ‘harwain gan alw’, efallai y bydd rhieni yn cytuno wrth wynebu pwysau anffurfiol gan rieni eraill wrth ddewis eu defnydd (hynny yw, bydd yr hyn mae’r mwyafrif ei angen fel arfer yn ennill y dydd).

# 6 Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyblygrwydd Sir Ddinbych

## Dyluniad a Galw Lleol

6.1 Yn Sir Ddinbych, darperir addysg cyn-ysgol ar gyfer 'plant sy’n troi’n dair' yn gyffredinol gan y sector nas cynhelir a ariennir, ar ffurf cylchoedd chwarae a meithrinfeydd dydd preifat. Yn gyffredinol mae gan blant pedair mlwydd oed yn y rhanbarth leoedd mewn Meithrinfeydd a gynhelir sydd ynghlwm wrth ysgolion Cynradd. Mewn rhai ardaloedd gwledig gyda darpariaeth gyfyngedig, derbynnir ‘plant sy’n troi’n dair’ i feithrinfeydd a gynhelir.

6.2 Mae dull Sir Ddinbych o ‘hyblygrwydd’ yn wahanol iawn i rai’r awdurdodau lleol eraill sy’n cymryd rhan. Tra roedd yr awdurdodau lleol eraill yn canolbwyntio ar gynyddu nifer drwy ystwytho paramedrau presennol sy'n ymwneud â darpariaeth cyn ysgol – fel arfer, drwy newid oriau agor y lleoliad – defnyddiodd Sir Ddinbych gyllid hyblygrwydd i ategu menter bresennol a ddatblygwyd gan yr awdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys cyflogaeth a gwaith naw *gweithiwr cyswllt teulu* mewn cymunedau gwahanol ar draws Sir Ddinbych.

6.3 Nod y fenter *gweithwyr cyswllt teulu* oedd helpu i godi safonau addysgol ar draws yr awdurdod lleol. Yn arbennig, mae’r *gweithwyr cyswllt teulu* y cael y dasg o wella 'parodrwydd ysgol' (e.e., sicrhau bod plant yn cael eu hyfforddi ar y toiled, bod ganddynt ymddygiad briodol a pharodrwydd iaith).

6.4 Mae’r *gweithwyr cyswllt teulu* yn gweithio mewn cymunedau lleol (difreintiedig yn bennaf), gan weithio ar draws clystyrau o ysgolion, a gyda rhieni a phlant cyn oedran ysgol (o'u geni hyd at oedran dosbarth Derbyn).

6.5 Ar ei fwyaf sylfaenol, gellir disgrifio’r rôl fel rôl fugeiliol, lle mae *gweithwyr cyswllt teulu* yn gyffredinol yn ceisio creu cysylltiadau rhwng ysgolion/lleoliadau a'r gymuned leol.

6.6 Ond gan ddefnyddio strategaethau niferus, roedd y *gweithwyr cyswllt teulu* hefyd yn ceisio cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y Cyfnod Sylfaen drwy gynyddu ymwybyddiaeth rhieni o'u hawl a phwysleisio manteision addysgol addysg y blynyddoedd cynnar.

6.7 Yn Sir Ddinbych mae ffocws ar ddod â phlant o’r 'tu allan i'r system' sydd â rhieni, am nifer o resymau, nad ydynt yn dod â nhw mewn i’r Cyfnod Sylfaen nes iddynt gyrraedd oedran ysgol gorfodol, i’r system addysg i fanteisio ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

6.8 Yn wahanol i awdurdodau lleol eraill a wnaeth ddehongli hyblygrwydd drwy newid oriau agor neu amserlenni lleoliad, yn Sir Ddinbych teimlodd yr awdurdod lleol nad oedd galw am amseroedd agor gwahanol neu ar gyfer blociau 'diwrnod llawn’ ac ati (fel Castell-nedd Port Talbot neu Gasnewydd).

6.9 Awgrymodd cynrychiolydd yr awdurdod lleol hefyd y dylid annog arferion (e.e. y model bore *neu* brynhawn yn unig ‘traddodiadol’), oherwydd y dylai addysg ysgol hyrwyddo ‘parodrwydd ysgol’. Roedd hyn yn adleisio honiadau rhai ymarferwyr mewn awdurdodau lleol eraill oedd yn credu bod y system boreau neu brynhawniau ‘traddodiadol’ yn fwy effeithiol.

6.10 Fodd bynnag, nid y gweithwyr cyswllt teulu oedd unig fenter yr awdurdod lleol wrth weithredu o dan nawdd y cynllun Peilot Hyblygrwydd. Yn y Cyfnod Sylfaen, cyflogir athrawon cymwysedig blynyddoedd cynnar i weithio gyda lleoliadau nas cynhelir a ariennir wedi’u cymeradwyo am 10% o'r wythnos er mwyn sicrhau darpariaeth addysgol o ansawdd uchel. Yn Sir Ddinbych athrawon

peripatetig oedd y rhain fel arfer. Ond fel rhan o ‘froceriaeth’ Sir Ddinbych cafodd rôl yr 'athrawon cysylltiedig' 10% (a ariannwyd gan y Cyfnod Sylfaen, nid gan y cynllun Peilot Hyblygrwydd) ei *ehangu* i gynnwys hyfforddi athrawon 10% *newydd* mewn ysgolion cynradd lleol a oedd wedyn yn cael eu haseinio’n barhaol i ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, wedi’u cefnogi gan uwch athro ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen. Roedd amser yr athrawon cysylltiedig 10% ychwanegol (h.y. *ar ben* athro 10% y Cyfnod Sylfaen) yn cael ei ariannu gan y cynllun Peilot Hyblyg.

6.11 Cynlluniwyd y symudiad hwn i adeiladu perthynas rhwng yr ysgolion a’r grwpiau chwarae sy’n eu bwydo, rhwng y ddau set o staff a rhwng rhieni, plant ac athrawon/ysgolion. Yn y pen draw cynlluniwyd yr ad-drefnu hwn tuag at ‘athro cysylltiedig’ parhaol wedi’i wreiddio yn y cylchoedd chwarae sy'n bwydo (yn hytrach nag athro ymgynghorol fel bo'r angen, fel oedd yr achos o dan y Cyfnod Sylfaen) i helpu 'parodrwydd ysgol' drwy adeiladu cysylltiadau lluosog, yn enwedig i ymgyfarwyddo plant a rhieni gyda’u hathrawon yn y dyfodol, gydag arferion ysgol a disgwyliadau.

**Darpariaeth**

6.12 Disgrifir y *gweithwyr cyswllt teulu* orau fel cyfryngwyr rhwng ysgolion/lleoliadau a theuluoedd a chymunedau. O bosibl, gellir disgrifio bod rôl y *gweithiwr cyswllt teulu* yn cynnwys dwy elfen gysylltiedig: (a) gwaith wedi’i dargedu yn y gymuned, a (b) gwaith addysgol wedi’i dargedu mewn ysgolion sy’n ‘ganolfan’ lle maent wedi'u lleoli’n ffurfiol. Mae *gweithwyr cyswllt teulu* yn disgrifio eu gwaith cymunedol fel y sylfeini ar gyfer eu rôl mewn ysgolion.

*Gwaith cymunedol*

6.13 Mae *gweithwyr cyswllt teulu* yn arloesi a rhoi gwaith allgymorth cymunedol ar waith i famau a phlant ifanc (o fabanod i oedran dosbarth derbyn) yn y gymuned. Nod y mentrau hyn yw ymgysylltu â mamau a theuluoedd lleol a'u cefnogi pan fo angen, gyda'r nod sylfaenol o wella parodrwydd ysgol.

6.14 Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys: grwpiau mamau a babanod; sesiynau galw heibio 'awgrymiadau' lle rhoddir gwybod i rieni am faterion yn ymwneud â pharodrwydd ysgol; a grwpiau iaith a grwpiau babanod yn seiliedig ar chwarae, wedi'u dylunio'n arbennig i helpu plant sydd wedi'u geni yn yr haf nad ydynt yn gymwys eto am leoedd wedi'u hariannu ac a fyddai'n colli allan ar y ddarpariaeth fel arall.

6.15 Yn ystod y gwaith hwn, mae'r *gweithwyr cyswllt teulu* yn addysgu'r rhieni am fanteision addysg cyn ysgol ac yn gwneud rhieni yn ymwybodol o'u hawl addysgol. Er enghraifft, bob tymor mae'r *gweithwyr cyswllt teulu* yn mynd drwy'r rhestrau derbyn (gan yr awdurdod lleol) a rhestrau cylch chwarae, gan weithio allan pa blant sydd gan yr hawl i 10 awr o ddarpariaeth a pha rai nad oes gan yr hawl (e.e.genedigaethau yn yr haf). Yna maen nhw'n cysylltu â'r teuluoedd i roi gwybod iddyn nhw am eu hawl.

6.16 Trwy'r mathau hyn o allgymorth cymunedol, mae gan yr ymyriadau hyn y fantais ychwanegol o 'gyrraedd teuluoedd yn gynnar'. Mae *gweithwyr cyswllt teulu* yn helpu i dargedu rhieni sydd y 'tu allan i'r system', ac yn canolbwyntio ar roi eu plant mewn addysg. Mae hwn yn fater yr oedd awdurdodau lleol eraill yn cael trafferth i fynd i'r afael ag o.

*Gwaith ysgol*

6.17 Treuliodd y *gweithwyr cyswllt teulu* gryn dipyn o'u hamser mewn ysgolion lleol. Fel Cymorthyddion Addysgu Lefel Uwch (HLTA),

roedden nhw’n rhedeg nifer o ddosbarthiadau hyfforddi adferol i helpu ‘parodrwydd ysgol’. Er enghraifft, gan ganolbwyntio ar ffoneg, sylw a gwrando, a darllen.

6.18 Rhoddwyd y dasg iddynt hefyd o wella presenoldeb mewn ysgolion a delio gyda materion ymddygiadol/bugeiliol a godwyd gan ysgol. Felly, er enghraifft, byddai'r pennaeth yn rhybuddio’r *gweithiwr cyswllt teulu* am blentyn y mae ei bresenoldeb wedi bod yn wael. Byddai’r *gweithiwr cyswllt teulu* wedyn yn cysylltu gyda'r rhiant a sefydlu beth oedd y broblem a cheisio ei datrys. Er nad yw'r strategaeth hon yn ymwneud â chynnig darpariaeth Cyfnod Sylfaen hyblyg un o nodau allweddol y cynllun Peilot Hyblygrwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd hefyd i wella presenoldeb, ac felly gellir gwneud cymariaethau diddorol.

6.19 Felly mae’r cyfuniad o ymyriadau ysgol ac allgymorth cymunedol yn ddull holistaidd i leddfu tlodi ac ymdrin â’r cyswllt rhwng amddifadedd a phroblemau addysgol. Er mai nid cynyddu’r nifer oedd yn manteisio ar y deg awr am ddim o addysg y Cyfnod Sylfaen oedd ffocws penodol y *gweithwyr cyswllt teulu,* mae defnydd a phresenoldeb cynyddol o bosibl yn ganlyniad anochel i’w gwaith.

**Ansawdd**

6.20 Teimlwyd bod gwaith adfer a wna’r *gweithwyr cyswllt teulu* mewn ysgolion yn helpu wrth roi’r Cyfnod Sylfaen ar waith. Dadleuwyd bod helpu 'parodrwydd ysgol' (mynd i'r afael ag ymddygiad a materion lleferydd/sylw) yn caniatáu i’r plant hyn ymgysylltu'n well â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Teimlwyd hefyd bod y gwaith hwn yn ysgafnhau'r baich ar athrawon.

6.21 Cynlluniwyd piler arall cynllun Peilot Hyblygrwydd Sir Ddinbych, rôl yr athro cysylltiedig 10%, hefyd yn benodol i wella’r gwaith o roi’r Cyfnod

Sylfaen ar waith. Fodd bynnag, canfu'r gwerthusiad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen (Taylor *et al*. 2015) fod rhai awdurdodau lleol eraill eisoes yn defnyddio ac yn trefnu eu hathrawon cysylltiedig 10% yn y ffordd hon.

**Effaith**

6.22 Roedd yr awdurdod lleol yn hynod o falch gyda'r fenter *gweithiwr cyswllt teulu*, ac yn teimlo eu bod wedi llwyddo i wella safonau parodrwydd ysgol. Dywedwyd bod cost ychwanegol y *gweithwyr cyswllt teulu* yn fuddsoddiad gwerth chweil iawn, ond nid oedd yn glir i ba raddau y byddai hyn yn gynaliadwy wedi i gyllid y cynllun Peilot Hyblygrwydd ddod i ben, er hyn, mae'r awdurdod lleol wedi cynghori y byddant yn parhau i ddefnyddio'r model hwn o weithio.

6.23 Nododd yr awdurdod lleol hefyd fod y *gweithwyr cyswllt teulu* hefyd wedi helpu eu hadran geisiadau a derbyn yn fawr iawn.

6.24 Roedd staff yr ysgol a thimau uwch arweinyddiaeth hefyd yn siarad yn hynod o uchel am waith y *gweithwyr cyswllt teulu,* gan nodi eu bod wedi helpu i wella presenoldeb, ymddygiad a gwneud rhedeg yr ysgol yn haws gan ymgymryd â rôl fugeiliol sylweddol o'r fath. Teimlwyd bod y *gweithwyr cyswllt teulu* yn bont hynod effeithiol rhwng ysgolion a chymunedau/rhieni. Roedd ymarferwyr yn honni bod plant hefyd wedi elwa o waith ysgol a gwaith cymuned y *gweithwyr cyswllt teulu.*

6.25 Y prif fater a nododd y tîm ymchwil oedd llwyth gwaith sylweddol y *gweithwyr cyswllt teulu* a pha mor gynaliadwy oedd eu rôl.

6.26 Teimlwyd hefyd bod yr agwedd arall ar gynllun peilot Sir Ddinbych – athro cysylltiedig 10% wedi'i ymgorffori'n lleol yn ogystal ag athro 10% y cyfnod sylfaen sydd eisoes yn bodoli – wedi bod yn llwyddiannus iawn, gan yr athrawon cysylltiedig eu hunain a'r staff

mewn lleoliadau nas cynhelir. Honnodd yr olaf o’r rhain bod yr amser cyswllt ychwanegol wedi cynorthwyo eu dealltwriaeth a’r ffordd roedden nhw’n rhoi’r Cyfnod Sylfaen ar waith yn fawr iawn.

6.27 Roedden yn awgrymu hefyd bod plant wedi elwa oddi wrth yr 'hyfforddiant' a gawsant.

6.28 Fodd bynnag, gellid dadlau nad yw rôl yr athro cysylltiedig 10% yn Sir Ddinbych yn annhebyg i’r rhai mewn awdurdodau lleol eraill, a nod gwreiddiol yr athro cysylltiedig 10% yn dilyn cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen.

6.29 Yn ogystal â chynorthwyo gyda chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, mae’r ad-drefniant hwn yn amlwg wedi helpu sefydlu perthnasoedd gweithio a dulliau cyfathrebu cadarnhaol rhwng *gweithwyr cyswllt teulu*, staff y cylch chwarae a'r athrawon Meithrin. O dan y drefn newydd, roedd athrawon yn fwy tebygol o wybod pwy oedd y plant a’r teuluoedd sydd mewn perygl, er enghraifft, a byddent wedi dechrau sefydlu perthynas gyda nhw cyn iddynt fynychu'r Feithrinfa.

**Blwch 7. Pwyntiau Allweddol Darpariaeth Gweithiwr Cyswllt Teulu Sir Ddinbych**

- Cyllid y cynllun Peilot Hyblygrwydd wedi’i ddefnyddio i ategu’r fenter gweithiwr cyswllt teulu sy’n bodoli eisoes.
- Nod y gweithwyr cyswllt teulu yw helpu i wella safonau addysgol drwy wella parodrwydd ysgol. H.y., heb unrhyw ffocws penodol ar y ddarpariaeth 'hyblyg', er y teimlwyd y byddai defnydd cynyddol yn ganlyniad anochel i’w gwaith cymunedol.
- Mae rôl fugeiliol yn pontio ysgol a'r gymuned, gan ganolbwyntio ar adeiladu cysylltiadau rhwng cymunedau ac ysgolion, yn benodol gwneud ysgolion ac addysg yn llai ‘bygythiol’ neu brawychus i deuluoedd mewn risg.
- Mae'r fenter gweithiwr cyswllt teulu yn cynrychioli’r unig gynllun

peilot i fynd ati i weithio gyda phlant a rhieni y 'tu allan i'r system' (h.y. y swm bach o blant yng Nghymru a amcangyfrifir nad ydynt yn manteisio ar eu hawl).

- Mae 'ymyriad cynnar' drwy weithwyr iechyd a mentrau eraill yn caniatáu i weithwyr cyswllt teulu ddod â rhai o'r 'tu allan i'r system' i addysg.
- Mae gweithwyr cyswllt teulu yn cynnal ymyriadau addysgol adferol mewn ysgolion (e.e. dosbarthiadau ffoneg, dosbarthiadau darllen, dosbarthiadau sylw).
- Ystyrir gweithwyr cyswllt teulu yn werthfawr i ysgolion a'r gymuned.
- Mae llwyth gwaith uchel i weithwyr cyswllt teulu sy'n treulio llawer o amser yn teithio ar draws Sir Ddinbych i wahanol gymunedau, lleoliadau ac ysgolion.
- Defnyddiwyd y cynllun Peilot Hyblygrwydd i ehangu cynllun athrawon cysylltiedig 10% y Cyfnod Sylfaen. H.y., athrawon 10% ychwanegol, o ysgolion cynradd lleol, wedi'u hyfforddi gan athrawon ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen uwch ac wedi'u neilltuo'n barhaol i'r cylchoedd chwarae sy'n eu bwydo. Bu i hyn helpu wrth sefydlu rhwydweithiau cefnogi rhwng cylchoedd chwarae, gweithwyr cyswllt teulu ac ysgolion.

# 7 Casgliadau'r Gwerthusiad

7.1 Fel mae'r adroddiad uchod yn ei wneud yn glir,  ni ddehonglwyd na defnyddiwyd y cynllun Peilot Hyblyg yn yr un modd ar draws awdurdodau lleol gan fod gan pob awdurdod lleol gyd-destun neu set o 'faterion' gwahanol yr oedden nhw am fynd i'r afael â nhw. Felly, er enghraifft, tra mai nod y cynllun peilot yng Nghasnewydd oedd helpu rhieni sy'n gweithio, nod y cynllun Peilot yn Sir Ddinbych oedd gwella safonau addysgol yn amlwg drwy wella 'parodrwydd ysgol'. Felly dylid ystyried 'llwyddiant' pob cynllun Peilot Hyblygrwydd hefyd yn erbyn nodau gwahanol pob awdurdod lleol yn ogystal â'r nod cyffredinol.

7.2 Yn seiliedig ar y gwerthusiad hwn mae rhai casgliadau cyffredinol y gellir eu gwneud am (a) anghenion rhieni, (b) rhoi'r cynlluniau peilot hyblygrwydd ar waith, a (c) effaith gyffredinol y prosiectau peilot hyblygrwydd ar addysgwyr, plant a theuluoedd. Amlinellir y rhain isod.

7.3 Mae'r casgliad hefyd yn cynnwys rhai pwyntiau trafod cryno yn ymwneud â rhai o'r materion mwyaf trawiadol i godi o'r ymchwil, yn fwyaf penodol:

- Y berthynas rhwng addysg a gofal;
- Y berthynas rhwng darpariaeth hyblyg a'r farchnad lafur;
- Y berthynas rhwng darpariaeth hyblyg a manteisio ar y Cyfnod Sylfaen; a
- Yr angen am gyfathrebu materion yn well i rieni.

7.4 Dylai'r materion hyn i gyd fod o gryn ddiddordeb i lunwyr polisi.

7.5 Fodd bynnag, yn gyntaf, mae'n werth craffu ar y cysyniad o hyblygrwydd yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen. Wrth ddefnyddio'r ddarpariaeth hyblyg yn y dyfodol mae angen egluro *nod* strategol hyblygrwydd cynyddol a'r rhesymeg y tu ôl i'r strategaeth hon. Ydy'r cynllun wedi'i ddylunio i helpu rhieni sy'n gweithio neu a yw'n helpu

rhieni di-waith i gael mynediad at y farchnad gyflogaeth? Ydy’r cynllun wedi’i ddylunio i helpu datblygiad addysgol a chymdeithasol plant? Beth yw rôl darpariaeth yr iaith Gymraeg yn y ddarpariaeth hyblyg? Mae nifer o nodau y gellid defnyddio darpariaeth hyblyg i fynd i’r afael â nhw. Er nad ydynt o reidrwydd yn gwrthdaro, efallai nad ydynt bob amser yn ategol chwaith. Unwaith y pennir nod cyffredinol hyblygrwydd cynyddol (hyd yn oed os yw’n caniatáu rhoi cryn ymreolaeth i wahanol awdurdodau lleol a darparwyr), dylid cyfleu hyn yn glir i awdurdodau lleol, ysgolion/lleoliadau a rhieni.

7.6 Beth mae’r gwerthusiad hefyd yn nodi'n glir yw’r angen, wrth feddwl am weithredu newid, i ystyried pwy yw’r rhai a fydd yn elwa fwyaf ar fwy o hyblygrwydd. Mae’r gwerthusiad yn ei gwneud yn ymwybydodol i’r posibilrwydd y gallai mathau cynyddol o hyblygrwydd i rieni gynyddu pwysau ar staff yr ysgol a gallai o bosibl gael effaith negyddol ar blant. Er y teimlwyd bod llawer math o hyblygrwydd yn gweithio'n dda iawn, ac nad oedd fawr ddim tystiolaeth o unrhyw effaith negyddol ar blant, mae’n hanfodol fod rhoi unrhyw ddarpariaeth hyblyg ar waith yn y dyfodol yn sensitif i’r materion hyn. Mae ffrâm amser byr y gwerthusiad hwn yn golygu nad yw'n bosibl rhoi sylwadau ar effeithiau tymor hir ar blant.

**Anghenion Rhieni**

7.7 Datgelodd y cyfweliadau a'r arolygon gyda rhieni natur gymhleth anghenion rhieni, sydd yn dibynnu ar batrymau gwaith, strwythur aelwydydd, lleoliad daearyddol, dosbarth cymdeithasol a rhwydweithiau teuluol. Bydd gan aelwydydd â mwy nag un plentyn lle mae’r ddau riant yn gweithio’n llawn amser ac yn cymudo i weithio y tu allan i'r ardal set wahanol o anghenion yn naturiol i aelwyd lle nad yw’r naill riant na'r llall yn gweithio.

7.8 Dylai'r amrywiaeth o ran cyfansoddiad yr aelwyd/strwythur teulu yn yr ardaloedd, a rhwng ardaloedd, rybuddio yn erbyn trin 'rhieni' fel grŵp homogenaidd gyda'r un anghenion. Yn yr un modd, mae'n anodd priodoli anghenion un 'math delfrydol' o uned deuluol i'r rhai eraill i gyd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried strwythur newidiol bywyd teuluol h.y., y dirywiad mewn teuluoedd dau riant lle mae un rhiant yn gweithio ac un yn magu plant; y cynnydd o rieni sy'n gweithio; nifer yr achosion o deuluoedd cyfunol ac ati.

7.9 Serch hynny, roedd rhai materion oedd yn dod i'r wyneb yn rheolaidd mewn sgyrsiau gyda phob math o rieni, gan awgrymu bod y problemau a'r anghenion hyn yn eithaf cyffredinol.

7.10 Mae nifer o rieni sy'n gweithio yn cael problemau gyda darpariaeth bore neu prynhawn traddodiadol a dywedwyd eu bod angen rhyw fath o ddarpariaeth diwrnod llawn neu ofal cofleidiol i wneud eu trefn ddyddiol yn haws. Dywedodd rhieni sy'n gweithio eu bod yn ei chael hi'n anodd yn aml i reoli logisteg teithio i'r gwaith a cludo/casgly eu plant, gan nad yw oriau gwaith yn aml iawn yn cyfateb i amseroedd i'r ysgol/amseroedd agor lleoliad/sesiynau.

> "Mae addysg y blynyddoedd cynnar mor anhyblyg fel ei bod bron yn anfforddiadwy i fanteisio arno. Mae'r ddau riant yn gweithio felly mae cynnal 18 mis o gludo ein mab am 2.5 awr yn afrealistig. Mae'n teimlo bron fod syniad da yn cael ei dynnu oddi ar deuluoedd sy'n gweithio! Dylai teuluoedd allu defnyddio'r oriau i gyd-fynd â bywyd teuluol, nid ei gwneud yn fwy anodd". (Rhiant sy'n gweithio)

7.11 Yn yr un modd, nododd rhieni nad ydynt yn gweithio hefyd eu bod yn teimlo fod y fformat traddodiadol yn anodd, yn enwedig ar gyfer y rhieni hynny gyda phlant o wahanol oedrannau, a nododd eu bod yn treulio llawer o'u diwrnod yn teithio yn ôl ac ymlaen i leoliadau/ysgolion. Dywedodd llawer o rieni nad ydynt yn gweithio

bod y fformat boreau *neu* brynhawniau traddodiadol yn yn aml yn ei gwneud hi'n anoddach i gyflawni tasgau dyddiol pwysig megis siopa a glanhau.

7.12 Yn arwyddocaol, dywedodd rhai rhieni y byddai rhyw fath o ddarpariaeth cofleidiol yn rhoi iddynt seibiant o'r straen o fagu plant, a'u bod hwythau hefyd angen 'rhywfaint o amser iddyn nhw eu hunain'. Efallai y bydd yr angen hyn yn arbennig o wir ar gyfer aelwydydd rhieni sengl a rhieni plant ag anableddau neu rieni sydd hefyd yn ofalwyr. Dylai mater gofal seibiant, gorffwys ac iechyd meddwl rhieni fod yn ffactor yn y ddadl am ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yn y dyfodol.

7.13 Adlewyrchir y galw ymhlith rhieni am fathau gwahanol o ddarpariaeth yng nghanlyniadau'r e-arolwg (gweler Atodiad B, C.9). Roedd 64% o'r rhieni a holwyd yn teimlo y byddai rhyw fath o *ddarpariaeth oriau anghymdeithasol* yn weddol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn; teimlai 79% y byddai rhyw fath o *ddarpariaeth cofleidiol ar y safle* yn weddol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn; a theimlai 89% y byddai *darpariaeth diwrnod llawn* yn weddol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

7.14 Mae diffyg darpariaeth cofleidiol gyda Meithrinfeydd a gynhelir yn golygu bod llawer o rieni sy'n gweithio yn aml yn dibynnu ar ofal plant preifat. Ond eto yn wahanol i 'Arolwg Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar' Cymru (Llywodraeth Cymru, 2009) lle honnodd 25% o'r rhieni fod talu am ofal plant yn anodd (Llywodraeth Cymru, 2009: 57-58) ystyriwyd cost gofal plant preifat yn afresymol o ddrud gan y rhieni i gyd bron. Roedd rhieni sy'n gweithio yn honni 'nad oeddent yn cael eu gwobrwyo am weithio' oherwydd fod cyfanswm costau gofal plant yn ei dynnu o gyllideb yr aelwyd.

7.15 Mae'r sector nas cynhelir yn ddewis amlwg ar gyfer rhieni sy'n ceisio defnyddio gofal cofleidiol, ond eto y mater gyda'r sector nas cynhelir o hyd yw’r gost: mae gofal cofleidiol lleol yn fforddiadwy/â chymhorthdal yn parhau i fod yn fater allweddol i rieni.

7.16 Mae rhieni i blant sy’n manteisio ar eu hawl i ddeg awr ond yna’n gorfod talu am ofal cofleidiol ar ben hyn yn gallu hawlio fod cost gofal cofleidiol yn amlwg yn negyddu’r fantais o hawl i ddeg awr am ddim.

7.17 Oherwydd cost uchel gofal plant 'preifat', mae llawer o rieni yn dibynnu ar rwydweithiau teuluol anffurfiol (neiniau a theidiau bron yn llwyr) ar gyfer cymorth gofal plant. Ar gyfer rhieni sydd â’r rhwydwaith cymorth hwn ar waith, mae costau gofal plant a gweithio llawn/rhan amser yn amlwg yn llai o broblem nag ydynt ar gyfer teuluoedd nad oes ganddynt y rhwydweithiau hyn. Mae mater gofal plant anffurfiol a'r rôl a chwaraeir gan neiniau a theidiau, ffrindiau ac ati yn un sy'n gofyn am archwilio ymhellach gan Lywodraeth Cymru (gweler Dallimore, 2014)

7.18 Roedd llawer o'r teuluoedd hyn â diffyg rhwydweithiau teuluol (ac felly yn dibynnu ar ofal plant preifat) yn deuluoedd symudol, dosbarth canol a oedd wedi symud i'r ardal, neu’n fewnfudwyr newydd.

7.19 Yn arwyddocaol, bu i nifer o rieni fynegi pryder am y ‘baich’ yr oedden nhw’n ei roi ar berthnasau hŷn a dywedodd y rhain eu bod yn dymuno na fyddai rhaid iddynt fod mor ddibynnol ar deulu ag yr oeddent. Roeddent yn ddiolchgar am unrhyw fathau o ddarpariaeth oedd yn lleihau eu dibyniaeth ar y deulu.

7.20 Siaradwyd â nifer o neiniau a theidiau wrth gât yr ysgol a ddywedodd bod eu rôl mewn gofal plant yn aml yn anodd ac yn heriol iawn. Er bod y patrymau gofal anffurfiol hyn yn draddodiadol ac felly wedi’u normaleiddio mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, efallai eu bod

yn cuddio maint y problemau ym ‘marchnad’ gofal plant. Yn hanfodol, gall diffyg gofal plant fforddiadwy roi straen sylweddol ar bobl hŷn.

7.21 Nododd llawer o rieni (yn arbennig rhieni sy’n gweithio) eu bod yn cael trafferth i gael gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Adlewyrchir y galw am ryw fath o *ddarpariaeth 50 wythnos* yn y gwyliau yn yr e-arolwg (gweler Atodiad B, C.9) lle nododd 55% o'r rhieni a holwyd y byddai rhyw fath o ddarpariaeth gwyliau yn weddol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

**Asesu Gweithrediad y Cynlluniau Peilot Hyblygrwydd**

7.22 Mae'r canlynol yn asesiad cyffredinol byr o’r ffurfiau amrywiol o hyblygrwydd wrth ymateb i’r problemau (yn aml yn lleol) y cynlluniwyd iddynt eu datrys. Mae'n ystyried cryfderau a gwendidau cyffredinol pob math o ddarpariaeth hyblyg a’r gwersi a ddysgwyd yn ystod rhoi’r cynlluniau Peilot Hyblygrwydd ar waith.

7.23 Roedd llawer o'r mathau o hyblygrwydd a gynigir ar draws awdurdodau lleol yn ymateb yn uniongyrchol i’r anghyfleustra canfyddedig i rieni wrth ystyried fformat y ddarpariaeth ‘boreau yn unig’ (neu ‘brynhawniau yn unig’) ‘draddodiadol’ anhyblyg. Roedd staff yn y rhan fwyaf o leoliadau yn cydnabod fod nifer o rieni yn cael trafferth gyda’r fformat hwn.

7.24 Yn reddfol, byddai’n ymddangos mai rhyw fath o ofal cofleidiol, fforddiadwy ar y safle fyddai’r datrysiad mwyaf ymarferol i’r galw hwn, ac mae canlyniadau’r e-arolwg yn dangos fod 79% o rieni yn teimlo y byddai’r ddarpariaeth hon yn ddefnyddiol (gweler Atodiad B, C.9).

7.25 Yn wir, o’r ymdrechion amrywiol i liniaru'r broblem hon yn y sector a gynhelir, un o'r rhai mwyaf effeithiol oedd y ddarpariaeth yn yr ysgol 'flaenllaw' yn Sir Gaerfyrddin, oedd yn cynnig gofal cofleidiol ar y safle

am ffi fach. Fel yr eglura’r gwerthusiad, roedd staff a rhieni yn hapus iawn gyda'r math hwn o ddarpariaeth. Dywedodd rhieni ei fod wedi helpu eu cydbwysedd bywyd a gwaith, wedi arbed arian ar ofal plant ac wedi cynorthwyo parodrwydd ysgol eu plentyn. Teimlai staff fod y cynllun wedi bod yn hawdd i'w gweithredu, ac nad oedd wedi effeithio'n negyddol ar eu llwyth gwaith.

7.26 Fodd bynnag, byddai dichonolrwydd gweithredu darpariaeth o'r fath ar raddfa fawr yn dibynnu ar y lleoliad a'r ardal. Yn gyntaf, mae materion capasiti (h.y., a oes digon o le i ddarparu ar gyfer cyfleuster cofleidiol). Yn ail, byddai ychwanegu cyfleusterau cofleidiol yn naturiol yn cynyddu costau rhedeg y lleoliad. Yn olaf, byddai’n rhaid rhoi trefniadau diogelu ar waith i sicrhau bod y gofal a ddarperir o safon uchel.

7.27 Ateb posibl arall i'r broblem 'cofleidiol' oedd y cynllun yng Nghastell-nedd Port Talbot o ddarpariaeth addysgol diwrnod llawn. Teimlwyd bod y math hwn o ddarpariaeth yn *fwyaf* buddiol i rieni yn ein e-arolwg, gyda 89% yn nodi y byddai’n ddefnyddiol (gweler Atodiad B, C.9).

7.28 Rhoddwyd y cynllun Peilot diwrnod ar waith yn dda iawn yng Nghastell-nedd Port Talbot yn y lleoliadau oedd yn cymryd rhan ac fe’i ystyriwyd yn gadarnhaol gan staff, yr awdurdod lleol a’r rhieni.

7.29 Fel yr eglura'r adroddiad, un o'r themâu pwysicaf a ddaeth i'r amlwg o'r math hwn o hyblygrwydd oedd y canfyddiad bod darpariaeth diwrnod llawn yn cynorthwyo parodrwydd ysgol y plant. Yn ogystal â hyn, teimlai rhieni fod blociau diwrnod llawn yn gwneud eu bywydau yn haws.

7.30 Fodd bynnag, mae rhai rhybuddion y dylid eu nodi. Fel yr eglura'r adroddiad, roedd gan y dull hwn o hyblygrwydd y potensial i gynyddu

llwyth gwaith ymarferwyr, er y rheolwyd hyn yn aml yn llwyddiannus drwy creadigrwydd a sgiliau staff a’r rheolaeth mewn lleoliadau oedd yn cymryd rhan. Nid yw'n glir p’un a fyddai'n bosibl allosod y model hwn i leoliadau eraill.

7.31 Ateb amlwg i broblem y 'gofrestr clytwaith', a gododd yn ystod y math hwn o hyblygrwydd, wrth gwrs, fyddai ymestyn y ddarpariaeth deg awr am ddim a chynnig darpariaeth diwrnod llawn i bob plentyn tair oed. Roedd hyn yn gais cyffredin gan y rhieni.

7.32 Fel gyda'r syniad o ofal cofleidiol, fodd bynnag, byddai ehangu’r hawliau yn golygu costau sylweddol o ran staffio a fyddai yn codi cwestiynau ynglŷn â chapasiti a gofod. Mewn un lleoliad yng Nghastell-nedd Port Talbot arweiniodd gweithredu'r cynllun Peilot Hyblygrwydd i ddechrau at faterion capasiti, gan fod y lleoliad yn cael trafferth gyda’r nifer cynyddol o blant.

7.33 Dyluniwyd *darpariaeth oriau anghymdeithasol* hefyd yng Nghasnewydd i helpu adran benodol o rieni (e.e. gweithwyr shifft) gyda’r logisteg o gludo eu plant ar y ffordd i’r gwaith. Yn arwyddocaol, mynegodd rhieni y siaradwyd â nhw mewn awdurdodau lleol eraill eu hawydd am fath tebyg o ddarpariaeth a siaradwyd am anawsterau logistaidd acíwt sy'n wynebu gweithwyr shifft wrth geisio manteisio ar y Cyfnod Sylfaen a gofal cofleidiol.

7.34 O’r gwaith ymchwil, teimlai staff mewn lleoliadau nas cynhelir oedd yn cymryd rhan fod y math hwn o ddarpariaeth yn hylaw, er y nodwyd eto fod gan oriau agor yn gynharach y potensial i gynyddu costau staffio ac y gallai’r fformat hwn achosi problemau gyda’r rotâu.

7.35 Fel mathau eraill o hyblygrwydd, cododd *darpariaeth oriau anghymdeithasol* hefyd y mater o gael diwrnod hirach ar gyfer plant ifanc iawn. Mae'n bwysig cofio fod y cynllun hwn wedi cael ei

gyflwyno yn y sector nas cynhelir, lle’r oedd lleoliadau fel mater o drefn yn agor yn gynharach ac yn derbyn plant yn ifanc iawn fel mater o drefn, ac felly, ychydig o effaith fyddai hyn yn ei gael ar gostau staffio. Mae'n llai amlwg sut y byddai'r math hwn yn gweithio yn y sector a gynhelir.

7.36 Roedd y *ddarpariaeth a rennir* a gyflwynwyd yng Nghasnewydd wedi’i chynllunio i alluogi rhieni i fanteisio ar eu hawl am ddeg awr am ddim ar draws nifer o leoliadau. Roedd y math hwn o hyblygrwydd yn caniatáu plant i fynd i’w Meithrinfa leol, i helpu plant i gymdeithasu gyda phlant a fyddai wedyn yn mynychu’r un ysgol, a rhoi help ariannol i rieni tuag at gofal gofal plant hefyd.

7.37 Teimlwyd y rhoddwyd y ddarpariaeth hon ar waith yn dda, ac roedd rhieni a lleoliadau yn fodlon â’r ddarpariaeth. Fel y gwnaed yn glir yn y gwerthuso, ymatebodd y fformat hwn i adran fach o rieni symudol, sy'n gweithio’n symudol, nad oedd yn gallu defnyddio rhwydweithiau gofal teulu lleol ond a oedd yn awyddus i'w plentyn fynd i leoliad lleol.

7.38 Yn sicr gallai fod yn wir bod rhieni sy’n gweithio mewn rhanbarthau eraill angen yr un math o hyblygrwydd.

7.39 Cryfderau’r fformat hwn yw nad yw'n costio unrhyw beth i leoliadau ei roi, ond serch hynny mae angen bod yn wyliadwrus a sefydlu dulliau clir, strwythuredig i gyfathrebu rhwng y lleoliadau oedd yn cymryd rhan a'r awdurdod lleol/awdurdodau lleol.

7.40 Wrth ystyried allosod y math hwn i wahanol ranbarthau, dylai llunwyr polisi hefyd fod yn sensitif i'r effaith y gallai’r fformat hwn ei chael ar lwyth gwaith ymarferwyr, cymarebau staffio (e.e. plant ychwanegol ar ddiwrnodau penodol), ac ar y plant eu hunain (p’un a ydynt yn ymdopi gyda mynd i fwy nag un lleoliad ai peidio).

7.41 Roedd y *ddarpariaeth 50 wythnos* a gyflwynwyd yng Nghasnewydd yn caniatáu i rieni a plant fanteisio ar eu hawl ar draws y flwyddyn gyfan. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu bod plant yn cael cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn ystod gwyliau'r ysgol ac nad oedd rhieni yn agored i gynnydd mewn costau yn ystod y gwyliau ysgol.

7.42 Roedd staff yn y lleoliadau hyn yn honni fod y math hwn o ddarpariaeth yn gweithio'n dda, ac yn dweud na chafwyd unrhyw gostau ychwanegol yn ymwneud â’r fformat hwn. Unwaith eto, cyflwynwyd y math hwn o ddarpariaeth yn y sector nas cynhelir lle mae ddarpariaeth gwyliau yn arferol. Mae'n llawer llai amlwg sut y byddai'r cynllun hwn yn gweithio yn y sector a gynhelir, lle mae galw clir am ryw fath o ddarpariaeth gwyliau.

7.43 Roedd darpariaeth y *gweithwyr cyswllt teulu* a roddwyd ar waith yn Sir Ddinbych yn wahanol iawn i bob math arall o hyblygrwydd, ac yn wir yr oedd wedi'i chynllunio i wella safonau addysgol drwy gefnogi 'parodrwydd ysgol' (yn hytrach na helpu rhieni sy'n gweithio).

7.44 Bu’r cynllun yn hynod lwyddiannus yn ei nod o wella parodrwydd ysgol a chafodd lawer o ganmoliaeth gan ymarferwyr, rhieni a'r awdurdod lleol.

7.45 O gofio bod llawer o ysgolion eraill yn awyddus i adeiladu perthynas gryfach â'u cymuned leol, roedd defnyddio *gweithwyr cyswllt teulu* yn opsiwn realistig. Yr unig broblem bosibl a nodwyd yn y gwerthusiad oedd llwyth gwaith uchel y gweithwyr cyswllt teulu eu hunain a chost cyflogi *gweithwyr cyswllt teulu.*

7.46 Teimlwyd bod y fenter ‘athro cysylltiedig’ 10% yn Sir Ddinbych hefyd yn llwyddiant, ac mae ganddo botensial i gael ei ymestyn i ranbarthau gyda lleoliadau nas cynhelir fwyaf, yn enwedig lle maent yn parhau i weithredu’n beripatetig.

**Effaith ar Staff a Lleoliadau**

7.47 Rhaid i ystyriaethau o lwyth gwaith ymarferwyr fod yn ganolog i unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol wrth gynnig darpariaeth hyblyg. Er yn hanfodol, mae'n rhaid cydbwyso gofynion rhieni ac anghenion yn erbyn materion yr ochr gyflenwi. Dylai lefelau staffio a chymarebau oedolyn:plant y Cyfnod Sylfaen a argymhellir fod yn ganolog i gynllunio darpariaeth hyblyg.

7.48 Yn gyffredinol, ni chanfuwyd fod rhoi’r cynlluniau Peilot Hyblygrwydd ar waith wedi rhwystro rhoi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith, a welwyd yn cael ei ddarparu’n dda yn gyffredinol ar draws y lleoliadau astudiaeth achos yn y pedwar awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nodi bod ymarferwyr yn deall bod *potensial* i rai mathau o hyblygrwydd effeithio ar roi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith, yn enwedig os oedd y galw am ddarpariaeth hyblyg i dyfu.

7.49 Mae hefyd yn bwysig nodi bod rhai lleoliadau/ysgolion yn honni nad oeddent yn cael digon o gymorth neu arweiniad gan awdurdodau lleol naill ai am nodau’r cynllun Peilot Hyblygrwydd neu sut i'w roi ar waith. Mae llwyddiant darpariaeth hyblyg yn y dyfodol yn dibynnu ar allu'r awdurdod lleol i hysbysu a mentora lleoliadau yn briodol am nodau ac amcanion y ddarpariaeth newydd, a i gynnig cyngor ar sut i’w roi ar waith ac i fonitro ansawdd y ddarpariaeth.

7.50 Byddai angen i awdurdodau lleol hefyd ystyried sut maen nhw’n hysbysebu argaeledd darpariaeth hyblyg i rieni. Ymddengys fod amrywiaeth sylweddol yn y systemau ac yng ngallu’r awdurdodau lleol i hysbysu rhieni am ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen y blynyddoedd cynnar. Byddai cynnig darpariaeth hyblyg yn dwysáu’r gwahaniaethau hyn.

7.51 Hefyd mae dulliau a gallu ysgolion o ran cyfathrebu gwybodaeth i rieni yn amrywio'n fawr. Canfu'r gwerthusiad y gallai'r anghysondeb hwn wrth gyfleu argaeledd cynlluniau Peilot Hyblygrwydd arwain yn rhannol at lefelau anghyson o ran defnydd.

7.52 Mae gan rhai mathau o hyblygrwydd y potensial i gynyddu llwyth gwaith rhai o'r staff. Mewn sefyllfaoedd lle roedd plant meithrin yn cael eu hintegreiddio i ddosbarthiadau Derbyn, dywedodd rhai aelodau staff fod hyn wedi cynyddu eu llwyth gwaith. Mathau eraill o hyblygrwydd a allai gynyddu llwyth gwaith o bosibl oedd y *ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* (ac effaith y gofrestr clytwaith), *darpariaeth oriau anghymdeithasol* a *darpariaeth a rennir.*

**Effaith ar Rieni**

7.53 Roedd y rhan fwyaf o rieni oedd yn cymryd rhan mewn darpariaeth hyblyg yn fodlon iawn gyda'r hyn oedd yn cael ei gynnig. Yn gyffredinol nodwyd fod y cynlluniau Peilot wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cydbwysedd gwaith/bywyd a'i fod yn aml wedi helpu eu trefniadau gofal plant. Dywedodd 76% o'r rhieni yn ein e-arolwg fod yr hyblygrwydd wedi helpu eu trefniadau gweithio a gofal plant (gweler Atodiad B, C. 5).

7.54 Yn gyffredinol, nododd y rhieni fod y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd wedi bod er budd ‘parodrwydd ysgol’ eu plant, gyda 89% o'r rhieni yn yr e-arolwg yn datgan bod y ddarpariaeth hyblyg wedi helpu eu plentyn (gweler Atodiad B. C.7).

7.55 Yn gyffredinol yn ein e-arolwg, roedd 93% o rieni yn teimlo bod y ddarpariaeth hyblyg wedi bod yn ddefnyddiol (gweler Atodiad B, C. 6).

7.56 Fel y trafodwyd yn yr adroddiad drwyddo draw, gwelwyd ei bod yn ymddangos fod rhieni sy’n gweithio a rhieni nad ydynt yn gweithio yn elwa ar y ddarpariaeth hyblyg.

7.57 Cyfyngiad ar y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd oedd yr ansicrwydd ymysg rhieni am gynaliadwyedd ac argaeledd darpariaeth hyblyg hirdymor. Efallai bod nifer o blant nad oeddent wedi ymgysylltu’n dda gyda rhywbeth yr oeddent yn credu oedd dros dro y unig, gan ffafrio cadw at eu trefn arferol yn lle hynny.

7.58 Mae lefelau isel o gyfranogiad mewn mathau eraill (e.e. *darpariaeth a rennir* a *darpariaeth oriau anghymdeithasol*) yn syml yn adlewyrchu’r swm bach o rieni yn ardaloedd y cynlluniau peilot hyblyg ag amgylchiadau oedd yn mynnu’r math hwn o hyblygrwydd yn y lle cyntaf.

**Effaith ar Blant**

7.59 Mater canolog wrth werthuso effaith y gwahanol fathau o hyblygrwydd yw ystyried yr effaith maen nhw’n ei gael ar blant. Fel eu rhieni, mae gan blant anghenion cymhleth, ac mae eu datblygiad (cymdeithasol ac addysgol) yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Fel oedd yn glir o’n trafodaethau ag ymarferwyr, gall gwahanol fathau o hyblygrwydd effeithio ar grwpiau gwahanol o blant mewn gwahanol ffyrdd.

7.60 Roedd mathau o ddarpariaeth diwrnod llawn (e.e. gyda *darpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* neu *darpariaeth oriau anghymdeithasol)* yn ymateb cyffredin i anghyfleustra’r fformat ‘traddodiadol’. Mynegodd llawer o rieni y siaradodd y tîm ymchwil â nhw eu hawydd am ryw fath o ddarpariaeth diwrnod llawn ar gyfer eu plant.

7.61 Ac eto mae'n hanfodol ystyried p'un a yw unrhyw fath o ddarpariaeth diwrnod llawn, yn enwedig ddarpariaeth *addysgol* diwrnod llawn, yn briodol ar gyfer plant ifanc yn y lle cyntaf. Yn ystod yr ymchwil, daethom ar draws ddadleuon sy'n gwrthdaro ynghylch addysg diwrnod llawn *gofal cofleidiol* a *darpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner* (Cyfnod Sylfaen) gan rai ymarferwyr.

7.62 Er enghraifft, dywedodd un uwch athro mewn ysgol mewn ardal ddifreintiedig fod plant â chefndiroedd teuluol anhrefnus yn elwa ar amser cyswllt ychwanegol oherwydd y cymerwyd yn ganiataol na fyddent yn cael lefelau priodol o addysg, cymorth a chymdeithasoli yn y cartref. Dywedodd yr un ymarferydd am bwysigrwydd *trefn* ac roedd yn teimlo na fyddai unrhyw ffurfiau o hyblygrwydd (e.e.*darpariaeth a rennir)* sydd yn amharu ar y drefn honno yn briodol i blant o’r cefndiroedd penodol hyn.

7.63 Ond roedd ymarferwyr eraill yn hawlio na allai plant ifanc ymdopi â threulio diwrnod llawn mewn addysg a/neu gofal, a bod cyfnodau hir fel y cyfryw mewn lleoliadau yn niweidiol i blant. Roeddent yn dadlau y dylai plant dreulio *mwy* o amser gyda'u teuluoedd yn ystod oedran cyn ysgol, nid llai.

7.64 Roedd y rhan fwyaf o rieni yn honni bod eu plant wedi elwa o gyswllt ychwanegol, gan helpu eu 'parodrwydd ysgol'. Fodd bynnag, mae’n bosibl fod problem yma ynghylch beth yn union a olygir gan 'barodrwydd ysgol'. Roedd rhieni yn deall fod hyn yn ymwneud â hyder cyffredinol a chymdeithasgarwch i raddau helaeth yn hytrach na chynnydd addysgol a gwybyddol y plentyn.

7.65 Problem arall gyda chanfyddiadau’r rhieni yw fod ‘parodrwydd ysgol’ cyffredinol yn gwella gydag oedran – felly mae i ba raddau y mae cymryd rhan mewn darpariaeth hyblyg yn *ychwanegu gwerth* at sut fyddai parodrwydd ysgol plentyn wedi gwella beth bynnag yn llai clir.

7.66 Er gwaethaf hyn, o’n arsylwadau cipolwg ar ystafelloedd dosbarth ni ganfu’r gwerthusiad unrhyw effaith negyddol ar blant oedd yn cymryd rhan yn nhermau eu cyfranogiad mewn addysgu neu eu lles gwrthrychol (gweler Atodiad C).

7.67 Wrth gwrs mae datblygiad cynnar plant yn ffenomen gymhleth iawn ac mae ystyried effaith y ddarpariaeth hyblyg hon ar hyn yn llawn y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn. Ond serch hynny, dylai llunwyr polisi ystyried tystiolaeth fwy cadarn arall wrth asesu’r galw am hyblygrwydd sy’n golygu mathau o ddarpariaeth diwrnod llawn.

7.68 Un ateb posibl i reoli’r mater hwn fyddai cynnig cymeriant cynyddol neu raddol, lle byddai plant yn adeiladu at ddiwrnod llawn yn eu tymor olaf, yn hytrach na mynd yn syth i ddarpariaeth diwrnod llawn o ddechrau au haddysg cyn ysgol. Cryfder allweddol rhai o'r lleoliadau/ysgolion lle rhoddwyd addysg diwrnod llawn neu ofal cofleidiol ar waith oedd eu sensitifrwydd ar y mater hwn – galluogwyd plant i gynyddu eu cyswllt yn raddol neu ddod oddi ar y ddarpariaeth os oeddent yn cael trafferth. Dylai'r hyblygrwydd a'r ddealltwriaeth hon fod yn sail i’r holl fentrau yn y dyfodol.

7.69 Mae’r mater hwn yn cael ei ddwysau ymhellach gan wahaniaethau pwysig eraill ymysg y plant – megis cefndir teuluol a thymor geni. Unwaith eto, dylai unrhyw ddarpariaeth hyblyg yn y dyfodol fod yn sensitif i’r anghenion amrywiol a'r cyd-destunau hyn.

7.70 Pwysleisiodd llawer o ymarferwyr bwysigrwydd *trefn* yn natblygiad cymdeithasol ac addysgol plant. Fodd bynnag, drwy ddiffiniad mae’r rhan fwyaf o fathau o ddarpariaeth hyblyg yn tueddu i darfu ar y syniad o drefn ddyddiol. Unwaith eto, dylid ystyried hyn wrth gynllunio a gweithredu mathau o hyblygrwydd; a yw’r math arfaethedig o hyblygrwydd yn debygol o amharu ar drefn addysgol plant? A yw’n ei wella? Neu a yw'n cael unrhyw effaith?

7.71 Nid yw’n syndod mai menter y *gweithwyr cyswllt teulu* oedd yn cael ei ystyried yr ymyriad mwyaf effeithiol o ran gwella ‘parodrwydd ysgol’ a chefnogi plant sydd mewn perygl. Fodd bynnag, yr ymagwedd hon oedd angen y mwyaf o adnoddau, a hyd yn oed wedi cyflogi staff ychwanegol i gyflawni'r swyddogaeth hon mae’r graddau y gellir treulio’r amser angenrheidiol gyda phlant a’u rhieni braidd yn gyflawni, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig.

7.72 Serch hynny, mae gweithwyr cyswllt teulu yn gysylltiad defnyddiol iawn rhwng teuluoedd ac ysgolion a lleoliadau. Hefyd, roedd rhywfaint o dystiolaeth bod y dull hwn wedi cynyddu cyfranogiad yn y Cyfnod sylfaen ar oedran Meithrin (er y dylid nodi y gallai hyn adlewyrchu cyfraddau cymharol isel o gyfranogiad yn y meysydd hyn o'r blaen).

# 8 Materion Pellach

8.1 Drwy gydol y gwerthusiad, daeth rhai materion eraill i'r amlwg yn ymwneud ag addysg y blynyddoedd cynnar ac anghenion rhieni yn fwy cyffredinol. Mae'r materion hyn yn tueddu i ymestyn y tu hwnt i gwmpas ffocws y gwerthusiad ar ddarpariaeth hyblyg, ond serch hynny, ymddengys eu bod yn faterion cyd-destunol pwysig y gellid eu hystyried ymhellach gan wneuthurwyr polisi yng Nghymru.

**Niferoedd Isel yn Manteisio ar eu Hawl a'r Ddarpariaeth Hyblyg**

8.2 Un o amcanion y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd oedd gwella'r nifer sy'n manteisio ar yr hawl i addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen am ddim i blant tair i bedair mlwydd oed – i gael plant a oedd gynt 'y tu allan i'r system' mewn i addysg y blynyddoedd cynnar fel y gallant elwa ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

8.3 Mae mesur llwyddiant hyn yn y gwerthusiad hwn wedi bod yn anodd am nifer o resymau, yn enwedig amserlen y cynlluniau Peilot. Ond yn bwysicach, ymddengys fod y rhieni a gyfwelwyd fel cyfranogwyr yn y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd i gyd bron naill ai wedi bod 'yn y system' eisoes neu y byddent wedi manteisio ar eu hawl p'un a oedd unrhyw ddarpariaeth hyblyg ai beidio.

8.4 Serch hynny, dywedodd dau o'r 126 o rieni a gyfwelwyd neu a arolygwyd y byddent wedi cadw eu plentyn y tu allan i'r Feithrinfa nes iddynt gyrraedd oedran statudol heb hyblygrwydd cynyddol y ddarpariaeth; gan gydnabod y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd wrth ystyried cyflwyno eu plant i addysg:

> "Os nad fyddai'n hyblyg ni fyddai fy mhlentyn yn gallu mynd i'r Feithrinfa oherwydd fy ymrwymiadau gwaith." (Rhiant)

8.5 Er mai nifer a chyfran cymharol isel o rieni a ddywedodd hyn, mae hyn yn dueddol o adlewyrchu'r lleiafrif cyffredinol bach o rieni nad ydynt yn defnyddio eu hawl am ddim.

8.6 Ond efallai yn groes i'r graen, roedd hi'n ymddangos mai menter y *gweithiwr cyswllt teulu* a gynigodd yr effaith fwyaf posibl ar niferoedd – menter nad oedd yn ymwneud yn fawr â chynnig darpariaeth Cyfnod Sylfaen. Wrth gymryd rhan mewn ymyriadau i ymgysylltu parodrwydd ysgol, roedd y gweithwyr cyswllt hefyd yn rhoi sylw i'r mater o niferoedd isel oedd yn manteisio ar eu hawl i leoedd drwy addysgu rhieni'n systematig am eu hawl.

8.7 Er y gallai hyn adlewyrchu'r cyd-destunau a'r ardaloedd penodol lle cyflwynwyd y fenter hon mae'n amlygu pwysigrwydd cefnogaeth a darpariaeth treiddgar wedi'u targedu y mae rhieni na fyddai'n defnyddio eu hawl am ddim eu hangen. Mewn geiriau eraill, roedd y gweithwyr cyswllt teulu mewn gwirionedd yn cynrychioli'r dull gorau o gyrraedd y rhieni hynny a oedd 'allan o'r system'.

8.8 Roedd yr awdurdodau lleol eraill i gyd yn chwilio am ffordd o gyrraedd y rhieni oedd 'allan o'r system', a waeth pa fath o ddarpariaeth hyblyg yr oeddent yn ei chynnig os na allent nodi a cyfathrebu gyda rhieni posibl o'r fath, yna mae'n annhebygol bod eu math o ddarpariaeth hyblyg yn debygol o gael unrhyw effaith fawr ar y lleiafrif o rieni nad ydynt yn defnyddio eu hawl am ddim i'r Cyfnod Sylfaen. Gall hyn fod yn arbennig o wir mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar y sector nas cynhelir a ariennir i gynnig darpariaeth oedran Meithrin.

8.9 O ystyried y gwahanol safbwyntiau ynghylch y galw am hyblygrwydd a welwyd drwy gydol y gwerthusiad, mae angen amlwg i egluro'r rhesymau y tu ôl i'r canfyddiad bod diffyg defnydd mewn addysg cyn ysgol yn y lle cyntaf. Er enghraifft, ydy'r materion hyn yn ymwneud â'r ochr gyflenwi, fel mae'r cynllun Peilot yn ei dybio i raddau helaeth. Gallai hyn gynnwys diffyg hyblygrwydd gan ddarparwyr y Cyfnod

Sylfaen, neu ddiffyg gofal plant arall i ategu darpariaeth y Cyfnod Sylfaen.

8.10 Neu a yw peidio defnyddio yn fater ar yr ochr alw. Gallai hyn gynnwys diffyg ymwybyddiaeth ymysg rhieni am eu hawl am ddim neu ddiffyg gwybodaeth am fanteision addysg y blynyddoedd cynnar. Ond gallai hefyd gynnwys penderfyniadau eglur a rhesymegol dros beidio cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen hyd at oedran gorfodol ysgol.

8.11 Gallai ffactorau mwy strwythurol fod yn set bellach o esboniadau. Gallai hyn gynnwys diffyg hyblygrwydd ymhlith cyflogwyr o ran caniatáu rhieni i fanteisio ar eu hawl am ddim neu strwythur y farchnad lafur mewn ardaloedd penodol sy'n fwy dibynnol, er enghraifft, ar weithio sifftiau neu ar fwy nag un swydd.

8.12 Yn ôl pob tebyg, bydd y ffactorau sy'n cyfrannu at riant yn peidio â manteisio ar addysg cyn ysgol yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob rhiant a'u hardal leol. Efallai y bydd angen ymchwil mwy helaeth gyda'r nifer fechan o rieni sy'n dewis peidio ag cyflwyno'u plant i addysg cyn ysgol o hyd er mwyn helpu i gryfhau ein dealltwriaeth o'r mater hwn.

8.13 Serch hynny, efallai mai nid datrysiad neu bolisi 'cenedlaethol' yw'r ffordd fwyaf briodol o gynyddu cyfranogiad yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair i bedair mlwydd oed. Efallai nad yw cynnig hawl llawn amser am ddim yn ateb syml hyd yn oed. Bydd rhai ymarferwyr a rhieni yn wyliadwrus ynghylch caniatáu i'w plant tair mlwydd oed fynychu darpariaeth Cyfnod Sylfaen llawn amser.

**Gofal neu Addysg**

8.14 Mynegodd rhai ymarferwyr bryderon ynghylch canfyddiadau rhieni o'r Cyfnod Sylfaen cyn ysgol. Yn benodol, roeddent yn teimlo bod llawer

o rieni yn ei weld fel math o ofal plant. At hynny, roedd rhai ymarferwyr yn pryderu na ddylai 'hyblygrwydd' arwain at ddirywiad yn ansawdd y ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen, na ddylid defnyddio athrawon fel gwarchodwyr plant, ac na ddylai ysgolion ddod yn fath o creche.

8.15 Datgelodd ymchwil gyda rhieni ddarlun mwy cymhleth o ran eu barn am y gwahaniaeth rhwng gofal plant a'r Cyfnod Sylfaen cyn ysgol. Dywedodd llawer o rieni y byddent yn hoffi i'w plentyn fanteisio ar ddarpariaeth diwrnod llawn cyn gynted ag y bydd yn troi yn dair mlwydd oed, ond ym aml nid oedd yn glir p'un a oedd y galw hwn yn seiliedig ar eu hangen eu hunain am ofal plant neu ar gred y byddai cyswllt ychwanegol yn cynorthwyo 'parodrwydd ysgol' ac addysg eu plentyn.

8.16 Fel y dangosodd y gwerthusiad, credai llawer o rieni fod y cynlluniau Peilot Hyblygrwydd wedi bod o fudd i addysg a chymdeithasoli eu plant, yn enwedig y mathau hynny a arweiniodd at oriau cyswllt ychwanegol. Hynny yw, mae'n amlwg nad oeddent yn ystyried fod y cynllun peilot yn eu helpu nhw fel rhieni yn unig, ac yn amlwg roeddent yn ymwybodol o fanteision y Cyfnod Sylfaen (h.y. fel darpariaeth addysgol yn hytrach na darpariaeth gofal plant).

> "Rydym yn rhieni sy'n gweithio ac sy'n credu bod darpariaeth cyn ysgol yn eithriadol o bwysig i ddysgu yn y dyfodol". (Rhiant)

8.17 Yn bwysicach na hynny, gwelodd rhai rhieni wahaniaeth clir rhwng gofal ac 'ysgol', ac roeddent yn ffafrio'r agweddau cymdeithasoli a ddaeth gyda'r 'leoliad ysgol' yn arbennig.

> "Roeddwn yn teimlo'n well o wybod bod fy merch 'yn yr ysgol' yn hytrach nag yn y feithrinfa/ gyda gwarchodwyr. Roedd hi'n dysgu ac yn cael hwyl. Pan fydd plant yn cyrraedd oedran

penodol dim ond hyn a hyn o symbyliad y gallwch ei roi iddynt yn y cartref ac ysgol yw'r cyfle gorau iddynt ddysgu a chymysgu gyda ffrindiau o oedran cynnar a fydd ganddynt drwy gydol eu bywydau ysgol - ni allaf ganmol y ddarpariaeth hon ddigon”. (Rhiant)

"Roeddem am iddo fod o gwmpas grŵp o blant yn hytrach na chael nani neu warchodwr plant". (Rhiant)

8.18 Ychydig o rieni yn unig a nododd y Cyfnod Sylfaen yn benodol, gan amlygu lefel bellach o wybodaeth a dealltwriaeth y disgwylir i rieni plant ifanc eu cael.

"Roedd fy merch wedi mwynhau'r Cyfnod Sylfaen yn fawr ac roedd y cynllun yn hynod o hyblyg i rieni sy'n gweithio." (Rhiant)

"Mae fy mhlentyn yn manteisio ar fwy o’r Cyfnod Sylfaen nag o’r blaen." (Rhiant)

"Mae fy mab yn manteisio ar fwy o ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen... credaf ei fod yn rhedeg yn berffaith. Mae staff a chymorth yn dda iawn ac yn hyblyg iawn." (Rhiant)

8.19 Tra roedd rhai rhieni wedi nodi gwahaniaeth clir rhwng gofal plant a'r Cyfnod Sylfaen, mae'n werth ystyried tebygrwydd barn y rhieni mewn un lleoliad yn Sir Gaerfyrddin (gyda *darpariaeth cofleidiol* ar y safle) ac mewn lleoliad arall yng Nghastell-nedd Port Talbot (gyda *darpariaeth diwrnod llawn* neu *dau-ddiwrnod-a-hanner* (Cyfnod Sylfaen)). Er fod y ddau leoliad hyn gynnig mathau gwahanol iawn o ddarpariaeth, roedd y ddwy set o rieni yn siarad mewn termau tebyg iawn am wella 'parodrwydd ysgol' (e.e. hyder, mwy o annibyniaeth, cymdeithasgarwch). Mae hyn yn awgrymu bod barn y gall plant ifanc

gael manteision addysgol a chymdeithasol tebyg o 'gyswllt ychwanegol’, waeth beth fo’r 'gofal' neu’r 'addysg' hwn.

8.20 Cymhlethir y darlun hwn ymhellach gan y ffaith bod llawer o ddarparwyr gofal plant nas cynhelir ‘preifat’ yn eithaf tebygol o roi elfennau o’r Cyfnod Sylfaen ar waith yn eu darpariaeth.

8.21 Mae angen ystyried y gwahaniaeth rhwng gofal plant ac addysg y Cyfnod Sylfaen ymhellach, yn enwedig o ran annog mwy o rieni i ddefnyddio eu hawl am ddim i’r Cyfnod Sylfaen, ar ben hynny, dylid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i’r cydbwysedd rhwng gofal plant a darpariaeth y Cyfnod Sylfaen, gan nodi y cynlluniwyd y Cyfnod Sylfaen i gynnwys cydbwysedd rhwng addysg a ‘chwarae’ dan gyfarwyddyd eisoes.

8.22 Byddai hefyd yn fuddiol ystyried y berthynas rhwng gofal plant, addysg a’r Cyfnod Sylfaen yng nghyd-destun y rhaglen Dechrau'n Deg, i sicrhau bod rhieni yn ymwybodol ac yn gyfarwydd â’r gwahaniaeth rhyngddyn nhw a bod darpariaeth barhaus rhwng y gofal plant cynnar o ansawdd a’r Cyfnod Sylfaen.

**Mynediad at y Farchnad Lafur**

8.23 Ni ddywedodd neb bron o’r 126 o rieni a gyfwelwyd neu a arolygwyd fod y ddarpariaeth hyblyg wedi’u galluogi i fanteisio ar y farchnad lafur, efallai oherwydd eu bod wedi’u cyfyngu gan amserlen y cynllun Peilot a gan yr ansicrwydd o ran ei argaeledd yn y dyfodol.

8.24 Fodd bynnag, dywedodd rhai rhieni nad oeddent yn gweithio bod fformat y ddarpariaeth 'draddodiadol' (h.y. boreau *neu* brynhawniau), gyda theithio cyson yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, yn ei gwneud yn anodd dod o hyd i swydd.

8.25 Roedd rhieni eraill yn awgrymu bod rhyw fath o ddarpariaeth diwrnod llawn yn golygu bod dychwelyd i'r gwaith yn fwy ymarferol iddyn nhw gan ddefnyddio’r ddarpariaeth hyblyg nag oedd gyda darpariaeth 'draddodiadol'.

> "Roedd diwrnod llawn yn llawer mwy cyfleus oherwydd mae gen i blentyn blwydd hefyd, ac roeddwn i’n arfer bod yn ôl ac ymlaen … pe byddem yn mynd yn ôl i ddiwrnodau llawn gallwn wneud dau ddiwrnod o waith yn hytrach na shifftiau nos..." (Rhiant nad yw’n gweithio)

8.26 Dywedodd un rhiant hefyd na fyddent wedi gallu parhau mewn gwaith heb y ddarpariaeth hyblyg.

> "Pan oeddwn i'n gweithio roedd y feithrinfa hyblyg yn gymorth enfawr i ni oherwydd galluogodd i mi weithio … fel arall byddai’n rhaid i mi fod wedi rhoi'r gorau yn y fan a'r lle oherwydd na allwn fforddio gofal plant ar gyfer y cludo a’r casglu... byddai wedi bod yn llawer drutach..." (Rhiant)

8.27 Un rhiant yn unig, a oedd yn gweithio rhan-amser, a ddywedodd fod y ddarpariaeth hyblyg wedi eu galluogi i ddychwelyd i waith amser llawn.

> "Fel gweithiwr rhan amser roedd cael yr opsiwn o roi’r holl oriau gyda'i gilydd ynghyd â gofal cofleidiol (h.y., y tu allan i oriau ysgol) yn caniatáu i mi ddychwelyd i'r gwaith". (Rhiant)

8.28 Dywedodd rhieni eraill fod y blociau diwrnod llawn o ddarpariaeth yn ddefnyddiol gan ei fod yn golygu y gallent gadw eu statws neu oriau gwaith yn hytrach na lleihau eu horiau neu adael y gwaith:

> "Rwyf wedi gallu cadw fy oriau gweithio fel rheolwr yn ogystal â lleihau diwrnodau fy mhlentyn mewn meithrinfa breifat...

Mae’r diwrnodau llawn wedi gwella canolbwyntio fy mhlentyn. Pe byddai’n dod i ben byddai'n golygu lleihau fy oriau gwaith a mwy o amser mewn meithrinfa breifat". (Rhiant sy’n gweithio)

"Mwy o amser yn yr ysgol: mae fy mhlentyn wrth ei fodd ac oherwydd bod fy mhartner yn gweithio shifftiau mae’n well iddo fo gan ei fod yn cael mwy o gwsg". (Rhiant)

8.29 At hynny, dywedodd rhai rhieni hunangyflogedig fod mwy o hyblygrwydd yn caniatáu iddynt fod yn fwy cynhyrchiol neu i gyflawni mwy o waith nag o'r blaen.

8.30 Felly er nad yw fformat y ddarpariaeth ‘draddodiadol’ yn cyfyngu mynediad at y farchnad lafur yn llwyr, mae rhai mathau o ddarpariaeth hyblyg yn creu hinsawdd mwy ffafriol ar gyfer manteisio ar y farchnad lafur. Wrth gwrs dylid nodi, fodd bynnag, bod ffactorau eraill, llawer mwy sylweddol, na darpariaeth cyn ysgol sy'n cyfyngu ar fynediad i'r farchnad lafur.

**Cyfathrebu a Gwybodaeth i Rieni**

8.31 Canfu'r gwerthusiad bod gwahanol awdurdodau lleol, a gwahanol leoliadau/ysgolion ym mhob awdurdod lleol hyd yn oed wedi mabwysiadu strategaethau gwahanol ar gyfer rhoi gwybod i rieni am y Peilot Hyblyg. Roedd hefyd yn amlwg bod rhai strategaethau yn ymddangos i fod yn fwy effeithiol nag eraill. Ond daeth yn glir hefyd drwy gydol y gwerthusiad bod rhieni’n dysgu am safon yr hawl i’r Cyfnod Sylfaen am ddim (h.y., y deg awr am ddim) mewn ffyrdd gwahanol iawn hefyd.

8.32 Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi clywed hyn gan y lleoliadau/ysgolion, ac eraill gan rieni eraill neu ymwelwyr iechyd. Ond yr hyn oedd yn ymddangos yn amlwg oedd diffyg unrhyw ffordd systematig o hysbysu'r rhieni ynghylch eu hawl. Byddai hyn yn

ymddangos i fod hyd yn oed yn fwy hanfodol os byddai natur yr hawl honno yn newid ac yn fwy hyblyg (h.y. a gyda mwy o ddewisiadau).

8.33 Byddai gwybodaeth o'r fath yn cynnwys ystod eang o bynciau, nid yn unig eu hawl i'r Cyfnod Sylfaen, a p'un a yw hynny yn cael ei ddarparu mewn ysgolion a gynhelir neu yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Byddai hefyd angen cynnwys gwybodaeth ynglŷn â manteisio ar fathau eraill o ofal plant cofleidiol, gwybodaeth am sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn wahanol i ofal plant safonol, a beth yw manteision addysg y blynyddoedd cynnar.

8.34 Mae nifer o strategaethau y gellid eu defnyddio i gyfathrebu'r gwybodaeth hanfodol hwn i rieni: gwefan ganolog bwrpasol waeth ble yng Nghymru mae rhieni yn byw; ymgyrchoedd hysbysebu ar y teledu, ar y radio ac wedi'u argraffu; y defnydd o gyfryngau cymdeithasol; cyflogi gweithwyr cyswllt teulu, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

8.35 Yr hyn oedd yn glir, fodd bynnag, oedd y byddai llawer o rieni, waeth beth fo'u cefndir, yn hoffi rhyw fath o gymorth proffesiynol ac arbenigol, sydd wedi'i deilwra, wrth wneud penderfyniadau priodol ynghylch eu dewisiadau cyn ysgol ar gyfer eu plant.

8.36 Mantais bellach o'r math hwn o gymorth, fel hwnnw a roddir gan y gweithwyr cyswllt teulu yn Sir Ddinbych, yw y gallai helpu hefyd i sefydlu perthnasoedd gweithio a dulliau cyfathrebu cadarnhaol rhwng rhieni a staff y feithrinfa cyn ysgol (yn enwedig yn y sector nas cynhelir) ac ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn y flwyddyn Derbyn. Byddai hyn yn helpu ymarferwyr y flwyddyn Derbyn nodi ar gam cynnar pa blant sydd fwyaf 'mewn perygl' a pha lefelau/mathau o gefnogaeth addysgol y byddai eu plant angen cyn iddynt ddechrau yn y dosbarth Derbyn.

## Cyfeiriadau


Dallimore, D (2014) ‘Informal Childcare and Childcare Choice in Wales: Policy Implications’ Papur a gyflwynwyd yng nghynhadledd WISERD 2014, Prifysgol Aberystwyth. 2-4 Gorffennaf 2014 (ar gael ar-lein ar www.childreninwales.org.uk/wp-content/uploads/2014/10/David-Dallimore.pdf)

Harkness, S. and Skipp, A. (2013) *Lone Mothers, Work and Depression*. Llundain: Sefydliad Nuffield.

Hirsch, D. (2008) *Estimating the Costs of Child Poverty*. Efrog: Joseph Rowntree Foundation

Ipsos MORI (2012) *Exploring the flexibility of the free entitlement to early education: research among parents, DfE Research Report DFE-RR217*. Llundain: Adran Addysg

Cyngor Dinas Plymouth (2011) *Observing Learning, Playing and Interacting in the EYFS: Leuven well being and involvement scales*. Plymouth: Cyngor Dinas Plymouth.

Sefydliad Polisi Cyhoeddus ar gyfer Cymru (2015) *Opsiynau Polisi Gofal Plant ar gyfer Cymru.*

Smith, R., Poole, E., Perry, J., Wollny, I. and Reeves, A. (2009) *Childcare and Early Years Survey of Parents 2009, Research Report DFE-RR054*. Llundain: Adran Addysg.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S. Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2015). *Evaluating the Foundation Phase: Final Report, Social Research No. 25/2015*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2010) *Arolwg Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru 2009: Prif Adroddiad* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013) *Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

WInckler, V. (Gol.) (2009) *Materion Cydraddoldeb yng Nghymru: adolygiad ymchwil.* Manceinion: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## Atodiad A. Gwybodaeth Sylfaenol a Gasglwyd gan Awdurdodau Lleol y Cynllun Peilot gan Lywodraeth Cymru

| | CASNEWYDD | SIR GAERFYRDDIN | CASTELL-NEDD PORT TALBOT | DINBYCH |
|---|---|---|---|---|
| Sawl plentyn 3 a 4 mlwydd oed sy'n byw yn eich awdurdod? | 3891 (amcangyfrif) | Rhagor o wybodaeth i ddilyn o'r ffigurau union ar draws Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin | 1542 (Amcangyfrif Canol Blwyddyn Cofrestrydd Cyffredinol 2012 o drigolion 2 flwydd oed), plant 4 Mlwydd Oed - 1510 (Amcangyfrif Canol Blwyddyn Cofrestrydd Cyffredinol 2012 o drigolion 3 mlwydd oed) | Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2012 yw'r data diweddaraf sydd gennym. Rhoddodd hyn 2,167 o blant 3 neu 4 mlwydd oed allan o boblogaeth o 94,044 yn y Sir. |
| Beth yw eich cynnig blynyddoedd cynnar presennol?<br>Oriau yr wythnos<br>Dyddiau yr wythnos | 12.5 awr yr wythnos<br>Lleoliadau nas cynhelir (Meithrinfeydd Gofal Dydd Preifat / Cylchoedd Chwarae Preifat) - 3 sesiwn gofynnol ac uchafswm o 5 sesiwn yr wythnos dros 5 diwrnod; Lleoliadau (ALl) a gynhelir - o leiaf 5 sesiwn yr wythnos dros 5 diwrnod. | Mae lleoliadau a gynhelir yn cynnig darpariaeth addysgol rhan amser a llawn amser am 5 diwrnod yr wythnos dros 39 wythnos.<br><br>Mae lleoliadau nas cynhelir yn cynnig 10 awr o ddarpariaeth addysgol am ddim dros o leiaf 4 diwrnod yr wythnos, dros nifer cytunedig o wythnosau, tua 36 wythnos. | 2.5 awr bob dydd<br>5 diwrnod yr wythnos | 10 awr yr wythnos<br>dros 4 neu 5 diwrnod |
| Wythnosau y flwyddyn | 39 wythnos y flwyddyn | | yn ystod y tymor | 39 wythnos |
| **Ar gyfer pob lleoliad:** | | | | |
| Faint o blant 3 a 4 mlwydd oed sydd yn manteisio ar y cynnig | Fel ar Medi 13 (felly dim rhai sy'n troi'n 3):<br>Lleoliadau Nas Cynhelir | Mewn lleoliadau a gynhelir mae tua 1863 3-4 a 4 mlwydd oed sydd yn | Mae'r holl ddarpariaeth mewn ysgolion, disgyblion Meithrinfa 1 (3 mlwydd oed) - | Cyfanswm ar gyfer pob lleoliad - 610 o blant tymor y Gwanwyn a thymor yr Haf |

| | CASNEWYDD | SIR GAERFYRDDIN | CASTELL-NEDD PORT TALBOT | DINBYCH |
|---|---|---|---|---|
| blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd? | (NMS) 389; Lleoliadau a Gynhelir (LA) 1349; CYFANSWM 1738 | manteisio ar y cynnig blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd.<br>Mewn lleoliadau nas cynhelir ar gyfartaledd mae rhwng 380 a 450 o blant yn manteisio ar y cynnig blynyddoedd cynnar. | 536 (darpariaeth CYBLD Ionawr 2014), disgyblion Meithrinfa 2 (4 mlwydd oed) - 1499 (darpariaeth CYBLD Ionawr 2014) | |
| Beth yw'r cyfraddau presenoldeb cyfartalog ar gyfer y cynnig presennol? | 84% - Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar gyfraddau presenoldeb ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod rhwng Medi a Rhagfyr 13 a ddarparwyd gan sampl o Leoliadau nad ydynt yn cael eu Cynnal yng Nghasnewydd sydd wedi ymateb i gais am wybodaeth. | Mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion a gynhelir yn dda, bydd union ffigurau yn dilyn.<br>Mewn lleoliadau nas cynhelir ar gyfartaledd mae tua 75% o blant 3 oed sy'n manteisio ar y blynyddoedd cynnar presennol yn mynychu 10 awr llawn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar am ddim. Mae 25% o blant 3 mlwydd oed sy'n manteisio ar y cynnig yn amrywio o ddefnyddio 6-10 awr o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar am ddim. | Nid yw'r systemau a ddefnyddir mewn ysgolion ar hyn o bryd yn cynhyrchu data ar gyfer cyfraddau presenoldeb disgyblion, felly nid yw hyn yn hysbys ar lefel Awdurdod Lleol | Nid yw'r data presenoldeb yn cael ei gasglu ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Lleol - Polisi presenoldeb wedi'i gynnwys - Chyfraddau absenoldeb yn cael ei gasglu gan yr Athrawon sy'n darparu 10% o gefnogaeth - Arweinwyr Lleoliad yn hysbysu'r Athrawon am unrhyw blant gyda phresenoldeb gwaeth a bydd yr ESW yn cysylltu â'r Teuluoedd i annog gwell presenoldeb. |

| | CASNEWYDD | SIR GAERFYRDDIN | CASTELL-NEDD PORT TALBOT | DINBYCH |
|---|---|---|---|---|
| Faint o leoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio? | Amcangyfrif o 36% - Cyfanswm niferoedd y lleoedd EY sydd ar gael fesul lleoliad yn ansicr oherwydd gwahanol niferoedd o blant sy'n defnyddio lleoedd rhan amser o'u cymharu â'r lleoedd llawn amser, yn ogystal â nifer amrywiol o blant iau, nad ydynt wedi'u hariannu (2½ - 3 mlwydd oed) oedran cyn ysgol sydd hefyd hefyd yn cymryd lleoedd cyn ysgol bob tymor. Yn ogystal, erbyn diwedd y flwyddyn academaidd bydd canran y lleoedd 'nad ydynt yn cael eu defnyddio' yn gostwng wrth i fwy o blant tair mlwydd oed gymryd y lleoedd sydd ar gael yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf.<br>Felly, mae'n anodd darparu ffigurau statig. Darparwyd canran yn seiliedig ar wybodaeth o leoliadau ar gyfer lleoedd a ariennir wedi'u cronni o dymor yr Hydref 13 a thymor y Gwanwyn 14. | Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd | Anhysbys | Mae cyfanswm o 973 o leoedd ar gael yn y ddarpariaeth cyn ysgol. Mae hyn yn rhoi 363 o leoedd heb eu defnyddio yn yr Awdurdod. |

| | CASNEWYDD | SIR GAERFYRDDIN | CASTELL-NEDD PORT TALBOT | DINBYCH |
|---|---|---|---|---|
| Faint o sesiynau na chafodd eu defnyddio? | 11% (252) bob wythnos yn seiliedig ar wybodaeth o 24 lleoliad cynhelir dros y cyfnod rhwng Medi 13-Mawrth 14 | Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd | Anhysbys | Data ddim yn cael ei gasglu ar hyn o bryd - roedd 3 cylch chwarae yn nhymor y Gwanwyn heb unrhyw blant 3 mlwydd oed a ariennir, mae ganddynt blant yn nhymor yr haf. |
| Y gost ar gyfer pob lle? | £6.83 (cynnydd o £6.72 Medi) | Mewn lleoliadau nas cynhelir rydym yn rhoi £30 yr wythnos i bob plentyn (cyfradd o £3 ar gyfer isafswm o 10 awr yr wythnos) dros nifer cytunedig o wythnos y tymor, tebyg i wythnos ysgol. | £3944 ar gyfer 2013/14 (bydd ffigurau 2014/15 ar gael ar ddiwedd Chwefror) | £350 |
| Sut ydych chi'n bodloni galw rhieni am leoedd? | Drwy:<br>• Ymgynghoriad DSA.<br>• Gan weithio'n agos gydag adran Dderbyn yr Awdurdod Lleol i sicrhau fod rhieni yn ymwybodol o'r dewisiadau, yr argaeledd a'r opsiynau pe na fyddai lle yn eu dewis cyntaf.<br>• Ceisiadau am leoedd mewn lleoliad nas cynhelir (NMS).<br>• Nifer o lythyrau Gwrthod gan lleoliadau a gynhelir - cyfeirio'r teuluoedd hynny at yr FIS neu'r | Os bydd rhieni yn methu â chael lle mewn ysgol, yna mae cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar mewn lleoliad nas cynhelir. | | Mae'r rhieni yn gwneud cais am y lleoliad o ddewis ac mae'r Awdurdod yn gallu ateb y galw hwnnw. |


| | CASNEWYDD | SIR GAERFYRDDIN | CASTELL-NEDD PORT TALBOT | DINBYCH |
|---|---|---|---|---|
| | NMS am wybodaeth | | | |
| Ydy'r rhan fwyaf o blant yn mynychu'r nifer llawn o sesiynau a gynigir? Os na, pam ddim? | | Ydy, mae'r rhan fwyaf o blant yn mynychu'r nifer llawn o sesiynau a gynigir. Mae un plentyn nad yw'n mynychu yn rheolaidd, rydym yn monitro'r sefyllfa ar hyn o bryd. | | Nid oes galw ar gyfer plant gan rieni i beidio â mynychu'r cynnig 10 awr llawn. |
| Faint o leoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio? | | Dim | | |
| Faint o sesiynau na chafodd eu defnyddio | | Dim | | |
| Pa gostau ychwanegol a gafwyd wrth ddarparu'r cynnig hyblyg newydd? | | Cafwyd costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â gofynion AGGCC i gofrestru i ddarparu gofal. Fodd bynnag, talwyd am y goblygiadau ariannol hyn gan adrannau eraill. | | Cyflogi 9 Gweithiwr Cyswllt Teulu ar Raddfa 6. Llawn amser tymor yn unig. £23,000 x £207,000<br><br>Athro Cyflenwi i Ysgolion allu rhyddhau Athro profiadol - cyflenwi am hanner diwrnod yr wythnos fesul tymor 39 wythnos = £46,000 i gefnogi'r lleoliadau nas cynhelir. |
| **Materion Cyffredinol:** | | | | |
| Sut ydych chi'n darparu i blant o gymunedau difreintiedig? e.e. Dechrau'n Deg, Cymunedau'n Gyntaf, eraill | • Data trosiannol rhwng lleoliadau ar ddatblygiad plentyn a chefndir teuluol<br>• Darperir cefnogaeth drwy leoedd â chymorth (arian ar gyfer teuluoedd dan anfantais incwm isel)<br>• Cynigir cefnogaeth 1:1 i | Mae rhai lleoliadau yn y peilot wedi sefydlu lleoliad Dechrau'n Deg, felly y nod yw cynnig darpariaeth y blynyddoedd cynnar mewn partneriaeth gyda Dechrau'n Deg. | Mae gan 2 o'r 3 ysgol ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn ei dalgylch, ac mae 2 ysgolion cyfrwng Cymraeg | O ran Dechrau'n Deg, y cap ar yr holl ardal DD ar gyfer 13/14 oedd 774 ond ar gyfartaledd roedd gennym 789 o blant o dan 4 mlwydd oed wedi cofrestru gydag Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg yn ystod 13/14. |

| | CASNEWYDD | SIR GAERFYRDDIN | CASTELL-NEDD PORT TALBOT | DINBYCH |
|---|---|---|---|---|
| | blant gydag anghenion ychwanegol<br>• Cyllid sy’n croesi ffiniau gyda awdurdodau lleol cyfagos. | | | |
| Os bydd darpariaeth Dechrau'n Deg ar gael yn yr ardal, faint o blant fydd yn cael y ddarpariaeth hon? | Bydd cynllun Peilot FP ledled Casnewydd gan nad yw’r dalgylchoedd ar gyfer NMS yn eu lle. Felly bydd yr ardaloedd yng Nghasnewydd y mae Dechrau'n Deg yn gweithredu ynddynt yn gallu manteisio ar ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen, neu bontio iddo. | Bydd y wybodaeth hon yn dilyn unwaith y bydd yr holl leoliadau wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot. | | O’r plant hynny ac o ystyried y ddarpariaeth gofal plant roedd 203 o blant yn gymwys am ofal plant (wedi troi’n 2 flwydd oed neu’n cael eu trosglwyddo i FS yn 2 flwydd oed), yn 13/14.<br><br>Gwnaed cynnig lawn o ofal plant i 230 o blant (12.5 awr yr wythnos) yn 13/14 (ffigwr ychydig yn uwch na’r rhai oedd yn gymwys oherwydd y gwahaniaeth yn nhymor yr ysgol a chyfnodau adroddiad Llywodraeth Cymru). Derbyniodd 195 o blant y cynnig llawn (12.5 awr yr wythnos) a derbyniodd 2 gynnig llai (unrhyw beth llai na 10 awr yr wythnos) yn 13/14. |
| Faint o deuluoedd sy’n siarad Cymraeg a pha ddarpariaeth a wnaed | Amcangyfrif o 9157 o gyfanswm poblogaeth Casnewydd | Yn mapio darpariaeth Gymraeg a draws yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd | | Gofynnodd 27 o blant cymwys am le mewn lleoliad Cymraeg ei iaith a bodlonwyd yr holl |

| | CASNEWYDD | SIR GAERFYRDDIN | CASTELL-NEDD PORT TALBOT | DINBYCH |
|---|---|---|---|---|
| ar eu cyfer. | 4.2% o blant oedran ysgol gynradd yn manteisio ar Ysgolion cyfrwng Cymraeg | | | geisiadau. |


## Atodiad B. Crynodeb o Ganfyddiadau o’r E-Arolwg Rhieni

### 1. Oeddech chi’n ymwybodol o gynnig y cynllun peilot hyblygrwydd yn lleoliad/ysgol eich plentyn?





| Gwerth | Canran | Cyfrif |
|---|---|---|
| Oeddwn | 93 % | 27 |
| Nac oeddwn | 7% | 2 |
| Cyfanswm | | 29 |

## 2. Sut oeddech chi'n ymwybodol o gynnig y cynllun peilot hyblygrwydd?





| Gwerth | Canran | Cyfrif |
|---|---|---|
| Ysgol/lleoliad | 79 % | 23 |
| Rhieni eraill | 24 % | 7 |
| Awdurdod Lleol | 3 % | 1 |
| Ymwelydd Iechyd | 3 % | 1 |
| Arall | 7 % | 2 |
| Cyfanswm | | 29 |

**3. Ydy eich plentyn yn cymryd rhan yn y cynllun peilot hyblygrwydd ar hyn o bryd?**





| **Gwerth** | **Canran** | **Cyfrif** |
|---|---|---|
| Ydi | 52 % | 15 |
| Nac ydi | 24 % | 7 |
| Na, ond mae wedi cymryd rhan yn y gorffennol | 24 % | 7 |
| Cyfanswm | | 29 |

**5. Ydy cyflwyno’r cynllun Peilot Hyblygrwydd wedi cael unrhyw effaith ar eich trefniadau gweithio neu ofal plant?**





| **Gwerth** | **Canran** | **Cyfrif** |
|---|---|---|
| Ydi | 76 % | 22 |
| Nac ydi | 24 % | 7 |
| Cyfanswm | | 29 |

**6. Ydy’r cynllun peilot hyblygrwydd wedi bod yn ddefnyddiol i chi?**





| **Gwerth** | **Canran** | **Cyfrif** |
|---|---|---|
| Ydi | 93 % | 25 |
| Nac ydi | 7 % | 2 |
| Cyfanswm | | 27 |

**7. Ydy'r cynnig hyblyg wedi bod yn ddefnyddiol i chi?**




| **Gwerth** | **Canran** | **Cyfrif** |
|---|---|---|
| Do | 89 % | 25 |
| Naddo | 4 % | 1 |
| Dim effaith | 7 % | 2 |
| Cyfanswm | | 28 |

**8. A hoffech chi weld unrhyw newidiadau i'r cynllun peilot hyblygrwydd yn y dyfodol?**




| **Gwerth** | **Canran** | **Cyfrif** |
|---|---|---|
| Hoffwn | 18 % | 5 |
| Na hoffwn | 82 % | 23 |
| Cyfanswm | | 28 |

**9. Mae gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd yn arbrofi gyda gwahanol fathau o ddarpariaeth hyblyg. O'r mentrau canlynol sy'n bodoli'n barod, pa un ydych chi'n feddwl fyddai'n fwyaf defnyddiol i chi a'ch plentyn?**

| | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | Ddim yn arbennig o ddefnyddiol | Ddim yn gwybod | Eithaf defnyddiol | Defnyddiol iawn | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darpariaeth a rennir (gall plant gymryd y deg awr mewn hyd at tri lleoliad/tair ysgol wahanol)** | **45%** 13 | **28%** 8 | **1 %** 5 | **7%** 2 | **3%** 1 | 29 |
| **Oriau anghymdeithasol (ysgolion/lleoliadau yn agor yn gynnar ac yn aros ar agor yn hwyr i ddarparu ar gyfer patrymau sifftiau anarferol)** | **7%** 2 | **11%** 3 | **18%** 5 | **29%** 8 | **36%** 10 | 28 |
| **Darpariaeth 50 wythnos (ysgolion/lleoliadau yn cynnig y Cyfnod Sylfaen yn ystod gwyliau ysgol ac eithrio'r Nadolig)** | **11%** 3 | **22%** 6 | **11%** 3 | **18%** 5 | **37%** 10 | 27 |
| **Darpariaeth diwrnod llawn (gall plant gymryd y 10 awr mewn 'blociau' o foreau A phrynhawniau os oes angen)** | **0%** 0 | **4%** 1 | **7%** 2 | **29%** 8 | **61%** 17 | 28 |
| **Gofal cofleidiol (nid yw ysgolion/lleoliadau yn cynnig y Cyfnod Sylfaen y tu allan i'r deg awr ond maen nhw'n cynnig gofal plant, h.y. gall plant aros drwy'r dydd)** | **7%** 2 | **4%** 1 | **11%** 3 | **14%** 4 | **64%** 18 | 28 |

# Atodiad C. Lles Cyfartalog Plant ac Ymgysylltu fesul Lleoliad

| Lleoliad | Awdurdod Lleol | A Gynhelir (M) neu Nas Cynhelir (NM) | Ffurf y ddarpariaeth hyblyg | Plant ar y gofrestr | Defnydd y cynnig hyblyg | Lles cyfartalog (1 yw'r isaf, 5 yw'r uchaf) | Cyfranogiad cyfartalog (1 yw'r isaf, 5 yw'r uchaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NPNM01 | Casnewydd | NM | 50 wythnos | 14 | 8 | 3.5 (AM), 4 (PM) | 3.5 (AM), 4.4 (PM) |
| NPNM02 | Casnewydd | NM | Oriau Anghymdeithasol | 21 | 2 x 3-4 blwydd oed, 2 x o blant iau | 3.5 | 3.9 |
| NPNM03 | Casnewydd | NM | Darpariaeth a Rennir | 50 | 2 | 3.6(AM), 3.5 (PM) | 4.2(AM), 4.5 (PM) |
| NPNM04 | Casnewydd | NM | Darpariaeth a Rennir | 25 | 5 | 4 | 4 |
| NPNM05 | Casnewydd | NM | Darpariaeth a Rennir, 50 wythnos, Oriau Anghymdeithasol | 35 | 1 x 50 wythnos; 1 x SP; 3 x UH | 3.7 | 3.8 |
| NPNM06 | Casnewydd | NM | Darpariaeth a Rennir | 41 | 4 | 3.7 (AM), 3.6(PM) | 3.9 (AM),3.8 (PM) |
| NPTM07 | Castell-nedd Port Talbot | M | Darpariaeth Diwrnod Llawn | 26 | 26 | 3.9 (AM), 3.9 (PM) | 3.4 (AM), 3.9 (PM) |
| NPTM08 | Castell-nedd Port Talbot | M | Darpariaeth Diwrnod Llawn | 28 | 16 | 3.4(AM), 3.5(PM) | 3.5 (AM), 3.4 (PM) |
| NPTM09 | Castell-nedd Port Talbot | M | Darpariaeth Diwrnod Llawn | 29 | 15 | 3.6 (AM), 3.7 (PM) | 3.9 (AM), 4.2 (PM) |
| CM10 | Sir Gâr | M | Gofal cofleidiol | 25 | 17 | 4 (AM), 4 (PM) | 3.5 (AM), 3.2 (PM) |
| CM11 | Sir Gâr | M | Darpariaeth gofal meithrin ar y safle | 16 | 3 | 3.6. | 3.3 |
| CNM12 | Sir Gâr | NM | Hawl a ddarperir mewn lleoliad NM | NK | 10 | 3.8 | 3.6. |

| Lleoliad | Awdurdod Lleol | A Gynhelir (M) neu Nas Cynhelir (NM) | Ffurf y ddarpariaeth hyblyg | Plant ar y gofrestr | Defnydd y cynnig hyblyg | Lles cyfartalog (1 yw'r isaf, 5 yw'r uchaf) | Cyfranogiad cyfartalog (1 yw'r isaf, 5 yw'r uchaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CNM13 | Sir Gâr | NM | Cynigir darpariaeth pr | 14 | 0 | 3.6. | 3.1 |

## Atodiad D: 'Dewislen' o Wahanol Fathau o Ddarpariaeth Hyblyg

## Darpariaeth a Rennir

### Beth ydyw?

- Mae'r math hwn o hyblygrwydd yn caniatáu i rieni a phlant fanteisio ar eu hawl i ddeg awr **ar draws nifer o leoliadau.**
- Gall plant fanteisio ar ddarpariaeth a rennir rhwng lleoliadau meithrin gwahanol drwy'r *holl* siroedd yn y consortia addysgol.
- Gall plant ddefnyddio eu hawl mewn hyd at dri lleoliad, er fod darpariaeth yn cael ei rannu rhwng dau leoliad fel arfer.
- Mae'r plant sy'n cymryd rhan yn y ddarpariaeth a rennir yn rhannu darpariaeth rhwng Meithrinfeydd sesiynol (h.y., y rheini sy'n cynnig darpariaeth bore neu brynhawn yn unig) a Meithrinfeydd dydd (h.y. gyda darpariaeth cofleidiol diwrnod llawn).
- Fel arfer ni fyddai plant yn rhannu darpariaeth rhwng dau leoliad diwrnod llawn.
- Gall y math hwn o hyblygrwydd felly bontio' sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir.

### Galw

- Daw'r galw am yr hyblygrwydd hwn gan rieni sydd am i'w plant gael fynychu meithrinfa *leol* a derbyn manteision cymdeithasu gyda chyfoedion ysgol yn y dyfodol ond nad ydynt yn gallu manteisio ar lleoliad hwn oherwydd mae bod diffyg gofal cofleidiol sy'n gydnaws â'u horiau gwaith.
- Ar eu diwrnodau gwaith, neu ar ddiwrnodau lle na allant drefnu gofal plant, fel arfer mae'n rhaid i rieni gludo eu plant i'r feithrinfa ddydd oes digon o ofal cofleidiol yno.
- Ar ddiwrnodau lle gallant drefnu gofal plant neu lle y gall y rhiant fod i ffwrdd o'r gwaith, byddai'n well ganddynt i'w plentyn fanteisio ar y feithrinfa leol yn hytrach na'r feithrinfa dydd.

- Cyn cyflwyno’r ddarpariaeth a rennir, ni all y rhieni fanteisio ar eu hawl i ddeg awr am ddim ar draws nifer o leoliadau.
- Yn ogystal â hynny, mae bodolaeth paramedrau angenrheidiol ar ddarpariaeth (fel pennu bod rhaid i blentyn fynychu Meithrinfa am leiafswm o ddyddiau neu oriau i ennill ei le) o bosibl yn golygu nad yw rhieni yn gallu rhoi eu plant yn eu meithrinfa leol ar y diwrnodau pan maen nhw i ffwrdd o'r gwaith.
- Gallai’r paramedrau hyn hefyd o bosibl olygu bod rhieni yn debygol *o gadw eu plant allan* o'r feithrinfa breifat ar ddiwrnodau nad ydynt yn gweithio, ac felly yn lleihau faint o amser mae’r plant yn fanteisio ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.
- Yn olaf, gallai’r paramedrau hyn olygu na fyddai’r plentyn yn gallu profi eu Meithrinfa lleol a chymdeithasu gyda phlant eraill y byddan nhw yn yr ysgol gynradd gyda nhw yn y pen draw.
- Byddai'r math hwn o hyblygrwydd fel arfer o fudd i rieni sy’n gweithio, yn enwedig y rhai sy'n cymudo i'r gwaith, a rhieni sy'n gweithio sy'n brin o rwydweithiau lleol anffurfiol o ran gofal plant.
- Efallai bod yr amgylchiadau sy'n golygu bod angen darpariaeth a rennir yn golygu bod y galw yn fwy cyffredin ymhlith rhieni sy'n gweithio na rieni nad ydynt yn gweithio, ac efallai y bydd y galw a'r defnydd felly yn amrywio rhwng gwahanol leoedd.

**Effaith a chyngor ar gyfer rhanddeiliaid**

Cafodd y math hwn o hyblygrwydd nifer o effeithiau cadarnhaol.

i. Gan ganiatáu manteisio ar hawl ar draws lleoliadau lluosog, gallai rhieni bellach gael budd ariannol nad oedd ar gael iddynt o'r blaen.

ii. Mae caniatáu cymryd lleoedd ar draws nifer o leoliadau yn golygu y dylai rhieni allu cael eu plant mewn i’r ‘feithrinfa leol’ bob amser yn ogystal â’r lleoliad y maen nhw’n ei ddefnyddio pan fyddan nhw’n gweithio (a phan maen nhw angen mwy o ofal cofleidiol).

iii. Mae’r hyblygrwydd hwn yn galluogi i blant elwa ar y parhad o gymdeithasu gyda’u ffrindiau ysgol gynradd yn y dyfodol.
iv. Mae’r ddarpariaeth a rennir yn annog rhieni i fynd â’u plant i'r feithrinfa leol ar y dyddiau hynny nad oeddent yn gweithio (o'r blaen efallai y byddent wedi cadw’r plentyn adref) ac felly yn annog mwy o ddefnydd o’r Cyfnod Sylfaen gan y bydd y plant mewn gwirionedd yn mynychu mwy o sesiynau drwy’r wythnos.

- Mae’r ddarpariaeth a rennir yn rhad ac am ddim, ac nid oes angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf.
- Gallai’r ddarpariaeth a rennir gynnwys nifer o gymhlethdodau posibl y gellir eu goresgyn drwy drefniadaeth a rheolaeth effeithiol:

i. Mae perygl y gallai’r plentyn sy’n manteisio ar y ddarpariaeth a rennir naill ai golli allan neu ddyblygu eu profiadau dyblygu yn y ddau leoliad. Mae rhoi darpariaeth a rennir ar waith yn effeithiol felly yn dibynnu ar ddulliau cyfathrebu clir a threfnus rhwng lleoliadau, ac mae angen iddynt fod mewn cysylltiad rheolaidd mewn perthynas â chynnydd y plant a rennir a’u hymgysylltiad gyda’r Cyfnod Sylfaen.
ii. Dylai lleoliadau hefyd fod yn ymwybodol o broblemau posibl ynghylch sut mae plant yn rheoli dwy set o ffrindiau a dwy set o staff.
iii. Dylai lleoliadau hefyd fod yn ymwybodol o effaith darpariaeth a rennir ar lefelau staffio/cymarebau a chapasiti (gan y bydd mwy o blant ar ddyddiau penodol o’r wythnos nag ar ddyddiau eraill ac felly bydd angen mwy o staff).

## Oriau anghymdeithasol

### Beth ydyw?

- Mae’r math hwn o hyblygrwydd syn golygu bod meithrinfeydd yn ehangu eu gofal cofleidiol i agor yn gynharach a chau yn hwyrach.
- Diben hyn yw darparu ar gyfer patrymau gweithio gweithwyr allweddol penodol (e.e., nyrsys, swyddogion yr heddlu) na fyddai wedi gallu manteisio ar ofal plant o’r blaen oherwydd yr oriau anghymdeithasol.
- Gallai’r meithrinfeydd sy’n cymryd rhan yn y math o hyblygrwydd oriau anghymdeithasol agor mor gynnar â 6am.
- Nid yw’r union oriau yn sefydlog (e.e.fesul tymor) ond byddant yn cael eu trefnu yn ad hoc ar sail anghenion y rhieni y mae eu sifftiau yn amrywio’n rheolaidd.
- Er bod y plant yn dod mewn yn gynnar, nid yw’r addysg yn dechrau tan yr amser rheolaidd o 9am.
- Gall rhai plant fod yn y feithrinfa o 6am tan 6pm neu'n hwyrach.

### Galw

- Oherwydd y diffyg mynediad at ofal cofleidiol efallai bod gweithwyr sifft yn fwy tebygol o ddibynnu ar warchodwyr plant preifat neu fathau anffurfiol ac yn y pen draw yn llai tebygol o fanteisio ar addysg cyn ysgol. Hynny yw, mae perygl bod y plant hyn yn fwy tebygol o gael eu cadw 'allan o'r system'.
- Felly, mae gan y fformat oriau anghymdeithasol y potensial i gynyddu'r *defnydd* o’r 10 awr.

### Effaith a chyngor ar gyfer rhanddeiliaid

- Gall y math o hyblygrwydd fod o fudd i rieni sy'n gweithio, yn enwedig gweithwyr sifft, ac i'w plant.
- Gallai fod yn haws rheoli’r math hwn o hyblygrwydd yn y sector nas cynhelir lle mae gosodiadau fel mater o drefn yn agor yn gynharach beth bynnag.

- I’w roi ar waith yn effeithiol, fodd bynnag, dylai rheolwyr fod yn sensitif i’r effaith bosibl y gallai’r math hwn ei chael ar lefelau staffio a rotâu (e.e., bydd staff yn gorfod dod mewn yn gynnar ond wedyn hefyd yn gorfod gadael yn gynnar).
- Efallai y bydd lleoliadau hefyd angen cymhelliant ariannol i gynnig y math hwn o hyblygrwydd gan y gallai agor yn gynnar ar gyfer nifer gyfyngedig o blant gostio mwy mewn lefelau staffio nag y mae'r lleoliad yn ei gael gan y rhieni.
- Dylai’r lleoliadau fod yn ymwybodol o’r potensial i’r fformat hwn flino’r plant sy’n cymryd rhan, a dylai fod yn sensitif i'r ffactor hwn wrth addysgu.

## Darpariaeth 50 wythnos

### Beth ydyw?

- Mae paramedrau traddodiadol sy'n bodoli'n barod yn narpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn nodi y dylai'r cwricwlwm gael ei gynnig dros dymor o 39 wythnos yn unig (e.e.,fel arfer mae rhieni a phlant yn manteisio ar 5 sesiwn dros 39 wythnos). Mewn geiriau eraill, *nid yw* meithrinfeydd yn y sector nas cynhelir yn rhoi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith yn ystod gwyliau'r ysgol.
- At hynny, ni all rhieni hawlio ad-daliad am eu deg awr 'am ddim' am ddarpariaeth tymor y gwyliau.
- Felly mae'r math '50 wythnos' o hyblygrwydd wedi'i ddylunio i ehangu neu ledaenu'r *hawl* i ddeg awr (5 sesiwn) yr wythnos i 50 wythnos (h.y., dros wyliau'r ysgol), a rhoi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith yn ystod gwyliau'r ysgol, ac eithrio'r Nadolig.
- **Dim ond yn y sector nas cynhelir** y mae'r math hwn o hyblygrwydd **yn bosibl,** gan fod lleoliadau a gynhelir ar gau yn ystod gwyliau ysgol.

### Galw

- O dan y paramedrau blaenorol, nid yw **plant rhan amser** yn unig sy'n mynychu'r feithrinfa 3 diwrnod yr wythnos, er enghraifft, yn gallu manteisio ar y Cyfnod Sylfaen yn ystod gwyliau'r ysgol, ac felly yn y pen draw byddent yn manteisio ar *lai o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen na'u cyfoedion* (byddai rhieni sy'n gweithio rhan amser e.e. 2-3 diwrnod yr wythnos fel arfer yn cadw eu plant gartref ar y dyddiau pan nad ydynt yn gweithio).
- Mae rhieni hefyd yn colli allan ar eu hawliau ariannol ar gyfer y diwrnodau nad oedd eu plentyn rhan amser yn defnyddio'r feithrinfa.
- Mae'r ddarpariaeth 50 wythnos yn gyntaf wedi'i ddylunio i **helpu plant rhan amser** i wneud iawn am eu 'diffyg', drwy ganiatáu iddynt fanteisio ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn ystod y gwyliau ysgol, pan nad oedd hynny'n bosibl yn flaenorol.

- Fe'i cynlluniwyd ag anghenion y plentyn (rhan amser) mewn cof gan ei fod yn cynyddu faint o’r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen y bydd y plant yn manteisio arno.
- Bwriedir iddo hefyd helpu rhieni gyda chostau gofal plant yn ystod darpariaeth gwyliau, gan eu galluogi i fanteisio ar eu sesiynau am ddim yn ystod y gwyliau, pan oedd hynny'n bosibl o'r blaen (gan sicrhau nad yw costau gofal plant yn ‘cynyddu’n gyflym’ i rieni yn ystod gwyliau, ond yn aros yn gyson drwy gydol y flwyddyn).

**Effaith a chyngor ar gyfer rhanddeiliaid**

- Bydd y math hwn o hyblygrwydd o fantais i rieni yn ariannol.
- Gallai’r math hwn o hyblygrwydd fod o fudd i’r plant hynny oedd yn manteisio ar y ddarpariaeth ofynnol yn unig cyn hyn (h.y. 3 diwrnod yr wythnos).
- Dylai darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn ystod gwyliau'r ysgol sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ac atal ‘anghofio sgiliau’.
- Yr her i ymarferwyr yw sicrhau bod plant sy’n cymryd rhan yn y ddarpariaeth 50 wythnos (rhan amser yn ystod yr wythnos) yn cael yr un cwricwlwm â phlant 39 wythnos, sydd yn llawn amser (h.y., nad ydynt yn colli allan ar dasgau a gweithgareddau yn ystod yr wythnos, ac os ydynt, sicrhau bod eu darpariaeth gwyliau yn canolbwyntio ar y tasgau y maent efallai wedi eu colli).
- Arfer gorau fyddai olrhain plant 39 wythnos a 50 wythnos  ar wahân i fonitro eu cynnydd a’r tasgau yr oedden nhw yn eu cwblhau yn gywir.
- Dylid monitro cyflawni’r tasgau, ac os bydd plant yn colli tasg dylid nodi i’w gyflawni’ ar eu cyfer (e.e, yn ystod yr wythnos nesaf).
- Mae plant yn cadw at y drefn hon drwy fanteisio ar y Cyfnod Sylfaen a’r tasgau hyn yn ystod eu gwyliau.
- Roedd unrhyw 'fylchau' yng nghyrhaeddiad plant 50 wythnos yn cael sylw yn ystod cyfnod y gwyliau (h.y. yn ystod yr 11 wythnos ychwanegol).

## Darpariaeth Diwrnod Llawn

**Beth ydyw?**

- Mae'r math hwn o hyblygrwydd yn ystwytho sut y gellir cymryd y 10 awr o addysg feithrin ar draws yr wythnos.
- Yn draddodiadol, dim ond bore neu brynhawn mae plant yn gallu eu gwneud (9AM-11.30AM neu 1AM-3.30PM)
- Bellach caniateir i blant sydd mewn lleoliadau sy’n cynnig darpariaeth diwrnod llawn wneud cyfuniad o fore a phrynhawn, neu'r *ddau*, h.y. i aros am y diwrnod llawn.
- Felly yn nosbarth Meithrin ysgol gellir cymryd 5 sesiwn (2 awr yr un sy’n cyfateb i gyfanswm o 10 awr) gan y rhieni mewn unrhyw gyfuniad (h.y.cymysgedd o sesiynau bore *a* phrynhawn o’u cymharu â sesiynau bore *neu* prynhawn dyddiol).

**Galw**

- Mae'r math hwn o hyblygrwydd bennaf yn ymateb i 'anghyfleustra' canfyddedig y fformat boreau neu brynhawniau yn unig traddodiadol.
- Amcanion y cynllun peilot oed ‘gwneud bywyd yn haws i rieni sy'n gweithio’; i helpu rhieni di-waith gael gwaith; ac i hwyluso mwy o ymgysylltiad gyda'r system addysgol gan rieni difreintiedig neu rhieni a phlant sydd ar y cyrion.
- Dywedodd cynrychiolwyr yr awdurdod lleol eu bod yn teimlo y gallai’r amser cyswllt ychwanegol yn y ddarpariaeth dau-ddiwrnod-a-hanner o bosibl helpu plant o deuluoedd difreintiedig gan mai dyma’r plant oedd angen parodrwydd ysgol yn fwyaf yn gyffredinol.

**Effaith a chyngor ar gyfer rhanddeiliaid**

- Gall y math hwn o hyblygrwydd yn helpu rhieni gyda’u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Gallai’r math hwn o hyblygrwydd effeithio’n gadarnhaol ar barodrwydd ysgol y plant drwy roi amser cyswllt ychwanegol iddynt.

- Ar y llaw arall, mae'n rhaid i staff hefyd fod yn sensitif i'r posibilrwydd o flinder cynyddol ymysg myfyrwyr sy'n aros am ddiwrnod llawn.
- Mae'n arfer gorau i leoliadau fabwysiadu ymagwedd hyblyg at y math hwn o hyblygrwydd, gan alluogi plant i 'ymuno ' neu 'adael' y sesiynau diwrnod llawn os nad ydynt yn ymdopi'n dda.
- Yn ymarferol, roedd y math hwn o hyblygrwydd yn golygu bod llawer o rieni wedi dewis manteisio ar eu darpariaeth deg awr mewn 'blociau' o ddau ddiwrnod ac un hanner diwrnod arall (2.5 diwrnod).
- Felly mewn un dosbarth, byddai rhai plant yn cadw at y drefn boreau yn unig ‘traddodiadol’, tra fod eraill yn manteisio ar 1 neu 2 ddiwrnod llawn.
- Gallai hyn arwain at gofrestr 'clytwaith', gan fod plant gwahanol yn y dosbarth yn manteisio ar eu hawl mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae’n rhaid i staff fod yn sensitif i faterion posibl a godir gan y ‘gofrestr clytwaith’ hon a rhaid cynllunio’n unol â hynny.
- O dan y math hwn o hyblygrwydd gallai plant yn yr un dosbarth yn mynychu sesiynau gwahanol dros gyfnod o wythnos.
- Felly mae’n bwysig bod staff addysgu yn sicrhau bod pob plentyn yn manteisio ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn yr un modd er gwaethaf eu gwahanol batrymau defnydd unigol.
- Rhaid i staff fod yn sensitif i'r posibilrwydd o orfod 'gwasgu' tasgau â ffocws i gyfnodau bach o amser ar gyfer plant, a sut y gallai achosi i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wrthdaro.
- Mae enghreifftiau o arfer da yma yn cynnwys defnyddio HLTA i olrhain myfyrwyr, gan sicrhau nad ydynt yn colli neu’n dyblygu tasgau drwy gydol yr wythnos.
- Yn unol â hynny, rhaid i reolwyr fod yn sensitif i’r posibilrwydd o lwyth gwaith cynyddol i staff gyda’r math hwn o hyblygrwydd.

## Gofal cofleidiol ar y safle

### Beth ydyw?

- Mae'r math hwn o hyblygrwydd yn darparu ***gofal*** **cofleidiol ar y safle** yn y lleoliad y gall plant fanteisio arno cyn ac ar ôl eu sesiwn addysg.
- Mae rhieni yn talu’r ysgol am ofal ychwanegol ar y safle.

### Galw

- Nod y math hwn o hyblygrwydd yw helpu cydbwysedd bywyd a gwaith rhieni; arbed arian ar ofal plant; a chynorthwyo parodrwydd ysgol drwy gynyddu eu hamser cyswllt.

### Effaith a thystiolaeth ar gyfer rhanddeiliaid

- Gall y math hwn o hyblygrwydd gynorthwyo trefn ddyddiol rhieni ac arbed cost gofal plant preifat.
- Mae’r math hwn o hyblygrwydd yn annhebygol o greu gwaith ychwanegol neu roi pwysau ychwanegol ar staff, ac nid yw'n debygol o gael effaith ar roi’r Cyfnod Sylfaen ar waith.
- Gall y math hwn o hyblygrwydd gynorthwyo parodrwydd ysgol plant drwy eu hannog i arfer â threfn 'diwrnod llawn', hyd yn oed os darperir hyn fel 'gofal' yn hytrach na chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.
- Mae'n arfer da i fod yn hyblyg wrth roi’r math hwn o hyblygrwydd ar waith, gan alluogi plant i ‘ymuno' neu 'adael’ y ddarpariaeth diwrnod llawn yn dibynnu ar sut maen nhw'n ymdopi.
- Gallai fod yn ddefnyddiol i annog dull cyfnodol lle mae plant y datblygu'n raddol i ddarpariaeth diwrnod llawn.
- Mae’r math hwn o hyblygrwydd yn dibynnu ar gapasiti a gall hefyd fod yn gostus. Rhaid i leoliadau gael gofod priodol a chyllid i roi’r math hwn o hyblygrwydd ar waith.
- Yn yr un modd, mae angen i leoliadau benderfynu pwy fydd yn darparu’r gofal ar y safle (a fydd yn cael ei ddarparu gan yr ysgol neu gan ddarparwyr preifat) a sicrhau bod y ddarpariaeth gofal ar y safle o safon uchel.

## Gweithwyr Cyswllt Teulu

**Beth ydyw?**

- Yn wahanol i fathau eraill o hyblygrwydd, sy'n canolbwyntio yn gyffredinol ar ystwytho paramedrau darpariaeth gyfredol (fel arfer drwy addasu'r oriau agor), mae'r math hwn o hyblygrwydd yn ymyriad teulu/cymuned, lle mae gweithwyr cyswllt teulu yn cael eu cyflogi mewn cymunedau (difreintiedig yn bennaf) lleol.
- Gelir disgrifio rôl craidd y gweithiwr cyswllt teulu fel rôl fugeiliol, ac mae gweithwyr cyswllt teulu yn gyffredinol yn ceisio creu cysylltiadau rhwng ysgolion/lleoliadau a'r gymuned leol.
- Mae rôl y gweithiwr cyswllt teulu yn cynnwys dwy elfen gysylltiedig.
    i. gwaith wedi'i dargedu yn y gymuned; a
    ii. gwaith addysgol wedi'i dargedu mewn ysgolion 'canolbwynt' lle maen nhw wedi'u lleoli ffurfiol.
- Mae'r gweithwyr cyswllt teulu yn gweithio ar draws clystyrau o ysgolion, a gyda rhieni a phlant cyn oedran ysgol (o'u geni hyd at oedran dosbarth derbyn).
- Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys grwpiau mamau a babanod; sesiynau galw heibio 'awgrymiadau' lle rhoddir gwybod i rieni am faterion yn ymwneud â pharodrwydd ysgol; grwpiau babanod yn seiliedig ar 'iaith a chwarae' (wedi'u dylunio'n benodol i helpu plant 'genedigaeth yr haf' nad yw'n aml yn gymwys am leoedd wedi'u ariannu ac a fyddai'n colli allan fel arfer).
- Yn ystod y gwaith hwn, mae'r gweithwyr cyswllt teulu yn addysgu'r rhieni am fanteision addysg cyn ysgol.
- Mae ymyriadau ysgol gweithwyr cyswllt teulu hefyd yn bwysig.
- Maen nhw'n rhedeg nifer o ddosbarthiadau hyfforddi adferol i helpu 'parodrwydd ysgol' (er enghraifft, canolbwyntio ar ffoneg, sylw a gwrando, darllen).
- Gellir rhoi'r dasg iddynt hefyd o wella presenoldeb mewn ysgolion a delio gyda materion ymddygiadol/bugeiliol a godwyd gan ysgol.

**Galw**

- Nod y fenter *gweithwyr cyswllt teulu* yw helpu i godi safonau addysgol a ‘pharodrwydd ysgol’ ar draws yr awdurdod lleol.
- Nid yw’r fath o ddarpariaeth hyblyg ac felly dylid ystyried y galw am y dull hwn yn wahanol, ac yn seiliedig yn bennaf ar anghenion addysgol plant.
- Er mai eu tasg oedd gwella cyrhaeddiad addysgu, mae’r gweithwyr cyswllt teulu hefyd yn ceisio cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y Cyfnod Sylfaen drwy gynyddu ymwybyddiaeth rhieni o'u hawl a phwysleisio manteision addysgol addysg y blynyddoedd cynnar.

**Effaith a chyngor ar gyfer rhanddeiliaid**

- Gallai’r nod cyffredinol o wella parodrwydd ysgol (drwy ymyriadau ysgol a chymuned) ganiatáu i blant penodol ymgysylltu’n well gyda’r cwricwlwm.
- Gallai’r gwaith hwn yn ei dro ysgafnhau'r baich ar athrawon.
- Gallai gweithwyr cyswllt teulu helpu niferoedd cyffredinol lleoedd deg awr drwy ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Drwy allgymorth cymunedol, mae gweithwyr cyswllt teulu yn helpu i dargedu rhieni sydd y 'tu allan i'r system', ac yn canolbwyntio ar roi eu plant mewn addysg.
- Efallai y bydd llwyth gwaith y gweithiwr cyswllt teulu yn sylweddol iawn, ac mae'n bwysig recriwtio pobl brofiadol a medrus ar gyfer rolau pwysig hyn.